
cbac
wjec

Bagloriaeth Cymru
Welsh Baccalaureate



# Pecyn Adnoddau Dinasyddiaeth Fyd-eang

# Pecyn Adnoddau Dinasyddiaeth Fyd-eang - Uwch

## Awdur – Ruth Jones

Nod y cymhwyster Bagloriaeth Cymru Uwch yw caniatáu dysgwyr i ddatblygu ac arddangos dealltwriaeth o sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd ynghyd â phrofi eu hyfedredd yn y sgiliau hyn. The Mae'r adnodd yn fan cychwyn wrth gyfleu gwybodaeth a gwella a chymhwyso sgiliau wrth baratoi ar gyfer yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang.

Mae **Adran A** yn canolbwyntio ar ddatblygu **Gwybodaeth Sgiliau**. Mae hyn yn ymwneud â'r tri sgil o blith y Sgiliau Hanfodol a Chyflogadwyedd fydd yn cael eu hasesu yn yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang: Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau; Creadigrwydd ac Arloesedd a Llythrennedd.

Mae **Adran B** yn canolbwyntio ar **Gymhwyso Sgiliau** gan ddefnyddio'r chwe thema yn y Materion Byd-eang sydd ar gael ar gyfer asesiad ar y lefel Uwch. Mae hyn yn helpu i baratoi dysgwyr i gynhyrchu Safbwynt Personol ar fater byd-eang gan ddefnyddio amrywiaeth o wybodaeth.

Mae **Adran C** yn canolbwyntio ar **Fyfyrdod Sgiliau**.

## CYNNWYS

## Adran A – Gwybodaeth Sgiliau

**Pennod 1 – Meddwl yn Feirniadol: hygrededd y dystiolaeth**

Uned 1: Beth yw meddwl yn feirniadol?
Uned 2: Beth yw niwtraliaeth?
Uned 3: Beth yw rhagfarn/ tuedd?
Uned 4: Beth yw arbenigedd?
Uned 5: Pam bod enw da yn bwysig?
Uned 6: Sut i asesu adroddiadau arsylwi a llygad-dystion?
Gwiriad Cynnydd 1

**Pennod 2 - Meddwl yn Feirniadol: llunio dadl**

Uned 7: Beth yw dadl?
Uned 8: Beth yw dangosyddion rhesymau?
Uned 9: Beth yw dangosyddion casgliadau?
Uned 10: Beth yw tybiaethau mewn dadleuon?
Uned 11: Beth yw diffygion mewn dadleuon?
Uned 12: Sut i ddechrau llunio dadl effeithiol
Gwiriad Cynnydd 2

**Pennod 3 – Meddwl yn Feirniadol: Dadansoddiad PESTLE**

Uned 13: Beth yw dylanwadau Gwleidyddol?
Uned 14: Beth yw ffactorau Economaidd?
Uned 15: Beth yw ffactorau Economaidd?
Uned 16: Beth yw Dylanwadau Technolegol?
Uned 17: Beth yw Dylanwadau Cyfreithiol?
Uned 18: Beth yw Dylanwadau Amgylcheddol?
Gwiriad Cynnydd 3

Pennod 4 – Datrys Problemau

Uned 19: Beth yw problem?
Uned 20: Sut mae datrys problem?
Uned 21: Sut i chwilio, defnyddio a phrosesu gwybodaeth
Uned 22: Sut i gadarnhau bod problem wedi cael ei datrys?
Gwiriad Cynnydd 4

Pennod 5 – Creadigrwydd ac Arloesedd

Uned 23: Beth yw damcaniaethau creadigrwydd ac arloesedd?
Uned 24: Sut mae meddwl yn greadigol ac arloesol?
Gwiriad Cynnydd 5

Pennod 6– Cyflwyno gwybodaeth yn effeithiol
Uned 25: Cyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig yn effeithiol
Uned 26: Cyflwyno gwybodaeth ar lafar yn effeithiol
Gwiriad Cynnydd 6

Adran B – Cymhwyso Sgiliau

Gweithgareddau'n seiliedig ar astudiaethau achos gan ddefnyddio sgiliau Adran A

Uned 27: Iechyd
Uned 28: Bwyd a Lloches
Uned 29: Poblogaeth
Uned 30: Trafnidiaeth
Uned 31: Economi
Uned 32: Amgylchedd Naturiol

Adran C – Myfyrdod Sgiliau

Uned 33: Sut mae cynnal gwerthusiad effeithiol

Adran D - Atebion

UNED 1

## 1.1: Beth yw meddwl yn feirniadol?

Mae meddwl yn feirniadol yn cyfeirio at y gallu i ddadansoddi, gwerthuso a llunio dadleuon.

Gellir defnyddio'r sgiliau hyn mewn unrhyw bwnc ac yn eich bywyd bob dydd. Felly, mae Meddwl yn Feirniadol yn <u>ddull</u> y byddwch yn dysgu amdano. Byddwch yn dysgu termau arbennig a gaiff eu defnyddio gyda Meddwl yn Feirniadol yn ogystal â damcaniaeth benodol. Pan fyddwch wedi cael y pecyn offer Meddwl yn Greadigol, byddwch yn gallu gwneud penderfyniadau hyddysg yn eich bywyd bob dydd, yn ogystal â gallu llwyddo yn Heriau Bagloriaeth Cymru.

## 1.2: Beth yw hygrededd tystiolaeth?

Ystyr dadl o ran meddwl yn feirniadol yw cyflwyno un neu fwy o resymau dros gefnogi casgliad. Er mwyn atgyfnerthu dadleuon, gellir defnyddio tystiolaeth i ategu rhesymau a chasgliadau yn fwy.

Defnyddir **tystiolaeth** i **berswadio** pobl i gredu bod rhesymau a chasgliadau yn gywir. Mae hyn yn golygu bod tystiolaethyn aml yn rhagfarnllyd ac efallai na fydd o reidrwydd yn wir.

Felly, mae'n rhaid barnu'r holl dystiolaeth o ran ei hygrededd.

Ystyr **hygrededd** yw pa mor gredadwy yw'r dystiolaeth. Wrth benderfynu pa mor gredadwy yw tystiolaeth gellir defnyddio **meini prawf hygrededd.**

| **Meini prawf hygrededd** |
|---|
| *A yw'n niwtral?*<br>*A oes buddiant personol?*<br>*A yw'n rhagfarnllyd?*<br>*A ddefnyddir arbenigedd?*<br>*Beth yw'r enw da?*<br>*A oedd adroddiadau llygad-dystion?*<br>*A oes cadarnhad?*<br>*Pa mor ddetholus a chynrychioliadol ydyw?*<br>*Beth yw'r cyd-destun?* |

Lle y bo'n bosibl, dylid defnyddio o leiaf ddau neu fwy o feini prawf gyda'i gilydd.

## 1.3 Beth yw ystyr 'pwysau tystiolaeth'?

Weithiau, mae'r dystiolaeth a gyflwynir mor gadarn fel nad oes unrhyw amheuaeth nad yw'r hawliad yn wir.

Cyfeirir at hyn fel tystiolaeth **bendant.**

Fodd bynnag, yn aml nid oes tystiolaeth bendant ar gael. Weithiau, mae'n rhaid cymharu'r

dystiolaeth o blaid casgliad â'r dystiolaeth yn ei erbyn. Neu efallai nad oes unrhyw dystiolaeth ar gael.

### Astudiaeth achos 1

Ystyriwch y dystiolaeth yn y sefyllfa ganlynol:

Mae bachgen 16 oed yn cerdded allan o archfarchnad yn cario sach deithio. Nid yw wedi talu am unrhyw eitemau. Yn y sach deithio mae bar mawr o siocled a phecyn o frechdanau. Ar ôl gadael, caiff ei ddal gan dditectif y siop a heddwas. Mae ditectif y siop yn dweud ei bod hi wedi sefyll y tu ôl i'r bachgen ac wedi'i weld yn glir yn rhoi rhywbeth yn gyflym yn ei sach deithio heb dalu amdano. Mae'r heddwas yn agor y sach deithio ac yn dod o hyd i becyn o frechdanau a bar siocled mawr, y mae ditectif y siop yn honni ei fod wedi'u dwyn. Mae'r bachgen yn gwadu'r cyhuddiad, gan ddweud ei fod wedi prynu'r bar siocled a'r brechdanau mewn siop wahanol y bore hwnnw a bod yr eitemau wedi bod yn ei fag ers hynny.

**Pa dystiolaeth a geir yn y stori hon ar gyfer penderfynu a yw'r bachgen yn lleidr ai peidio?**



## 1.4 Tystiolaeth amgylchiadol

Yr unig dystiolaeth a geir yn yr enghraifft uchod yw na wnaeth y bachgen dalu am unrhyw eitemau a bod pecyn o frechdanau a bar siocled mawr yn ei sach deithio. Felly, gair un person yn erbyn un arall ydyw. Yn yr achos hwn, ditectif y siop yw'r tyst a'r cyhuddwr.

Mae **tystiolaeth amgylchiadol** yn cynnwys ffeithiau ac yn yr enghraifft hon, y ffeithiau yw:

- ni wnaeth y bachgen dalu am unrhyw eitemau
- mae pecyn o frechdanau a bar mawr o siocled yn ei sach deithio

Ar ei phen ei hun, mae'r dystiolaeth amgylchiadol yn wan. Byddai'r dystiolaeth amgylchiadol wedi bod yn llawer cryfach pe bai camera gwyliadwraeth wedi ffilmio'r bachgen yn dwyn neu

beidio â dwyn, neu pe bai ganddo dderbynneb ar gyfer yr eitemau.

## 1.5 Hygrededd

### Pwynt myfyrio 1

Y yw'r bachgen yn fwy credadwy na ditectif y siop?

Wrth lunio barn o'r fath, mae hygrededd yn ystyried y canlynol:

- Pa mor argyhoeddiadol yw pob cyfrif?
- Pa mor ddibynadwy yw'r bachgen neu pa mor debygol ydyw ei fod yn dweud y gwir?
- pa mor ddibynadwy yw ditectif y siop neu pa mor debygol ydyw ei fod yn dweud y gwir?
- I ba raddau y mae'n cyd-fynd â'r amgylchiadau?
- I ba raddau y mae'n cyd-fynd â datganiadau tystion eraill?

**A yw amddiffyniad y bachgen yn gredadwy?**

Ydy, nid oes dim anarferol ynghylch cael pecyn o frechdanau a bar mawr o siocled mewn sach deithio, ar ôl eu prynu o siop wahanol.

**A yw cyhuddiad ditectif y siop yn gredadwy?**

Ydy, mae'n ffaith bod rhai pobl yn dwyn. Ni fyddai angen rôl y ditectif pe na bai pobl byth yn dwyn o'r siop.

**A yw ditectif y siop yn ddibynadwy?**

Byddech yn disgwyl i dditectif y siop fod yn ddibynadwy. Pam y byddai'n dweud celwydd gan nad yw'n ymddangos bod ganddi ddim i'w ennill? Pe bai ditectif y siop wedi ffugio tystiolaeth, byddai hyn yn adlewyrchu'n wael pe bai'r gwir yn dod i'r amlwg.

**A yw'r bachgen yn ddibynadwy?**

Mae gan y bachgen gymhelliad i ddweud celwydd os gwnaeth ddwyn y siocled mewn gwirionedd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw reswm dros dybio bod y bachgen wedi dwyn y siocled ar hyn o bryd.

**I ba raddau y mae'n cyd-fynd â'r amgylchiadau - a allai un ohonynt fod wedi camgymryd?**

Mae'n annhebygol bod y bachgen wedi camgymryd. Mae'n rhaid bod y weithred o agor ei sach deithio a rhoi'r eitemau ynddi wedi bod yn

weithred ymwybodol. Fodd bynnag, gall ditectif y siop fod wedi camgymryd. Dywedodd ei bod yn sefyll y tu ôl i'r bachgen, felly efallai nad oedd yn gallu gweld yn glir iawn, yn enwedig gan ei bod yn bosibl bod y siop yn llawn. Hefyd, nododd ditectif y siop ei bod wedi gweld y bachgen yn glir yn rhoi rhywbeth yn gyflym yn ei sach deithio.

Mae'n debyg mai hon yw rhan bwysicaf yr achos. Os yw'n gywir, mae'r weithred 'gyflym' yn awgrymu bod y bachgen yn gwneud rhywbeth amheus; fodd bynnag, mae'r ffaith nad oedd ditectif y siop yn gallu gweld yn glir iawn ac mai dim ond 'rhywbeth' a welodd yn golygu bod y stori braidd yn annibynadwy.

Felly, oherwydd diffyg tystiolaeth galed, byddai'r achos yn erbyn y bachgen yn annhebygol o ddarbwyllo llys ei fod yn euog y tu hwnt i **amheuaeth resymol.**

**Pwynt myfyrio 2**

Os oedd y bachgen yn dadlau bod yn rhaid bod rhywun wedi rhoi'r siocled yn ei fag pan oedd yn y siop heb iddo sylwi, a fyddai hyn yn golygu bod y stori yn fwy neu'n llai argyhoeddiadol a chredadwy?

## 1.6 Cadarnhad

Ystyr **cadarnhad** yw cytuno. Gellir atgyfnerthu achosion drwy gael dau ddarn o dystiolaeth sy'n awgrymu'r un casgliadau. Er enghraifft, os bydd dau dyst neu fwy yn dweud yr un peth, mae'n fwy tebygol bod y stori honno'n wir.

Mae'n bosibl bod unrhyw dystion yn niwtral a'u bod wedi llunio'r stori eu hunain.

**Pwynt trafod 1**

Pa dystiolaeth gadarnhau isod sydd fwyaf credadwy yn eich barn chi?

1. Ffrind y bachgen - Wnaeth o ddim dwyn y siocled, roeddwn i gyda fe yn gynharach pan wnaeth ei brynu.
2. Mam y bachgen - Fyddai hynny ddim yn fy synnu; mae'n gallu bod yn fachgen drwg.
3. Siopwr sy'n clywed y sgwrs rhwng y bachgen,

yr heddwas a ditectif y siop - Gwelais i'r bachgen yn rhoi rhywbeth yn ei fag hefyd.
4. Brawd ditectif y siop sy'n gweithio wrth fan talu yn y siop - mae fy mrawd yn bendant yn dweud y gwir.
5. Siopwr sy'n mynd at y gwasanaethau cwsmeriaid i ddweud ei fod wedi gweld rhywun yn rhoi eitemau yn ei sach deithio.



**Pe byddai gennych chi un cadarnhad o'r fath, beth fyddai pwysau'r dystiolaeth yn ei awgrymu?**

## Crynodeb

- Defnyddir tystiolaeth i berswadio pobl i gredu bod rhesymau a chasgliadau yn gywir.
- Ystyr hygrededd yw pa mor gredadwy yw'r dystiolaeth.
- Mae meini prawf hygrededd yn cynnwys:
  - A yw'n niwtral?
  - A oes buddiant personol?
  - A yw'n rhagfarnllyd?
  - A ddefnyddir arbenigedd?
  - Beth yw'r enw da?
  - A oedd adroddiadau llygad-dystion?
  - A oes cadarnhad?
  - Pa mor ddetholus a chynrychioliadol ydyw?
  - Beth yw'r cyd-destun?
- Mae tystiolaeth bendant yn cyfeirio at achlysur pan na fydd unrhyw amheuaeth nad yw'r honiad yn wir.
- Ystyr cadarnhad yw cytuno.

# UNED 2

## 2.1: Beth yw niwtraliaeth?

Ystyr **ffynhonnell niwtral** yw ffynhonnell nad yw'n cymryd ochr - mae'n ddiduedd.

Nid oes ganddi gymhelliad i wyrdroi'r gwirionedd nac i fynd ati i berswadio. Felly, ystyrir ffynonellau niwtral fel arfer fel math o dystiolaeth gredadwy.

MEDECINS SANS FRONTIERES
DOCTORS WITHOUT BORDERS

Mae *Médecins Sans Frontière*/Meddygon Heb Ffiniau yn helpu pobl ledled y byd lle mae'r angen ar ei fwyaf, gan gynnig cymorth meddygon brys i bobl y mae gwrthdaro, epidemigion neu drychinebau wedi effeithio arnynt neu sydd wedi cael eu heithrio o ofal iechyd.

Maent yn nodi eu bod yn **ddiduedd,** yn **annibynnol** ac yn **niwtral.**

*'Mewn sefyllfa o wrthdaro, nid ydym yn cymryd ochr. Yn hytrach rydym yn mynd lle mae ein hangen fwyaf ar bobl. Yn ward un o ysbytai maes Meddygon Heb Ffiniau, gallech weld sifiliaid wedi'u clwyfo ochr yn ochr â milwyr wedi'u hanafu o ochrau gwrthwynebol. Mae'n rhaid anghofio am elyniaeth ac arfau.*

*Mae ein hannibyniaeth ariannol hefyd yn golygu na ellir defnyddio'r cymorth a ddarparwn i hyrwyddo unrhyw nodau gwleidyddol neu filwrol.*

BritishRedCross

Nid yw Mudiad y Groes Goch yn sefydliad gwleidyddol na chrefyddol. Mae'r niwtraliaeth hon yn golygu y gall gyrraedd pobl mewn angen a chynnig help diamod iddynt pwy bynnag ydynt a lle bynnag y maent. Yn aml, maent yn gweithio mewn gwledydd lle na all sefydliadau weithio neu lle na fyddant yn fodlon gweithio.

Maent yn croesi'r rheng flaen ar adegau o ryfel er mwyn helpu dioddefwyr gwrthdaro ac ymweld â charcharorion rhyfel ar y ddwy ochr. Maent yn dadlau mai dim ond os bydd pobl yn deall eu bod yn sefydliad niwtral, annibynnol y gallant wneud y gwaith hwn sy'n achub bywydau.

Yn syml, maent yn credu bod eu niwtraliaeth yn achub bywydau. Fel sefydliad, ni ellir ystyried bod y Groes Goch yn grefyddol nac yn wleidyddol oherwydd gallai hynny beryglu eu gallu i gyrraedd pobl sydd mewn angen.

### Pwynt trafod

Pa sefydliadau eraill sy'n ystyried eu hunain yn niwtral? Ydyn nhw'n niwtral?

Yn aml, dyfynnir bod y BBC yn sefydliad niwtral. Ystyriwch y ddadl ganlynol yn ofalus:

**RYDYN NI'N RHAGFARNLLYD; MEDDAI SÊR NEWYDDION Y BBC.**

**gan SIMON WALTERS, Mail on Sunday**

(21:11 21 October 2006)

Hwn oedd y diwrnod y cyfaddefodd llu o swyddogion gweithredol y BBC a chyflwynwyr yr hyn yr oedd adolygwyr wedi bod yn ei ddweud wrthynt ers blynyddoedd: mae'r BBC yn llawn rhyddfrydwyr ffasiynol sy'n gwyro i'r chwith, sy'n rhagfarnllyd yn erbyn Cristnogaeth ac o blaid amlddiwylliannaeth.

Mae adroddiad a ddatgelwyd o 'uwchgynhadledd ar fod yn ddiduedd' a alwyd gan Michael Grade, cadeirydd y BBC, yn sicr o arwain at ffrae newydd ynghylch y BBC a'r modd y mae'n rhoi sylw i faterion allweddol, yn enwedig Mwslimiaid a'r rhyfel ar derfysgaeth.

Mae'n datgelu y byddai swyddogion gweithredol yn gadael i'r Beibl gael ei daflu i fin sbwriel ar raglen gomedi ar y teledu ond nid y Corân, ac y byddent yn darlledu cyfweliad ag Osama Bin Laden pe byddent yn cael y cyfle. Mae hefyd yn datgelu bod 'tsar amrywiaeth' y BBC am i fenywod mwslimaidd sy'n darllen y newyddion gael caniatâd i wisgo feliau pan fyddant ar yr awyr.

Yn y cyfarfod cyfrinachol yn Llundain y mis diwethaf, dan arweiniad y ddarlledwraig brofiadol Sue Lawley, cyfaddefodd swyddogion gweithredol y BBC bod y gorfforaeth yn llawn pobl hoyw a phobl o leiafrifoedd ethnig, eu bod yn hyrwyddo amlddiwylliannaeth, ei bod yn wrth-Americanaidd, yn erbyn cefn gwlad ac yn fwy sensitif i deimladau Mwslimiaid na Christnogion.

Dywedodd un o swyddogion gweithredol profiadol y BBC: 'Roedd cydnabyddiaeth gyffredinol ei bod yn bosibl ein bod wedi mynd yn rhy bell i gyfeiriad cywirdeb gwleidyddol. Yn anffodus, mae llawer o hyn wedi'i blannu mor ddwfn yn niwylliant y BBC, fel ei bod yn anodd iawn ei newid.'

Mewn un o gyfres o drafodaethau, gofynnwyd i swyddogion gweithredol nodi sut y byddent yn ymateb pe bai'r digrifwr dadleuol Sacha Baron Cohen, sy'n enwog am ei gymeriadau sarhaus Ali G a Borat - yn westai ar raglen Room 101.

Ar y rhaglen, gwahoddir sêr i daflu eu cas bethau mewn bin sbwriel a dychmygwyd y byddai Baron Cohen yn dewis bwyd kosher, Archesgob Caergaint, Beibl a'r Corân.

Cytunodd bron pawb yn yr uwchgynhadledd, yn cynnwys cynhyrchydd y rhaglen a phennaeth drama'r BBC, Alan Yentob, y gellid taflu pob un ohonynt yn y bin, heblaw am y Corân rhag peri gofid i Fwslimiaid.

Mewn trafodaeth ynghylch p'un a ddylai'r BBC gyfweld ag Osama Bin Laden pe bai'n cysylltu â hwy, penderfynwyd y byddai arweinydd Al Qaeda yn cael cyfle i leisio ei farn.

A dywedodd 'tsar amrywiaeth' y BBC, Mary Fitzpatrick, y dylid gadael i fenywod sy'n darllen y newyddion wisgo beth bynnag a fynnont pan fyddant ar y teledu, yn cynnwys feliau.

Siaradodd Ms Fitzpatrick ar ôl i bobl feirniadu Fiona Bruce, y darllenydd newyddion ar y teledu, yn ystod yr uwchgynhadledd am wisgo cadwyn am ei gwddf gyda chroes arni.

Mae adroddiad llawn y cyfarfod yn dangos sut roedd uwch swyddogion yn y BBC yn awyddus iawn i feirniadu eu cyflogwr.

Dywedodd Andrew Marr, y pyndit gwleidyddol: 'Nid yw'r BBC yn ddiduedd nac yn niwtral. Mae'n sefydliad dinesig a gaiff ei ariannu gan y cyhoedd, sy'n cynnwys nifer anarferol o fawr o bobl ifanc, lleiafrifoedd ethnig a phobl hoyw. Mae ganddo ragfarn ryddfrydol yn hytrach na rhagfarn wleidyddol. Gellir ei chyfleu yn well fel rhagfarn ryddfrydol ddiwylliannol.'

Dywedodd y gohebydd yn Washington, Justin Webb fod y BBC mor rhagfarnllyd yn erbyn America fel bod Mark Byford, y dirprwy gyfarwyddwr cyffredinol, wedi cytuno'n gyfrinachol i'w helpu i'w 'chywiro' yn ei adroddiadau. Ychwanegodd Webb fod y BBC yn trin America gyda dirmyg a gwawd ac nad yw'n rhoi unrhyw 'bwys moesol' arni.

Dywedodd cyn olygydd busnes y BBC, Jeff Randall, ei fod wedi cwyno wrth 'swyddog gweithredol newyddion ar lefel uchel iawn' ynghylch sefyllfa'r BBC o blaid amlddiwylliannaeth ond ei fod wedi cael yr ateb: 'Nid yw'r BBC yn niwtral o ran amlddiwylliannaeth: mae'n credu ynddi ac yn ei hyrwyddo.'

Soniodd Randall hefyd am adeg pan wisgodd gyfflincs Jac yr Undeb i'r gwaith ond iddo gael pryd o dafod: 'Alli di ddim gwneud hynny, mae fel y Ffrynt Cenedlaethol!'

Gan ddyfynnu arsylwad gan George Orwell, dywedodd Randall fod y BBC yn llawn deallusion y byddai'n well ganddynt '...steal from a poor box than stand to attention during God Save the King'.

Cafwyd dadl danllyd arall pan drafododd yr uwchgynhadledd p'un a oedd y BBC yn rhy sensitif ynghylch beirniadu teuluoedd duon am fethu â chymryd cyfrifoldeb dros eu plant.

Datgelodd Helen Boaden, pennaeth newyddion fod bwriad i raglen ar Radio 4, a oedd yn beio pobl dduon ifanc mewn sefydliad i droseddwyr ifanc am fwlio troseddwyr gwyn, gael ei thynnu oddi ar yr awyr nes iddi hi gamu i'r adwy.

Ond dadleuodd Ms Fitzpatrick, a ddywedodd na ddylai'r BBC ddefnyddio gohebwyr gwyn mewn gwledydd nad ydynt yn wyn, fod ganddo ddyletswydd i roi cyd-destun o ran pam mae pobl dduon ifanc yn ymddwyn fel hyn.

Dywedodd Andrew Marr wrth The Mail on Sunday neithiwr: 'The BBC must always try to reflect Britain, which is mostly a provincial, middle-of-the-road country. Britain is not a mirror image of the BBC or the people who work for it.'

**Pwynt trafod 2**

A yw hyn yn golygu y gellir ymddiried yn y BBC fel ffynhonnell wybodaeth? Eglurwch eich ateb.

## 2.2 Beth yw buddiant personol?

Ystyr **buddiant personol** yw pan fydd gan unigolyn neu sefydliad rywbeth i'w ennill drwy hyrwyddo neu amddiffyn y buddiant hwnnw. Gallai hyn gynnwys:

- Gwneud arian
- Meithrin enw da
- Datblygu gyrfa
- Aros mewn sefyllfa o bŵer

Nid yw buddiant personol bob amser yn amlwg; er enghraifft, gall sefydliad gyflwyno dadleuon unochrog, dewis a chyhoeddi tystiolaeth benodol tra'n cuddio tystiolaeth arall neu hyd yn oed ddweud celwydd.

Rhaid ystyried hygrededd yr unigolyn neu'r sefydliad â'r buddiant personol.

### Gweithgaredd unigol 1

Ystyriwch yr enghreifftiau canlynol:

1. **Pwy sydd â'r buddiant personol?**
2. **Pam mae ganddynt fuddiant personol?**
3. **A ydynt yn gredadwy?**

Enghraifft 1




Enghraifft 2

Mae hysbysebu e-sigaréts yn nôl yn y newyddion. Mae tri hysbyseb wedi cael eu gwahardd gan yr Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA), sef y cam cyntaf o'r fath i gael ei gymryd yn erbyn y cynhyrchion tybaco amgen.

Bydd cwmnïau E-Lites a Sky Cigs yn cael eu herlyn am hysbysebion teledu a radio. Dywedodd ASA nad oedd yr hysbysebion hyn yn egluro bod y cynhyrchion yn cynnwys nicotin ac felly yn cael eu gwahardd am fynd yn groes â rheoliadau hysbysebu.

Roedd hysbyseb teledu ar gyfer E-Lites, yn dangos teulu yn edrych yn gariadus ar fabi. Mae'r tad yn gadael yr ystafell, i gael sigarét, cyn i'r babi gymryd ei gamau cyntaf a dechrau dawnsio. Mae'r dyn yn dychwelyd ac yn gofyn: "Beth ydw i wedi'i fethu?"  E-Lites yw un o'r cwmnïau e-sigaréts blaenllaw yn y DU.

Cafodd ASA 65 o gwynion am yr hysbyseb ac ymgyrch ategol, a oedd hefyd yn cynnwys hysbyseb radio a phosteri ar fysiau. Dywedwyd y gallai'r hysbyseb teledu ymddangos yn ddifyr i blant a thorri'r rheolau sy'n cyfyngu ar hysbysebion a allai ddenu plant at smygu.

http://www.independent.co.uk/news/media/advertising/ecigarette-adverts-banned-by-watchdog-8837484.html#

Dydd Mercher 25 Chwefror 2015

<u>Enghraifft 3</u>




## Crynodeb

- Ystyr ffynhonnell niwtral yw ffynhonnell nad yw'n cymryd ochr - mae'n ddiduedd.
- Ystyr buddiant personol yw pan fydd gan unigolyn neu sefydliad rywbeth i'w ennill drwy hyrwyddo neu amddiffyn y buddiant hwnnw.
- Prin iawn yw'r bobl sy'n wirioneddol niwtral - mae gan y rhan fwyaf fuddiant personol, er ei bod yn bosibl nad yw hyn yn amlwg.

# UNED 3

## 3.1: Beth yw rhagfarn/tuedd?

Rhagfarn yw tuedd o ran natur neu agwedd i gyflwyno neu arddel safbwynt rhannol, sy'n aml yn cyd-fynd â gwrthod ystyried rhinweddau posibl safbwyntiau amgen. Felly mae bod yn rhagfarnllyd yn golygu:

- eich bod yn unochrog, a gwrthod tystiolaeth a allai wrth-ddweud y farn hon
- nad oes gennych safbwynt niwtral a gaiff ei arddel yn gryf
- nad oes gennych feddwl agored o ganlyniad i farn sydd gennych a allai arwain at ragfarn

Yn yr achosion gwaethaf, gall rhagfarn arwain at gelwydd noeth. Oherwydd hyn, ystyrir yn aml fod ffynonellau rhagfarnllyd yn annibynadwy a heb hygrededd.

Fodd bynnag, fel pobl, rydym oll yn arddel barn p'un a wnawn hynny yn ddiarwybod ai peidio, felly ceir rhywfaint o anghytuno ynghylch p'un a all ffynhonnell ddiragfarn fodoli mewn gwirionedd!

## 3.2 Rhagfarn

Mae rhagfarn yn farn ragdybiedig nad yw'n seiliedig ar reswm na phrofiad gwirioneddol. Gall fod yn beryglus iawn. Enghraifft o ragfarn yw hiliaeth gan ei bod yn cynnwys barnu grŵp o bobl mewn ffordd benodol. Gall hyn fod yn farn emosiynol sy'n arwain at fynegi teimladau o gasineb.

### Gweithgaredd Grŵp Bach 1

Edrychwch ar bob un o'r delweddau canlynol.

1. Pa neges sy'n cael ei chyfleu?
2. Pa grŵp y gwahaniaethir yn ei erbyn?
3. Pam bod pob neges yn cael ei chyfleu?

[Cymerir pob delwedd o http://socialpsych27.weebly.com/pictures.html]

Delwedd 1:




"That's a very good suggestion, Miss Wilson - perhaps one of the men would like to make it?"

Delwedd 2:




## 3.3 Beth yw propaganda?

Mae propaganda yn ddull o gyfathrebu sydd â'r nod o ddylanwadu ar agwedd poblogaeth at **achos** neu **safbwynt.**

Gwybodaeth yw propaganda nad yw'n **ddiduedd** ac a ddefnyddir yn bennaf i ddylanwadu ar gynulleidfa a hyrwyddo agenda, yn aml drwy gyflwyno ffeithiau mewn ffordd ddetholus (drwy ddweud celwydd neu eu hepgor efallai) neu ddefnyddio negeseuon ensyniadol i greu ymateb emosiynol yn hytrach na rhesymegol i'r wybodaeth a gyflwynwyd.

Gellir gweld enghraifft o bropaganda isod. Mae'n bwysig gallu nodi propaganda gan ei fod yn wybodaeth unochrog, ac ar ei waethaf, mae'n seiliedig ar dwyll llwyr a chelwydd.




Pwynt Myfyrio 1

Sut mae'r darlun blaenorol yn enghraifft o bropaganda?

## 3.4 Beth yw ethnosentrigrwydd?

Ethnosentrigrwydd yw pan fydd rhywun yn credu bod y grŵp y maent yn perthyn iddo yn well na grwpiau eraill. Mae hyn am ei fod ond yn barnu diwylliant arall yn ôl gwerthoedd a safonau ei ddiwylliant ei hun.

Gallai hyn fod yn seiliedig ar ei wlad, ei grŵp ethnig, ei dîm pêl-droed neu grŵp crefyddol er enghraifft.

Enghraifft o safbwynt ethnosentrig yw pan geisiodd UDA ddymchwel Castro yn y 1960au. Darllenwch yr astudiaeth achos isod:

### Astudiaeth Achos 1

Yn dilyn Chwyldro Cuba yn 1959, roedd Fidel Castro wedi mynd yn gynyddol elyniaethus tuag at yr Unol Daleithiau a'i buddiannau. Awdurdodwyd y CIA gan weinyddiaethau Eisenhower a Kennedy i feddwl am ffyrdd o gael gwared arno: ceisiwyd ei wenwyno, cafodd grwpiau gwrth-gomiwnyddol yn Cuba eu cefnogi'n weithredol, a gwnaeth gorsaf radio ddarlledu newyddion unochrog i gyfeiriad yr ynys o Florida. Gwnaeth y CIA hyd yn oed gysylltu â'r maffia ynghylch cydweithio i ladd Castro. Gwnaeth dim byd weithio.

Yn y cyfamser, roedd miloedd o drigolion Cuba yn ffoi o'r ynys, yn gyfreithiol ar y dechrau, wedyn yn gyfrinachol. Roedd y trigolion hyn yn perthyn i'r dosbarth uwch a chanol yn bennaf a oedd wedi colli eiddo a buddsoddiadau pan ddaeth y llywodraeth gomiwnyddol i rym. Ymgartrefodd y rhan fwyaf o'r alltudion ym Miami, lle roeddent yn ferw gan gasineb tuag at Castro a'i gyfundrefn.

Penderfynodd y CIA ddefnyddio'r trigolion hyn o Cuba a rhoi cyfle iddynt ddymchwel Castro a'i gyfundrefn gomiwnyddol nad oedd yn cael ei hystyried yn ffordd briodol o redeg gwlad.

Pan ledaenodd y gair ymhlith yr alltudion o Cuba am ymdrech i ailfeddiannu'r ynys, gwnaeth cannoedd wirfoddoli. Anfonwyd y recriwtiaid i Guatemala, lle cawsant hyfforddiant ac arfau. Enw'r llu hwn oedd Brigâd 2506.

Ym mis Ebrill, 1961, roedd Brigâd 2506 yn barod i fynd. Fe'u symudwyd i arfordir Caribïaidd Nicaragua, lle'r aethant ati i wneud y paratoadau terfynol. Daeth Luís Somoza, unben Nicaragua i ymweld â nhw a gofyn yn gellweirus iddynt ddod ag ychydig o flew o farf Castro. Aethant ar fwrdd llongau gwahanol a dechrau hwylio ar 13 Ebrill.

Ar 17 Ebrill, glaniodd Brigâd 2506 (a alwyd hefyd yn "Cuban Expeditionary Force") ar dir Cuba. Roedd y frigâd yn cynnwys dros 1,400 o filwyr arfog a threfnus. Roedd grwpiau o wrthryfelwyr yn Cuba wedi cael eu hysbysu am

ddyddiad yr ymosodiad a gwelwyd ymosodiadau ar raddfa fechan yn cychwyn ledled Cuba, er na fu eu heffaith yn barhaol iawn.

Y safle glanio a ddewiswyd oedd “Bahía de los Cochinos” neu “Bay of Pigs” ar arfordir deheuol Cuba, tua thraean o'r ffordd o'r man mwyaf gorllewinol. Mae'n rhan o'r ynys sy'n denau ei phoblogaeth ac yn bell oddi wrth osodiadau milwrol mawr: y gobaith oedd y byddai'r ymosodwyr yn ennill troedle ac yn sefydlu amddiffynfeydd cyn dod ar draws unrhyw wrthwynebiad mawr. Roedd yn ddewis anffodus, gan fod yn ardal a ddewiswyd yn gorsiog ac yn anodd ei chroesi: ymhen hir a hwyr byddai'r alltudion yn mynd yn sownd yn y gors.

Glaniodd y lluoedd gydag anhawster gan ladd y nifer fach o filwyr lleol a geisiodd eu gwrthwynebu yn gyflym. Yn Havana, clywodd Castro am yr ymosodiad a gorchmynnodd i unedau ymateb. Ar doriad dydd, ymosododd yr awyrennau, gan suddo un llong ac erlid ymaith y gweddill. Roedd hyn yn hollbwysig, oherwydd, er bod y dynion wedi dod oddi ar y llongau, roeddent yn dal i fod yn llawn cyflenwadau, gan gynnwys bwyd, arfau a ffrwydron.

Am ddau ddiwrnod, ymladdodd milwyr Cuba y goresgynwyr i'r eithaf. Roedd y tresbaswyr wedi agor ffosydd ac roedd ganddynt ynnau trwm, ond dim milwyr wrth gefn ac roedd y cyflenwadau'n mynd yn brin. Nid oedd gan filwyr Cuba arfau cystal ac nid oeddent wedi cael eu hyfforddi i'r un graddau, ond roedd mwy ohonynt, mwy o gyflenwadau a'r morâl a ddaeth drwy amddiffyn eu cartrefi. Er i'r cyrchoedd awyr o Ganolbarth America barhau i fod yn effeithiol a lladd llawer o filwyr Cuba ar eu ffordd i'r frwydr, cafodd y goresgynwyr eu gwthio'n ôl yn raddol. Roedd y canlyniad yn un anochel: ar 19 Ebrill, ildiodd y tresbaswyr. Roedd rhai wedi cael eu symud o'r traeth, ond cafodd y rhan fwyaf ohonynt (dros 1,100) eu carcharu.

Wedi ei addasu o [http://latinamericanhistory.about.com/od/historyofthecaribbean/a/09bayofpigs_2.htm]

### Pwynt Myfyrio 1

Ym mha ffordd yr oedd UDA yn ethnosentrig?

Sut y defnyddiodd UDA bropaganda?

### Gweithgaredd Unigol 1

Ymchwiliwch i'r propaganda a ddefnyddiwyd gan UDA yn erbyn Cuba yn y 1960au. Pa effaith a gafodd?

### Crynodeb

- Rhagfarn yw tuedd o ran natur neu agwedd i gyflwyno neu arddel safbwynt rhannol, sy'n aml yn cyd-fynd â gwrthod ystyried rhinweddau posibl safbwyntiau amgen
- Mae rhagfarn yn farn ragdybiedig nad yw'n seiliedig ar reswm na phrofiad gwirioneddol.
- Mae propaganda yn ddull o gyfathrebu sydd â'r nod o ddylanwadu ar agwedd poblogaeth at achos neu safbwynt.
- Ethnosentrigrwydd yw pan fydd rhywun yn credu bod y grŵp y maent yn perthyn iddo yn well na grwpiau eraill. Mae hyn am ei fod yn barnu diwylliant arall yn ôl gwerthoedd a safonau ei ddiwylliant ei hun yn unig.
- Gall rhagfarn, propaganda ac ethnosentrigrwydd fod yn beryglus ac arwain yn y pen draw at farwolaeth unigolion a sefydliadau.

# UNED 4

## 4.1: Beth yw arbenigedd?

Wrth asesu cryfder dadl, rhaid ystyried a yw'r honiadau yn wir.

Weithiau, gellir gwneud hyn drwy ddefnyddio gwybodaeth bersonol ac arbenigedd. Fodd bynnag, weithiau ni ellir gwneud hyn os yw y tu hwnt i'n cylch gwaith. Yn yr un modd, weithiau bydd dadleuon yn seiliedig ar wybodaeth ac arbenigedd eraill. Cyfeirir at y bobl hyn fel rhai sydd ag  'awdurdod' ar bwnc penodol.

### Pwynt trafod 1

Mae Doctor Michael Thomas wedi bod yn ddoctor ers 20 mlynedd. Gofynnwyd iddo roi sylwadau ar ddadl ynghylch bwyd brys a'i effaith ar ordewdra. Mae wedi ysgrifennu nifer o erthyglau ar gyfer cyfnodolion uchel eu parch.

**Pa mor gredadwy yw cyfraniad Doctor Michael Thomas at y ddadl hon?**

Ar yr wyneb, mae'n ymddangos bod Doctor Michael Thomas yn arbenigwr credadwy. Fodd bynnag, nid yw bod yn ddoctor yn golygu'n awtomatig eich bod yn ddoethur mewn meddygaeth, gallech fod wedi cael Doethuriaeth mewn meysydd eraill o addysg i beirianneg. Mae gan Doctor Michael Thomas Ddoethuriaeth mewn Peirianneg Gyfrifiadurol mewn gwirionedd.

### Pwynt trafod 2

Pa mor gredadwy yw cyfraniad Doctor Michael Thomas at y ddadl hon nawr?

Gall pobl nad ydynt yn arbenigwyr mewn maes penodol ddarllen am bynciau arbenigol a throsglwyddo'r wybodaeth honno, felly weithiau nid oes angen peidio â chredu rhai nad ydynt yn arbenigwyr. Fodd bynnag, mae arbenigwyr yn tueddu i wybod mwy am eu pynciau arbenigol na'r cyhoedd ac mae pobl mewn swyddi cyfrifol yn tueddu i fod yn fwy dibynadwy na throseddwyr hyd yn oed os mai'r unig reswm am hynny yw eu bod yn gwerthfawrogi eu henw da.

Serch hynny, ni ellir rhoi gormod o bwys ar hygrededd arbenigwyr. Mae pobl mewn pob math o swydd yn gallu gwneud camgymeriadau neu'n gallu dweud celwydd os oes ganddynt reswm i wneud hynny a gall pobl mewn swyddi ar lefel is gynnal safonau uchel o foesoldeb a gonestrwydd.

## Astudiaeth achos 1

Papur newydd The Guardian - Dydd Sul 18 Mawrth 2007

**Cafodd Sally Clark ei 'siomi' gan awdurdodau**

Gwnaeth ffrindiau Sally Clark, a fu farw ddydd Gwener, feirniadu'r awdurdodau am fethu â'i chefnogi ar ôl iddi gael ei rhyddhau o'r carchar.

Cafodd Clark ei charcharu ar gam am lofruddio ei dau fab ac yn ddiweddarach cafodd y cyhuddiad ei dynnu'n ôl. Gwnaeth Angela Cannings, a gafodd ei chyhuddo ar gam hefyd am lofruddio ei dau fab ac a oedd yn agos at Clark, ymosod yn chwyrn ar y timau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol am adael y cyn-gyfreithiwr i ymdopi heb help proffesiynol.

Dywed yr heddlu nad ydynt wedi diystyru hunanladdiad fel achos posibl marwolaeth, ond yn ôl ei ffrindiau, roedd Clark wedi 'troi'r gornel' ac roedd yn annhebygol yn eu barn nhw y byddai wedi cyflawni hunanladdiad. Mae disgwyl i batholegydd o'r Swyddfa Gartref gynnal archwiliad post-mortem yfory.

'Rwy'n ddig,' dywedodd Cannings. 'Pan ddewch allan o'r Llys Apêl, rydych chi'n credu bod rhywun yn mynd i'ch helpu. Ond doedd dim byd gennym. Roeddwn yn credu y byddwn yn cael galwadau ffôn ac ati gan weithwyr proffesiynol ym meysydd iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ond ni ddaeth yr un sefydliad atom.'

Galwodd Cannings am archwiliad ar frys o'r ffordd y mae awdurdodau yn delio â phobl sydd wedi wynebu camweinyddiad cyfiawnder. "Onid yw'n bryd i rywun yn y llywodraeth edrych ar yr help a gynigir i bobl fel Sally pan ddônt allan o'r carchar? Mae angen rhyw fath o sefydliad arnom sy'n darparu'n benodol ar gyfer anghenion pobl sydd wedi wynebu'r math hwn o drawma."

Mae gŵr Cannings, Terry, bellach yn dioddef o iselder clinigol, ac mae eu merch, nad yw wedi bod i'r ysgol ers tair blynedd, yn dioddef o 'orbryder gwahanu'. 'Dwi ddim yn gwybod sut rydym yn ymdopi,' dywedodd Cannings, sydd wedi bod yn ceisio cael mwy o help i'w merch gan y gwasanaethau cymdeithasol lleol, ond heb unrhyw lwyddiant hyd yn hyn. 'Rydym yn mynd o ddydd i ddydd.'

'Mae gan y llywodraeth ddyletswydd i ofalu am bobl ddieuog pan ddônt allan o'r carchar,' dywedodd John McManus o'r Sefydliad Camweinyddu Cyfiawnder. 'Y gwir yw na chânt unrhyw gynnig o

help, dim cwnsela, ac mae'n warth ar y llywodraeth.'

Dywedodd Penny Mellor, ffrind i deulu Clark, fod yr amser a dreuliodd Mrs Clark yn y carchar wedi gadael ei ôl arni weddill ei bywyd. Gwnaeth carcharorion eraill ymosod arni ac roedd yn byw mewn ofn y byddent yn ceisio gwenwyno ei bwyd. 'Os cawsoch eich dyfarnu'n euog fel lladdwr plant, rydych yn dod yn ganolbwynt ar gyfer yr holl gasineb sydd mewn carchar,' dywedodd Mellor.

Dyfarnwyd Mrs Clark, 42 oed, yn euog o lofruddio ei meibion, Christopher a Harry, ond fe'i cliriwyd o'r cyhuddiad gan y Llys Apêl yn 2003 mewn dyfarniad o bwys a dynnodd sylw at ddiffygion difrifol yn y defnydd o dystiolaeth a ddarparwyd gan dystion arbenigol. Cafwyd ei bod wedi cael ei dyfarnu ar gam o'r ddwy lofruddiaeth ar ôl i dystiolaeth feddygol ddod i'r amlwg nad oedd wedi cael ei chyflwyno yn ei threial.

Rhoddodd yr Athro Syr Roy Meadow dystiolaeth yn ystod ei threial, gan honni bod y tebygolrwydd o ddwy farwolaeth yn y crud naturiol ond anesboniadwy yn y teulu yn 73 miliwn i un. Gwadwyd y ffigur hwnnw gan y Gymdeithas Ystadegol Frenhinol ac arbenigwyr meddygol eraill, a ddywedodd fod y tebygolrwydd o ail farwolaeth yn y crud mewn teulu tua 200 i 1. Dyfarnwyd Meadow yn euog o gamymddygiad proffesiynol difrifol a chafodd ei enw ei ddileu o'r gofrestr feddygol. Fodd bynnag, cafodd y ddau benderfyniad hyn eu gwrthdroi ar apêl yn yr Uchel Lys.

Arferai gŵr Mrs Clark, Stephen, a'r mab a oroesodd, fyw yn Wilmslow, Swydd Gaer, ond gwnaethant symud i'r de i Chelmsford er mwyn bod yn agosach ati pan oedd yn y carchar yn Essex.

Dywedodd datganiad a ryddhawyd gan gyfreithiwr teulu Clark ddoe: 'Rhyddhawyd Sally yn 2003 ar ôl cael ei charcharu ar gam am fwy na thair blynedd, a'i chyhuddo ar gam o lofruddio ei dau fab. Yn anffodus, gadawodd effeithiau'r camweinyddiad cyfiawnder ofnadwy hwn ei ôl arni.'

### Pwynt trafod 3

Pa dystiolaeth a arweiniodd at ddyfarnu Sally Clark yn euog? A oedd hyn yn dystiolaeth gredadwy?

## 4.2: Sut i bennu hygrededd adroddiadau arbenigwyr.

1. Oes anghytundeb rhwng arbenigwyr gwahanol? Gall y fath anghytuno arwain at gwestiynau ynghylch hygrededd
2. A wneir penderfyniadau anghywir?

## 4.3: Gall arbenigedd newid hefyd.

http://www.bbc.co.uk/news/health-28442415

Felly, pan ddibynnir ar adroddiadau arbenigwyr, rhaid ystyried hygrededd. Nid yw arbenigwyr o reidrwydd yn dweud y gwir.

### Crynodeb

- Wrth asesu cryfder dadl, rhaid ystyried a yw'r honiadau yn wir. Weithiau, gellir gwneud hyn drwy ddefnyddio gwybodaeth bersonol ac arbenigedd.
- Serch hynny, ni ellir rhoi gormod o bwys ar hygrededd arbenigwyr. Mae pobl mewn pob math o swydd yn gallu gwneud camgymeriadau neu'n gallu dweud celwydd os oes ganddynt reswm i wneud hynny a gall pobl mewn swyddi ar lefel is gynnal safonau uchel o foesoldeb a gonestrwydd.

# UNED 5

## 5.1: Pam bod enw da yn bwysig?

Mae enw da yn cyfeirio at y modd y caiff rhywun, sefydliad neu rywbeth arall ei barchu. Os oes gan ffynhonnell enw da iawn, yna gall hyn ychwanegu at ei hygrededd. Os ystyrir bod gan ffynhonnell enw gwael, mae'n debyg na fydd yn ategu honiad nac yn addas fel tystiolaeth.

## 5.2 Enw da pobl

**Gweithgaredd Unigol 1**

Enwch y bobl ganlynol. Efallai y bydd angen gwneud ychydig o ymchwil er mwyn gwneud hyn. **Penderfynwch a ydynt yn cael eu hystyried yn bobl sydd ag enw da iawn neu enw gwael a'r rhesymau dros hyn.**

Unigolyn 1:



Unigolyn 2:



Unigolyn 3:



Unigolyn 4:



Os ystyrir bod rhywun wedi llwyddo mewn maes penodol, er enghraifft; athletwr o'r radd flaenaf, rhywun mewn busnes neu wyddonydd, cânt eu hystyried yn aml yn bobl sydd ag enw da yn eu maes.

Yn yr un modd, os yw rhywun yn adnabyddus am ei fod wedi treulio ei fywyd yn gweithio i achos da, mae hyn hefyd yn gwella ei enw da. Mae hyn am fod pobl o'r fath yn annhebygol o gael eu hysgogi gan hunan-fudd neu drachwant, gan eu bod wedi byw eu bywydau er mwyn eraill.

## 5.3 Enw da sefydliadau a ffynonellau eraill

Credir bod gan sefydliadau enw da iawn neu enw gwael yn dibynnu ar b'un a ellir ymddiried ynddynt i roi gwybodaeth gywir, propaganda cyfyngedig neu hepgor ffeithiau'n fwriadol.

Bydd gan ffynonellau eraill fel cyfnodolion academaidd enw da gwell na chylchgronau poblogaidd gan mai eu prif nod nhw yw gwerthu a gwneud arian i'r perchnogion. Nid yw cyfnodolion academaidd wedi cael eu hysgrifennu er mwyn gwneud arian yn bennaf; ond yn hytrach i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth. Felly, cânt eu hystyried yn ffynonellau mwy credadwy.

## 5.4 Kentucky Fried Chicken

Gall enw da fod yn haeddiannol neu'n anhaeddiannol. Yn 2009, rhoddwyd y teitl 'The Health Wyze Worst Restaurant of the Year Award' i KFC.

http://healthwyze.org/index.php/component/content/article/134-the-worst-restaurant-of-the-year-award-goes-to-kentucky-fried-chicken-kfc.html




Seiliwyd hyn ar y dyfarniadau canlynol:

1. Kentucky Fried Chicken yw'r unig gadwyn o fwytai a fydd yn cadw gweithiwr sy'n pasio dŵr yn y bwyd, fel yn achos y gweithiwr Casey Diedrich o Omaha, Nebraska. Gwnaeth swyddog yr heddlu a'i deulu ddioddef oherwydd y bwyd

a fwytawyd ganddynt ym mis Hydref 2005, a oedd wedi ei halogi ag wrin a phoer gan weithiwr. Aeth ei ddau blentyn yn sâl iawn a bu'n rhaid anfon ei fab 4 oed i'r ysbyty lleol hyd yn oed, lle cafodd ei drin am gastro-enteritis a diffyg hylif difrifol.

2. Mae KFC yn rhyddhau rhestr o'i gynhwysion ar-lein i bawb ei gweld. Fodd bynnag, yr unig gynhwysion nad ydynt yn wenwynig yw'r powdwr winwns, bicarbonad sodiwm, a'r powdwr garlleg. Dim ond 3 chynhwysyn allan o 29 yw'r rhain, sy'n golygu mai dim ond 10% o gynhwysion KFC sy'n naturiol ac mae tua 90% wedi'u "gwella" yn gemegol. Nid yw hyn yn ystyried y cyw iâr ei hun, sy'n llawn gwrthfiotigau, steroidau, a hormonau twf.

3. Roedd y rhestr cynhwysion hefyd yn cyfeirio at olew Canola. Canola yw cynnyrch y planhigyn had rêp gwenwynig a gynhyrchir yn enetig. Olew diwydiannol yw olew Canola a ddefnyddir i iro peiriannau trwm, ac i roi sglein ar gylchgronau o ansawdd uchel. Gall defnyddio olew Canola yn KFC arwain yn y pen draw at nifer fawr o achosion o ganser yr ysgyfaint ymhlith gweithwyr, oherwydd yr anweddau gwenwynig a gaiff eu gollwng gan olew canola wedi'i gynhesu.

4. Yn ôl Kentucky Fried Cruelty, grŵp ymwybyddiaeth defnyddwyr, caiff biliwn o ieir eu lladd bob blwyddyn ar gyfer y cwmni. Cânt eu gwasgu i mewn i siediau yn llawn carthion ac ni welant byth olau dydd. Mae llawer yn torri eu coesau a'u hadenydd am eu bod yn rhy bendrwm, ac mae fideos wedi dangos anifeiliaid yn cael eu cam-drin yn gyson lle bydd y gweithwyr yn sathru ar yr ieir, neu'n eu rhoi mewn dŵr berw er mwyn tynnu'r plu pan fyddant yn dal yn fyw. Pan sylweddolodd KFC fod arddangosiadau PETA (12,000 ers 2003) wedi dod yn broblem cysylltiadau cyhoeddus ddifrifol, gwnaethant greu'r Cyngor Cynghori ar Les Anifeiliaid er mwyn esgus ei fod yn gweithredu ar y cwynion. Mae llawer o'r bobl hynny sydd wedi bod yn aelod o'r cyngor wedi ymddiswyddo mewn diflastod.

5.



Typical KFC Employees -- Teenage Girls Using The KFC Dish Washing Sink As Their Personal Hot Tub

Fodd bynnag, ydy fe'n haeddu'r enw gwael hwn?

Honiad KFC:

- Caiff yr ieir eu magu mewn ysguboriau mawr gyda naddion pren neu wellt wedi'i dorri'n fân ar lawr. Gallant grwydro'n rhydd yn yr ysguboriau hyn ac mae'r dwysedd stocio (nifer yr ieir fesul ysgubor) wedi'i ddiffinio gan safon y Red Tractor fel bod ganddynt fwy o le ac amodau gwell na'r gofyniad sylfaenol cyfreithiol.
- Mae ein cig cyw iâr yn Radd A ac wedi'i ardystio gan safon y Red Tractor. Red Tractor yw'r cynllun sicrwydd bwyd mwyaf yn y DU ac mae'n sicrhau bod ein cyw iâr yn cael ei gynhyrchu i rai o'r safonau mwyaf cynhwysfawr ac uchel eu parch yn y byd. Daw ein Cyw Iâr Rysáit Gwreiddiol o ffermydd ym Mhrydain a chaiff ei ddosbarthu i'n bwytai yn ffres, nid wedi'i rewi, o fewn 48 awr.
- Mae gennym system o archwiliadau annisgwyl rheolaidd er mwyn sicrhau bod ein bwytai yn cyrraedd safonau rhagoriaeth KFC.
- Gelwir y rhain yn Adolygiadau Rhagoriaeth 'CHAMPS' (CER). Gall ein harolygwyr gyrraedd yn annisgwyl unrhyw bryd a rhaid i bob bwyty gyflawni marc llwyddo o 80/100. Mae CHAMPS yn sefyll am y pum peth y mae arolygwyr KFC yn chwilio amdanynt ym mhob bwyty - Glanweithdra, Lletygarwch, Cywirdeb, Cynnal a Chadw, Ansawdd y Cynnyrch a Chyflymder y Gwasanaeth. Mae'n anodd llwyddo, ond mae hynny am ein bod yn benderfynol o gynnal safonau. Dim ond y gorau a wnaiff y tro!

Wedi'i addasu o:

http://www.kfc.co.uk/about-us/faqs/

### Pwynt trafod 1

O gofio'r ddau safbwynt hyn, beth yw eich barn am enw da a hygrededd KFC?

A fyddech chi'n dal yn dewis bwyta yn KFC neu a oes propaganda neu ragfarn gan Health Wyze, sef cwmni cyfryngau sy'n honni ei fod yn dwyn arferion bwyd ac arferion sy'n gysylltiedig â bwyd afiach i'r amlwg?

### Crynodeb

- Gall enw da neu enw gwael ychwanegu at hygrededd neu ei leihau
- Nid yw'r canfyddiad o ran pa mor dda neu wael yw enw o reidrwydd yn ddiduedd nac yn seiliedig ar wirionedd gwrthrychol llwyr.

# UNED 6

## 6.1: Sut i asesu adroddiadau arsylwi a llygad-dystion?

### Pwynt trafod 1:

**Rydych mewn rheithgor ac mae tystiolaeth wedi cael ei chyflwyno. Pa mor debygol ydych o'i derbyn?**

*Adroddiad gan lygad-dyst:*

*Roeddwn yn cerdded heibio tŷ fy nghymydog drws nesaf a gwelais y cyhuddedig yn rhedeg allan o'r tŷ yn dal cas gobennydd a oedd yn ymddangos fel petai'n llawn eitemau. Gofynnodd yr heddlu i mi adnabod yr unigolyn mewn rhes adnabod a'r unigolyn yn y doc yw'r un a welais yno.*

Mae'r cwestiwn yn gofyn pa mor ddibynadwy yw adroddiadau llygad-dystion. Pan welwch rywbeth, yn aml am gyfnod byr iawn o amser, pa mor gywir yw eich atgof?

### Pwynt Myfyrio 1:

Pryd welsoch chi aelod o'ch teulu ddiwethaf? Ysgrifennwch yn union beth roedd yn ei wisgo/gwisgo (gan gynnwys lliw'r dillad).

Pa mor hawdd oedd hyn?

Mae llawer o bobl yn credu bod adroddiadau llygad-dystion yn ddibynadwy a chredadwy gan fod adroddiadau o'r fath yn ffynonellau o wybodaeth uniongyrchol ac nid gwybodaeth a drosglwyddwyd gan rywun arall.

Serch hynny, mae cryn dipyn o'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw adroddiadau llygad-dystion yn ddibynadwy iawn. Yn ôl Cymdeithas er Hybu Gwyddoniaeth America (2014), seiliwyd tua 75% o'r camgollfarnau am drais a llofruddiaeth, gan gynnwys nifer a arweiniodd at drefnu i bobl gael eu dienyddio, ar dystiolaeth llygad-dystion.

Yn 1984 dyfarnwyd Kirk Bloodsworth yn euog o dreisio a llofruddio merch naw oed a chafodd ei ddedfrydu i'r siambr nwy - canlyniad a oedd yn dibynnu'n bennaf ar dystiolaeth pum llygad-dyst. Ar ôl i Bloodsworth dreulio naw mlynedd yn y carchar, gwnaeth profion DNA ddangos ei fod yn ddieuog. Nid yw camgymeriadau ofnadwy o'r fath gan lygad-dystion yn anghyffredin, yn ôl adroddiad Prosiect Innocence, sefydliad sy'n gysylltiedig ag Ysgol y Gyfraith Benjamin N. Cardozo ym Mhrifysgol Yeshiva sy'n defnyddio profion DNA i ddifeio'r rheini a gam-gollfarnwyd.

Ers y 1990au, pan gyflwynwyd profion DNA am y tro cyntaf, mae ymchwilwyr Prosiect Innocence wedi canfod bod 73 y cant o'r 239 o gollfarnau a gafodd eu gwrthdroi drwy brofion DNA yn seiliedig ar dystiolaeth llygad-dystion. Roedd traean o'r achosion hyn a gafodd eu gwrthdroi yn dibynnu ar dystiolaeth dau neu fwy o lygad-dystion a oedd wedi gwneud camgymeriad. Sut y gallai cymaint o lygad-dystion fod yn anghywir?

## 6.2: Pa ffactorau sy'n effeithio ar gywirdeb arsylwi?

Y synhwyrau

Gall nam ar y synhwyrau effeithio ar eich gallu i arsylwi. Mae gan unigolion 5 synnwyr - gweld, clywed, cyffwrdd, blasu ac arogli. Effeithir ar hygrededd llygad-dyst os bydd nam ar unrhyw un o'r synhwyrau hyn.

Er enghraifft, os yw rhywun yn llygad-ddall, gall feddwl bod gan rywun wallt neu ddillad o liw gwahanol i'r hyn sydd ganddo mewn gwirionedd.

Cyd-destun

Gwneir arsylwad mewn man a chyd-destun penodol. Gall amodau tywydd effeithio ar yr hyn a welir, a'r adeg o'r dydd ac unrhyw rwystrau. Hefyd gall safle'r arsylwr o ran yr hyn y mae'n ei weld wneud gwahaniaeth mawr.



Ar ôl llofruddiaeth yr Arlywydd John F Kennedy, nid oedd 200 o lygad-dystion a welodd yr hyn a ddigwyddodd yn gallu cytuno o ble y taniwyd y gwn a sawl gwaith y cafodd ei danio.

Canfyddiad, disgwyliad a chof

Nid cofio'r hyn a welwyd yn syml yw dwyn rhywbeth i'r cof, mae'n ei ail-greu mewn gwirionedd. Dangosodd seicolegydd uchel ei pharch o'r enw Elizabeth Loftus sut rydym yn newid yr hyn a welwn yn ddiarwybod i ni. Datgelodd cyfres ddyfeisgar o arbrofion y gall y cof gael ei newid yn radical, yn dibynnu ar y modd y caiff llygad-dyst ei holi ar ôl i rywbeth ddigwydd. Gellir creu atgofion newydd a newid hen atgofion yn ddiarwybod pan gaiff rhywun ei holi.

Gwyliodd 150 o fyfyrwyr ffilm fer (munud o hyd) a oedd yn cynnwys golygfa 4 eiliad o ddamwain a oedd yn cynnwys nifer o geir, ac yna cawsant eu holi amdani.

Gofynnwyd i 50 o'r cyfranogwyr yn Saesneg 'How fast were the cars going when they hit each other?

Gofynnwyd i 50 o'r cyfranogwyr yn Saesneg 'How fast were the cars going when they smashed into each other?'

Ni chafodd 50 o'r cyfranogwyr eu holi am gyflymder y cerbydau.

Wythnos yn ddiweddarach, dychwelodd y cyfranogwyr a, heb wylio'r ffilm eto, gofynnwyd cyfres o gwestiynau iddynt am y ddamwain. Y cwestiwn hollbwysig oedd 'A welsoch chi unrhyw wydr oedd wedi torri?' Roedd y cwestiwn hollbwysig yn rhan o gyfres hirach o gwestiynau a chafodd ei gynnwys mewn man gwahanol ar hap ar bapur cwestiynau pob cyfranogwr. Doedd dim gwydr wedi torri yn y ffilm a dweud y gwir.

Dangosodd y canlyniadau fod y ferf Saesneg (smashed) yn y cwestiwn wedi cael effaith fawr ar y camganfyddiad o wydr yn y ffilm.

Roedd y cyfranogwyr hynny a glywodd y gair 'smashed' fwy na dwywaith yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn cofio gweld gwydr wedi torri.

### Gweithgaredd Unigol 1

Gadewch i ni ddychwelyd at adroddiad cynharach y tyst:

*Adroddiad gan lygad-dyst:*

> *Roeddwn yn cerdded heibio tŷ fy nghymydog drws nesaf a gwelais y cyhuddedig yn rhedeg allan o'r tŷ yn dal cas gobennydd a oedd yn ymddangos fel petai'n llawn eitemau. Gofynnodd yr heddlu i mi adnabod yr unigolyn mewn rhes adnabod a'r unigolyn yn y doc yw'r un a welais yno.*

**Lluniwch restr o gwestiynau yr hoffech eu gofyn i'r tyst er mwyn penderfynu a yw ei adroddiad yn ddibynadwy a chredadwy.**

## Crynodeb

- Gall adroddiadau llygad-dystion ac arsylwi fod yn annibynadwy.
- Mae sawl ffactor a all effeithio ar hygrededd adroddiad.
- Mae'r rhain yn cynnwys y synhwyrau, cyd-destun, canfyddiadau, disgwyliadau a chof.



Baglorïaeth Cymru
Welsh Baccalaureate

## Gwiriad Cynnydd 1

**Termau allweddol:**

| Tymor | Diffiniad | Pa mor hyderus ydw i fy mod i'n deall ac yn defnyddio'r term hwn? | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Hyderus iawn | Rhywfaint yn hyderus | Ddim yn hyderus iawn |
| Tystiolaeth | | | | |
| Hygrededd | | | | |
| Cadarnhad | | | | |
| Buddiant niwtral | | | | |

| Rwyf wedi dysgu sut i: | Pa mor hyderus ydw i wrth wneud hyn? | | |
|---|---|---|---|
| | Hyderus iawn | Rhywfaint yn hyderus | Ddim yn hyderus iawn |
| Defnyddio meini prawf hygrededd | | | |
| Pwyso a mesur tystiolaeth amgylchiadol | | | |
| Ymchwilio i fuddiant personol | | | |
| Nodi ffynonellau rhagfarn a phropaganda | | | |
| Pennu hygrededd arbenigedd | | | |
| Gwerthuso enw da | | | |

**Cymhwyso Sgiliau a Gwybodaeth:**

Rwyf wedi mwynhau:

Gallaf gymhwyso'r dysgu hyn at:

# UNED 7

## 7.1: Beth yw dadl?

Ym maes meddwl yn feirniadol, mae ystyr arbennig i'r term **dadl.** Nid yw dadl yn ddadl oni bai bod ganddi gasgliad; hynny yw, rhywbeth yr hoffech ei ddefnyddio i orffen y ddadl, ac sydd â rheswm sy'n rhoi synnwyr i'ch casgliad. Felly ym maes meddwl yn feirniadol mae dadl yn cynnwys o leiaf un rheswm i ategu casgliad. Er enghraifft:

**Dadl:** Mae llosgi tanwyddau ffosil yn achosi newid yn yr hinsawdd; felly dylech roi'r gorau i losgi tanwyddau ffosil.

**Casgliad**: Y casgliad yn y ddadl hon yw 'Dylech roi'r gorau i losgi tanwyddau ffosil'.

Rheswm 2: Y rheswm yw 'Mae llosgi tanwyddau ffosil yn achosi newid yn yr hinsawdd'.

### Pwynt myfyrio 1

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng dadl a gewch efallai gyda ffrind a dadl ym maes meddwl yn feirniadol?

## 7.2 Beth yw honiad?

Gelwir rhesymau a chasgliadau yn **honiadau** hefyd. Mae hyn am nad yw rhesymau na chasgliadau yn gywir nac yn wir efallai. Yn aml, union natur dadl yw cyfnewid safbwyntiau sy'n gyferbyniol neu'n wahanol i safbwyntiau pobl eraill, felly cyfeirir at resymau a chasgliadau fel honiadau gan nad ydynt efallai yn wir.

Fodd bynnag, weithiau gellir llunio dadl sy'n arwain at fawr ddim anghytuno. Diffinnir hyn fel dadl o hyd gan ei bod yn cynnwys rhesymau a chasgliadau.

Er enghraifft:

**Dadl:** Caiff plant eu gorfodi i yfed dŵr llygredig yn India; felly dylid darparu ffynonellau dŵr diogel.

**Casgliad**: Y casgliad yn y ddadl hon yw 'Dylid darparu ffynonellau dŵr diogel'.

**Rheswm:** Y rheswm yw 'Caiff plant eu gorfodi i yfed dŵr llygredig yn India'.

### Gweithgaredd Unigol 1

Allwch chi feddwl am ddadl arall lle na fydd gormod o anghytuno yn debygol o ddigwydd? Cofiwch, dylai gynnwys rheswm a chasgliad.

## 7.3 Beth yw dadl nad yw'n ddadl?

Ystyriwch yr enghraifft ganlynol:

**Dai:** *'Dylai pawb ddefnyddio ceir trydan yn lle eu ceir petrol'.*

**Rochelle**: *'Na ddylent'.*

**Dai:** *'Paid â bod yn wirion - rwyt ti'n amlwg ddim yn gwybod am beth rwyt ti'n siarad!'*

**Rochelle:** *'Wel, dyna beth rwyf i'n ei feddwl'.*

### Gweithgaredd Unigol 2

Allwch chi ddod o hyd i gasgliad a rheswm yn yr enghraifft uchod?

Mae hon yn enghraifft o ddadl nad yw'n ddadl. Mae Dai yn gwneud yr honiad y dylai pawb ddefnyddio ceir trydan yn lle eu ceir petrol. Dyma ei gasgliad ef, ond nid yw'n rhoi rheswm dros ddweud hynny. Yn yr un modd, mae Rochelle yn dweud 'na ddylent' ond unwaith eto, nid yw'n rhoi rheswm dros ei honiad.

Felly mae dadl nad yw'n ddadl yn ddatganiad nad yw'n cynnwys yr elfennau angenrheidiol i lunio dadl; mae hynny'n gasgliad ac yn un rheswm o leiaf.

### Profi eich hun 1

Edrychwch ar bob datganiad isod. Penderfynwch pa rai sy'n ddadleuon a pha rai sydd ddim yn ddadleuon:

1. Mae adroddiadau newyddion y BBC ynghylch lefel y diweithdra yng Nghymru yn ddibynadwy fel arfer.
2. Mae adroddiadau newyddion Americanaidd am lefel y diweithdra yn America yn annibynadwy fel arfer.
3. Mae adroddiadau newyddion y BBC am lefel y diweithdra yng Nghymru yn ddibynadwy fel arfer gan fod y BBC yn cael ei wybodaeth o ffynonellau dibynadwy.
4. Mae adroddiadau newyddion Americanaidd yn annibynadwy am nad ydynt yn defnyddio ffynonellau dibynadwy.
5. Mae lefelau diweithdra yng Nghymru yn gostwng am fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno polisïau effeithiol.
6. Dywedodd rhywun nad yw am gael ei enwi nad yw polisïau diweithdra yn effeithiol
7. Nid yw polisïau diweithdra yn gweithio p'un a ydynt yn newydd ai peidio, yn fy marn i.
8. Mae polisi cyflogaeth Cymru yn debyg i bolisi cyflogaeth y DU.

## 7.4 Sut i gyflwyno dadleuon drwy symbolau

Weithiau gall dadleuon fod yn gymhleth iawn. Gallant fod yn ffordd ddefnyddiol o lunio dadl a dadansoddi dadleuon eraill. Gall dadleuon gael eu cynrychioli drwy symbolau.

**Rh** yw rheswm.

**C** yw casgliad.

Lle mae gan ddadl un rheswm, gellir ei chyflwyno fel hyn:

Rh → C

Mae cyfeiriad y saeth yn dangos cyfeiriad y meddwl. Yn yr achos hwn, mae rheswm wedi arwain at gasgliad.

Fodd bynnag, mae gan lawer o ddadleuon fwy nag un rheswm. Mae'r enghraifft isod yn ddadl sydd â dau reswm:

**Dadl:** Mae datgoedwigo yn arwain at gynhesu byd-eang a chynnydd mewn fflachlifoedd. Felly dylai pobl roi'r gorau i dorri coed.

Er mwyn cyflwyno dadl sydd â dau reswm, rhoddir rhif i bob rheswm:

RH1 RH2
↓
C

Unwaith eto, mae'r saeth yn dangos cyfeiriad y meddwl; bod rheswm 1 a rheswm 2 wedi arwain at gasgliad.

Gall dadleuon gynnwys sawl rheswm, a gellir defnyddio'r un dull o gyflwyno:

Rh1 Rh2 Rh3 Rh4
↓
C

Mae gan y ddadl hon 4 rheswm.

### Gweithgaredd Unigol 2


Cyflwynwch y ddadl ganlynol drwy symbolau:

**Dadl:** Mae datgoedwigo yn arwain at gynhesu byd-eang, cynnydd mewn fflachlifoedd a dinistrio cynefinoedd anifeiliaid. Felly dylai pobl roi'r gorau i dorri coed.

### Crynodeb

Yn Uned 1, mae'r canlynol wedi cael ei gyflwyno:

- Mae gan ddadl ym maes meddwl yn feirniadol ystyr arbennig. Mae'n cyfeirio at gyflwyno un neu fwy o resymau i ategu casgliad.
- Gelwir casgliadau a rhesymau yn honiadau hefyd, gan nad ydynt o reidrwydd yn wir.
- Nid oes gan ddadleuon nad ydynt yn ddadleuon resymau sy'n ategu casgliadau.
- Gall dadleuon gael eu cynrychioli drwy symbolau. Mae hyn yn helpu i lunio dadl resymegol neu i ddadlunio dadl rhywun arall.



*Cofiwch, ym maes meddwl yn feirniadol dim ond ar ôl i reswm gael ei roi i ategu casgliad y ceir dadl!*

# UNED 8

## 8.1: Beth yw dangosyddion rhesymau?

Mae rhesymau'n ategu casgliadau mewn dadleuon. Maent yn helpu i gyfiawnhau pam y deuir i gasgliad. Weithiau daw gair arbennig cyn rheswm. Mae hyn yn golygu y gallwch weithiau nodi casgliad mewn dadl os bydd gair arbennig wedi cael ei ddefnyddio yn uniongyrchol cyn hynny. Gelwir y geiriau arbennig hyn yn ddangosyddion rhesymau hefyd.

Mae'r tabl isod yn dangos dangosyddion rhesymau:

| Gall dangosyddion rhesymau gynnwys: |
|---|
| Oherwydd |
| Am |
| Gan |
| Os |
| Yna |
| O achos |
| Oblegid bod |
| Fel y dangosir gan |
| O wybod bod |

Cymerwch y ddadl ganlynol:

**Dadl:** Dylai pobl ddefnyddio bylbiau golau ynni isel. Mae bylbiau golau ynni isel yn defnyddio llai nag 20% o ynni bylb golau cyffredin, a gall bara hyd at 15 gwaith yn fwy.

Gellir cyflwyno'r ddadl hon fel un frawddeg drwy gael gwared ar yr atalnod llawn ar ôl y geiriau 'ynni isel' a chynnwys y rhan fwyaf o'r geiriau yn y blwch uchod. Er enghraifft:

**Dadl:** Dylai pobl ddefnyddio bylbiau golau ynni isel **oherwydd** mae bylbiau golau ynni isel yn defnyddio llai nag 20% o ynni bylb golau cyffredin, a gall bara hyd at 15 gwaith yn fwy.

**Fel arfer bydd dangosydd rheswm yn dod o flaen rheswm fel y dangosir uchod.**

Fodd bynnag, weithiau ni fydd dadleuon yn cynnwys dangosyddion rhesymau. Er mwyn cadarnhau eich bod wedi nodi rheswm yn gywir, gallwch ailysgrifennu dadleuon gan ddefnyddio dangosydd rheswm. Mae hyn yn helpu i ddadansoddi elfennau dadl pan fyddwch wrthi'n llunio a dadlunio dadl.

### Gweithgaredd 1

Ailysgrifennwch bob dadl isod gan ddefnyddio dangosyddion rhesymau gwahanol.

1. Gall yfed gormod o alcohol niweidio eich afu/iau. Mae angen i ymgyrchoedd y Llywodraeth wneud pobl yn fwy ymwybodol o'r niwed y maent yn ei wneud.
2. Mae'r nifer sy'n smygu yn lleihau. Mae cyflwyno e-sigaréts wedi bod yn

llwyddiannus gan eu bod yn boblogaidd iawn.
3. Mae pobl yn gwneud dewisiadau bwyd iachach. Mae archfarchnadoedd wedi gwella eu labeli bwyd i ddangos system goleuadau traffig o ran lefelau braster, halen a chaloriau.
4. Gall yfed gormod o ddŵr fod yn wael i chi. Dywedodd adroddiad yn y newyddion fod menyw wedi marw o feddwod dŵr ar ôl yfed pedwar litr mewn dwy awr.
5. Gall yfed gormod o ddŵr olygu eich bod yn dioddef o anhunedd. Mae yfed gormod o ddŵr yn wael i chi.

### Gweithgaredd 2

Edrychwch ar y dadleuon canlynol. Ar gyfer pob un, nodwch y dangosydd rheswm a'r rheswm.

1. Gan fod ceir yn rhyddhau llygredd, dylai fod opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus da ar gael.
2. Fel y nodir gan adroddiadau ar gynhesu byd-eang, dylai pobl fod yn fwy ecogyfeillgar.
3. Mae mwy o bobl yn rhoi'r gorau i smygu ers i e-sigaréts gael eu cyflwyno.
4. Mae pobl yn bwyta bwyd iachach mewn ffreuturau ysgolion diolch i ymgyrch Jamie Oliver  i wella cinio ysgol.
5. O ystyried bod lefelau'r boblogaeth yn cael effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd, dylid cyflwyno polisi un plentyn mewn rhai gwledydd.

## 8.2 Beth yw tystiolaeth?

Mae rhai dadleuon yn cyflwyno casgliadau a thystiolaeth i ategu rhesymau. Nid yw tystiolaeth ar ei phen ei hun o reidrwydd yn rheswm.

**Dadl:** Dylai pobl ddefnyddio bylbiau golau ynni isel gan fod  bylbiau golau ynni isel yn defnyddio llai nag 20% o ynni bylb golau cyffredin. Bydd hyn yn arwain at arbed £9 yn ychwanegol bob blwyddyn a gall bylbiau ynni isel bara hyd at 15 gwaith yn fwy.

### Pwynt trafod 1

Beth yw diben tystiolaeth mewn dadl?

## 8.3 Beth yw'r gwahaniaeth rhwng dadleuon diddwythol ac anwythol?

Ym maes meddwl yn feirniadol, gall tystiolaeth a gyflwynir fod yn wir neu'n anwir. Gall neu ni all ategu rhesymau yn effeithiol. Hefyd, efallai na fydd y rhesymau na'r casgliadau yn wir.

Fodd bynnag, mewn **dadleuon diddwythol**, os yw'r rhesymau yn wir, rhaid i'r casgliad hefyd fod yn wir.

Gellir gweld dadl ddiddwythol isod:

**Rh1** Mae pob cath ddomestig yn famal

**Rh2** Mae 'British Shorthair' yn frîd o gath ddomestig

**C** Mae 'British Shorthair' yn famal

Mewn dadleuon diddwythol, mae sicrwydd y bydd y casgliad yn dilyn y rhesymau.

### Pwynt trafod 2

Ystyriwch y ddadl isod. Ydy hyn yn enghraifft o ddadl ddiddwythol?

**Rh1** Mae pob ci yn famal

**Rh2** Mae 'British Shorthair' yn famal

**C** Mae 'British Shorthair' yn gi

Mewn rhai dadleuon, gall y rhesymau fod yn wir, ond nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod yn rhaid i'r casgliad fod yn wir hefyd. Mae'r rhan fwyaf o ddadleuon yn **anwythol.**


Mae dadl **anwythol** yn ddadl y mae ei rhesymau yn wir ac felly mae'r casgliad siŵr o fod yn wir.

Wrth ddadansoddi dadleuon, bydd angen i chi edrych yn ofalus ar y wybodaeth a ddarparwyd a phenderfynu beth yw'r rhesymau, y casgliadau, y dystiolaeth neu'r wybodaeth gefndir.

Bydd angen i chi benderfynu hefyd a yw'r ddadl yn anwythol neu'n ddiddwythol gan y bydd hyn yn rhoi arwydd o ba mor wir yw'r rhesymau a'r casgliadau, ac felly gryfder y ddadl.

## Crynodeb

- Weithiau daw dangosydd rheswm o flaen cyflwyno rheswm.
- Mae dangosyddion rhesymau yn cynnwys geiriau fel Oherwydd, Am, Gan, Os, Yna, O achos, Oblegid bod, Fel y dangosir gan, ac O wybod bod.
- Nid yw tystiolaeth yn rheswm, ond gall ategu rheswm a rhoi cryfder i ddadl.
- Dadleuon diddwythol yw rhai lle ceir sicrwydd y bydd casgliad yn dilyn y rhesymau. Os yw'r rhesymau yn wir, bydd y casgliad yn wir hefyd.
- Mae dadleuon anwythol yn fwy cyffredin na rhai diddwythol. Os yw'r rhesymau yn wir, gall y casgliad fod yn wir, ond nid yw hyn yn sicr.



Alamy AJ80TD

Ysgrifennodd yr Athronydd o hen wlad Groeg Aristotle (a anwyd tua 384 C.C.) ddadl ddiddwythol enwog am Socrates (uchod):

Rh1 Mae pob dyn yn feidrol
Rh2 Mae Socrates yn ddyn
C Mae Socrates yn feidrol

# UNED 9

## 9.1: Beth yw dangosyddion casgliadau?

Ategir casgliadau gan resymau mewn dadleuon. Maent yn helpu rheswm i wneud synnwyr drwy roi casgliad rhesymegol iddo. Weithiau daw gair arbennig cyn casgliad. Mae hyn yn golygu y gallwch weithiau nodi casgliad mewn dadl os bydd gair arbennig wedi cael ei ddefnyddio yn uniongyrchol cyn hynny. Gelwir y geiriau arbennig hyn hefyd yn ddangosyddion casgliadau.

Mae'r tabl isod yn dangos dangosyddion casgliadau:

| Gall dangosyddion casgliadau gynnwys: |
|---|
| Felly |
| Rhaid |
| Ni all |
| Dylai |
| Gan hynny |
| Am hynny |
| O ganlyniad |
| Mae'n dilyn |
| Fel canlyniad |
| Gan brofi |
| O'r herwydd |

### Gweithgaredd 1

Ailysgrifennwch bob un o'r dadleuon isod gan ddefnyddio dangosyddion casgliadau priodol.

1. Gall yfed gormod o alcohol niweidio eich afu/iau. Mae angen i ymgyrchoedd y Llywodraeth wneud pobl yn fwy ymwybodol o'r niwed y maent yn ei wneud.
2. Mae nifer y smygwyr yn lleihau. Mae cyflwyno e-sigaréts wedi bod yn llwyddiannus gan eu bod yn boblogaidd iawn.
3. Mae pobl yn gwneud dewisiadau bwyd iachach. Mae archfarchnadoedd wedi gwella eu labeli bwyd i ddangos system goleuadau traffig o ran lefelau braster, halen a chaloriau.
4. Gall yfed gormod o ddŵr fod yn wael i chi. Dywedodd adroddiad yn y newyddion fod menyw wedi marw o feddwdod dŵr ar ôl yfed pedwar litr mewn dwy awr.
5. Gall yfed gormod o ddŵr olygu eich bod yn dioddef o anhunedd (*insomnia*). Mae yfed gormod o ddŵr yn wael i chi.

## 9.2 Beth yw casgliadau canolradd?

Mae gan rai dadleuon fwy nag un casgliad. Hefyd daw rhai dadleuon i gasgliad sydd wedyn yn cyfrannu at gasgliad cyffredinol. Gelwir hyn yn **gasgliad canolradd** a ddilynir gan **brif gasgliad.**

Cymerwch y ddadl ganlynol:

**Dadl:** Byddai'n well gan rai rhieni gael meibion yn lle merched. O ganlyniad, os gall pobl ddewis rhyw eu plentyn, gall hyn arwain yn y pen draw at fwy o fechgyn na merched yn y byd. Gall hyn achosi problemau cymdeithasol difrifol. Felly, ni ddylem annog technegau sy'n caniatáu i bobl ddewis rhyw eu plentyn.

Mae hon yn ddadl anodd i'w dadadeiladu. Caiff y **prif gasgliad** ei ddynodi gan y gair 'Felly':

**Prif gasgliad:** Felly dylem annog technegau sy'n caniatáu i bobl ddewis rhyw eu plentyn.

Mae dau reswm:

**Rheswm 1:** Os gall pobl ddewis rhyw eu plentyn, gall hyn arwain yn y pen draw at fwy o fechgyn na merched yn y byd.

**Rheswm 2:** Gall hyn achosi problemau cymdeithasol difrifol.

**Fodd bynnag,** mae rheswm 1 hefyd yn cynnwys casgliad canolradd:

**Casgliad canolradd:** gall hyn arwain yn y pen draw at fwy o fechgyn na merched yn y byd.

Sy'n ategu'r casgliad cyffredinol:

**Prif gasgliad:** Felly dylem annog technegau sy'n caniatáu i bobl ddewis rhyw eu plentyn.

## 9.3 Sut i gyflwyno dadleuon gan ddefnyddio ffurf safonol?

Mae cyflwyno dadleuon ar ffurf safonol yn ffordd ddefnyddiol o lunio a dadadeiladu dadleuon er mwyn egluro ystyr a gwerthuso cryfder y ddadl. Rhoddir rhif i resymau ac fe'u hysgrifennir yn y drefn y cânt eu cyflwyno yn y ddadl. O dan y rhesymau, tynnir llinell o'r enw **bar tybio.**

Llinell lorweddol yw **bar tybio** sy'n golygu 'felly' wrth ysgrifennu dadl ar ffurf safonol.

Cymerwch y ddadl ganlynol:

**Dadl:** Dylai Llywodraethau fuddsoddi mwy mewn rhwydweithiau tramiau gan nad ydynt yn gollwng anweddau a all lygru'r amgylchedd a phan fyddant wedi cael eu sefydlu nhw yw'r system rataf o drafnidiaeth gyhoeddus y gellir ei defnyddio.

Gellir ail-lunio'r ddadl hon gan ddefnyddio'r ffurf safonol:

Rh1 Nid yw rhwydweithiau tramiau yn gollwng anweddau a all lygru'r amgylchedd.

Rh2 Ar ôl eu sefydlu nhw yw'r system rataf o drafnidiaeth gyhoeddus y gellir ei defnyddio.

---

C Dylai Llywodraethau fuddsoddi mwy mewn rhwydweithiau tramiau.

Ar ôl i'r dadleuon gael eu hysgrifennu ar ffurf safonol, cânt eu cyflwyno drwy symbolau:

<u>Rh1 Rh2</u>

↓

C

## 9.4 Beth yw'r patrymau rhesymu gwahanol?

Mae sawl ffordd wahanol o gyflwyno dadleuon:

- Rhesymu syml
- Rhesymu ochr yn ochr
- Rhesymu ar y cyd
- Rhesymau cadwyn

Eglurir pob dull yn ei dro.

## 9.5 Beth yw rhesymu syml?

Dyma'r math symlaf o ddadl lle yr ategir un casgliad gan un rheswm.

Cymerwch y ddadl ganlynol:

**Dadl:** Mae Tsieina wedi ei gorboblogi. Felly, mae ei pholisi un plentyn yn ffordd effeithiol o leihau'r gyfradd genedigaethau a'r twf cyffredinol yn y boblogaeth.

Byddai'r ddadl hon wedi ei hysgrifennu ar ffurf safonol yn edrych yn debyg i hyn:

Rh Mae Tsieina wedi ei gorboblogi.

---

C Mae ei pholisi un plentyn yn ffordd effeithiol o leihau'r gyfradd genedigaethau a'r twf cyffredinol yn y boblogaeth.

Drwy ddefnyddio symbolau, gellir ei chyflwyno fel hyn:

Rh

↓

C

## 9.6 Beth yw rhesymu ochr yn ochr?

Mae rhesymau ochr yn ochr yn annibynnol - h.y. nid ydynt yn gysylltiedig nac yn ddibynnol ar ei gilydd. Gall unrhyw reswm a gyflwynir ochr yn ochr ategu'r casgliad.

Cymerwch y ddadl ganlynol:

Dadl: Mae buddiannau iechyd gwych yn gysylltiedig â the gwyrdd. Mae'n cynnwys cyfansoddion bioactif amrywiol a all wella iechyd. Gall cyfansoddion mewn te gwyrdd wella gweithrediad yr ymennydd. Mae te

gwyrdd yn cynyddu gallu'r corff i losgi braster ac yn gwella perfformiad corfforol. Gall gwrthocsidyddion mewn te gwyrdd leihau eich risg o gael mathau gwahanol o ganser.

Byddai'r ddadl ar ffurf safonol yn edrych yn debyg i hyn:

**Rh1** Mae'n cynnwys cyfansoddion bioactif amrywiol a all wella iechyd.

**Rh2** Gall cyfansoddion mewn te gwyrdd wella gweithrediad yr ymennydd

**Rh3** Mae te gwyrdd yn cynyddu gallu'r corff i losgi braster ac yn gwella perfformiad corfforol

**Rh4** Gall gwrthocsidyddion mewn te gwyrdd leihau eich risg o gael mathau gwahanol o ganser.

---

C Mae buddiannau iechyd gwych yn gysylltiedig â the gwyrdd.

Byddai'r ddadl wedi'i chyflwyno drwy symbolau yn edrych yn debyg i hyn:

<u>Rh1 Rh2 Rh3 Rh4</u>

↓

C

## 9.7 Beth yw rhesymu ar y cyd?

Roedd rhesymu ochr yn ochr yn cynnwys rhesymau annibynnol, ond mae rhesymu ar y cyd yn cynnwys rhesymau sy'n dibynnu ar ei gilydd. Pe baem yn edrych ar un rheswm ar wahân i'r lleill, ni fyddai'n ategu'r casgliad.

Cymerwch y ddadl ganlynol:

**Dadl:** Mae buddiannau iechyd amrywiol yn gysylltiedig â the gwyrdd. Nid oes gan lemonêd lawer o fuddiannau iechyd. Wrth ddarparu lluniaeth i'r henoed mewn cartrefi gofal, gall fod yn well cynnig te gwyrdd yn hytrach na lemonêd iddynt.

Byddai'r ddadl ar ffurf safonol yn edrych yn debyg i hyn:

**Rh1** Mae buddiannau iechyd amrywiol yn gysylltiedig â the gwyrdd.

**Rh2** Nid oes gan lemonêd lawer o fuddiannau iechyd.

---

C Wrth ddarparu lluniaeth i'r henoed mewn cartrefi gofal, gall fod yn well cynnig te gwyrdd yn hytrach na lemonêd iddynt.

Byddai'r ddadl wedi'i chyflwyno drwy symbolau yn edrych yn debyg i hyn:

<u>Rh1 + Rh2</u>

↓

C

## 9.8 Beth yw rhesymu cadwyn?

Mae gan rai dadleuon gasgliadau canolradd. Mae'r ddadl ganlynol yn cynnwys rheswm, casgliad canolradd a phrif gasgliad.

### Pwynt Myfyrio 1

Pa eiriau dangosydd ydych chi'n chwilio amdanynt er mwyn gweld casgliadau?

Dadl: Mae pobl yn arbed mwy o arian. O ganlyniad mae llai o arian yn symud o amgylch yr economi. Felly gallwn ddisgwyl gweld lleihad mewn cyflogaeth.

Byddai'r ddadl ar ffurf safonol yn edrych yn debyg i hyn:

Rh mae pobl yn arbed mwy o arian.

CDI O ganlyniad mae llai o arian yn symud o amgylch yr economi.

---

C Felly gallwn ddisgwyl gweld lleihad mewn cyflogaeth.

Byddai'r ddadl wedi'i chyflwyno drwy symbolau yn edrych yn debyg i hyn:

Rh
↓
CDI
↓
C

### Profi eich Hun 1

Edrychwch ar y dadleuon canlynol a phenderfynwch a oes enghreifftiau o resymu syml, rhesymu ochr yn ochr, rhesymu ar y cyd neu resymu cadwyn. Yna cyflwynwch bob dadl ar ffurf safonol **a** thrwy symbolau.

**Dadl 1:** Mae cyfraddau glawiad cymharol uchel yng Nghymru. Mae cyfraddau glawiad cymharol isel yn Poole yn Dorset. Wrth benderfynu ble i fynd ar wyliau glan môr, yna Poole fydd y dewis gorau fwy na thebyg.

**Dadl 2:** Mae ymarfer corff yn dda iawn i chi. Mae'n eich cadw chi'n ffit, mae'n gwneud i chi deimlo'n dda, mae'n gwella dwyster eich esgyrn sy'n cyfyngu ar osteoporosis ac yn eich cadw'n hyblyg.

**Dadl 3:** Mae bwydo ar y fron yn rhoi deiet maethlon i fabanod. O ganlyniad, dylai mamau allu bwydo eu babanod mewn unrhyw leoliad. Felly, dylid annog bwydo ar y fron mewn mannau cyhoeddus.

**Dadl 4:** Mae'r boblogaeth yn heneiddio. Mae angen codi mwy o dreth ar bobl er mwyn cefnogi poblogaeth sy'n heneiddio.

### Crynodeb

- Weithiau rhagflaenir cyflwyniad casgliad gan ddangosydd casgliad.
- Mae dangosyddion casgliadau posibl yn cynnwys Felly, Rhaid, Ni all, Dylai, Am hynny, O ganlyniad, Mae'n dilyn, Fel

canlyniad, Gan brofi ac O'r herwydd.

- Gellir cyflwyno dadleuon fel rhesymu syml lle mae rheswm wedi'i gyflwyno i ategu casgliad.
- Gellir cyflwyno dadleuon fel rhesymu ochr yn ochr, lle mae pob rheswm yn annibynnol ar ei gilydd a gall pob rheswm ategu'r casgliad ar ei ben ei hun.
- Gellir cyflwyno dadleuon fel rhesymu ar y cyd pan gyflwynir rhesymau sy'n dibynnu ar ei gilydd. Dim ond drwy ystyried yr holl resymau gyda'i gilydd y bydd y casgliad yn gwneud synnwyr.
- Mae rhesymu cadwyn yn cynnwys rhesymau sy'n adeiladu ar ei gilydd. Gallant hefyd gynnwys casgliadau canolradd.



Mae pob dadl o ran meddwl yn feirniadol yn dilyn trefn benodol.

# UNED 10

## 10.1: Beth yw tybiaethau mewn dadleuon?

Mae gan **dybiaeth** ystyr arbennig mewn perthynas â meddwl yn feirniadol. Mae'n cyfeirio at **reswm heb ei nodi.** Os byddwch yn cofio'r hyn a wnaethoch yn Unedau 7-9, mae rheswm yn helpu i gefnogi casgliad. Fodd bynnag, weithiau ni chaiff rhai rhesymau eu crybwyll mewn dadl, er y byddent yn helpu i wneud synnwyr o ddadl.

Fodd bynnag, mae llawer o ddadleuon yn cynnwys tybiaethau gan nad yw'n ymddangos ei fod yn werth crybwyll llai pethau yr ystyrir eu bod mor amlwg.

Cymerwch y ddadl ganlynol:

Dadl: Peidiwch ag yfed dŵr budr o lynnoedd neu afonydd. Nid yw dŵr o'r fath wedi cael ei glorineiddio.

Ar y ffurf safonol, mae Rh2 ar goll o'r ddadl uchod ond ceir tybiaeth:

| | |
|---|---|
| Rh1 | Nid yw dŵr o'r fath wedi cael ei glorineiddio. |
| **Rh2** | **Mae dŵr heb ei glorineiddio yn beryglus** |
| C | Peidiwch ag yfed dŵr budr o lynnoedd neu afonydd |

Weithiau mae dadleuon yn cynnwys rhesymau heb eu nodi yn bwrpasol. Mae hyn oherwydd y gellir cyflwyno dadl yn gryno fel ei bod yn cael mwy o effaith.

Fodd bynnag, weithiau mae angen tybiaeth i atgyfnerthu dadl. Gall tybiaeth naill ai:

- Gefnogi rheswm
- Bod yn rheswm yn ei rinwedd ei hun
- Bod yn gasgliad canolradd

**Gweithgaredd Unigol 1**

Nodwch y tybiaethau yn y dadleuon isod:

1. Lle y bo'n bosibl dylem deithio ar drên yn hytrach nag mewn car. Bydd hyn yn lleihau nwyon tŷ gwydr a chynhesu byd-eang
2. Dylid ailgylchu pob math o sbwriel. Mae ei anfon i safleoedd tirlenwi yn niweidio'r amgylchedd
3. Dylid cefnogi Greenpeace. Mae potswyr yn hela ac yn lladd dolffiniaid a morfilod.

## 10.2: Beth yw egwyddorion mewn dadleuon?

Datganiad yw **egwyddor** ynghylch sut y dylai rhywbeth fod. Nid yw o anghenraid yn gywir nac yn cynrychioli rhywbeth sy'n wir.

Yn aml, mae egwyddorion yn deillio o reolau cyfreithiol, canllawiau moesol neu foeseg feddygol, er enghraifft.

Yn aml, caiff y gair **'dylai'** ei ddefnyddio mewn egwyddorion ac maent yn gwneud honiad ynghylch sut y dylai rhywbeth fod.

Ymysg yr enghreifftiau o egwyddorion mae:

- Ni ddylai pobl gael eu defnyddio fel caethweision
- Ni ddylai pobl gael eu brifo
- Ni ddylai profion gael eu cynnal ar anifeiliaid
- Ni ddylai cleifion gordew gael eu trin gan y GIG

Gellir defnyddio egwyddorion mewn dadleuon fel rheswm, casgliadau canolradd a phrif gasgliadau.

Yn aml, maent yn bwerus iawn mewn dadleuon; fodd bynnag, ystyrir eu bod yn anhyblyg. Mae hyn yn golygu na ellir eu plygu i gyd-fynd â sefyllfaoedd penodol.

Er enghraifft, cymerwch y ddadl ganlynol:

**Dadl:** Nid yw'n iawn lladd. Mae'n anghywir lladd pobl mewn carchar a all fod wedi cael eu hadsefydlu, mae'n anghywir lladd anifeiliaid diniwed fel rhan o arbrofion ac mae'n anghywir lladd pobl drwy fomio hunanladdol.

Fodd bynnag, mae gwenynen yn hedfan heibio ac rydych yn ei tharo. Yn yr achos hwn, nid yw eich egwyddor yn sefyll. Ni ellir gwrth-ddweud egwyddor.

## 10.3: Beth yw gwrth-ddadleuon?

Ystyr **gwrth-ddadl** yw dadl sy'n mynd yn groes i ddadl arall naill ai drwy herio'r rhesymau yn y ddadl arall, gan ddefnyddio rhesymau gwahanol i fynd yn groes i ddadl arall neu drwy ddod o hyd i ddiffygion yn rhesymeg y ddadl arall.

## 10.4 Sut i herio rhesymau mewn dadl arall.

Cymerwch y ddadl ganlynol:

Dadl: Mae arholiadau yn ffordd decach o asesu myfyrwyr. Mae gan bawb yr un faint o amser a'r un cwestiynau felly mae pawb yn cael eu trin yn gyfartal felly mae'n fwy cywir. Mae pawb hefyd yn glir mai gwaith y myfyrwyr eu hunain sy'n cael ei gyflwyno ac felly mae'n dangos eu dealltwriaeth ar yr adeg benodol honno.

Byddai gwrth-ddadl yn cynnwys llunio ffyrdd o wrthod pob un o'r datganiadau uchod.

**Gweithgaredd unigol 2**

Lluniwch wrth-ddadleuon o ran pam na all arholiadau fod yn decach, yn fwy cywir a pham nad ydynt yn dangos dealltwriaeth myfyrwyr.

## 10.5 Sut i ddefnyddio rhesymau gwahanol i fynd yn groes i ddadl arall.

Cymerwch y ddadl ganlynol:

Dadl: Mae'r Llywodraeth yn gywir i barhau i ddosbarthu canabis fel sylwedd anghyfreithlon. Gall pobl fynd yn gaeth a throi at drosedd er mwyn cynnal eu harfer.

Byddai gwrth-ddadl sy'n defnyddio rhesymau gwahanol yn cynnwys defnyddio'r gwrthwyneb i'r casgliad a defnyddio rhesymau gwahanol i ategu'r casgliad newydd.

e.e. **Dadl:** Nid yw'r Llywodraeth yn iawn i barhau i ddosbarthu canabis fel sylwedd anghyfreithlon. Mae gan ganabis fuddiannau iechyd cadarnhaol.

### Astudiaeth achos 1

Edrychwch ar yr astudiaeth achos ganlynol. Nodwch unrhyw dybiaethau ac egwyddorion yn ogystal â chyflwyno gwrth-ddadleuon perthnasol.

**Mae Colorado yn mwynhau buddiannau a ddaeth yn sgil cyfreithloni marijuana**

Mae blwyddyn wedi mynd heibio ers i Colorado gyfreithloni marijuana. Hi oedd y dalaith gyntaf yn yr UD i wneud hynny, a gellir mesur yr effaith ar iechyd, troseddau, cyflogaeth a ffactorau eraill bellach.

Felly, a arweiniodd at apocalyps gyda strydoedd yn llawn pobl ddi-waith yn gaeth i gyffuriau fel yr ofnodd rhai Gweriniaethwyr?

"Nid oes rhyw lawer wedi newid," meddai heddwas yn Denver wrth CBC yr wythnos hon.

Nid yw cyfreithloni canabis wedi arwain at gynnydd mewn troseddau, ac yn fwy na hynny, mae wedi creu miloedd o swyddi, wrth i dwristiaid dyrru i'r 60+ o allfeydd marijuana yn y ddinas.

Penododd un o'r papurau newydd lleol ei adolygydd canabis cyntaf ym mis Ebrill.

"Felly dyw'r byd ddim ar ben?" gofynnodd un o ohebwyr CBC i'r heddwas. "Dyw'r bydd ddim ar ben," atebodd. Dylid ddim ystyried marijuana yn rhywbeth negyddol.

Roedd cyfraddau troseddau gyrru, troseddau eiddo a throseddau treisgar yn gostwng yn Denver cyn y ddeddfwriaeth, ac mae'r duedd wedi parhau. Mae'r defnydd o gyffuriau ymysg pobl ifanc hyd yn oed wedi gostwng, yn ôl yr adroddiad.

Yn y cyfamser, mae'r dalaith wedi casglu $60 miliwn mewn refeniw treth o werthu'r cyffur, y mae $4 miliwn ohono wedi cael ei ail-fuddsoddi yn y ddinas drwy raglenni newydd a gyflwynwyd gan y maer.

Mae canabis yn gyffur Dosbarth B yn y DU o hyd, ac mae pobl yn wynebu hyd at bum mlynedd yn y carchar am feddiant.

## Crynodeb

- Mae gan dybiaeth ystyr arbennig mewn perthynas â meddwl yn feirniadol. Mae'n cyfeirio at reswm heb ei nodi.
- Datganiad yw egwyddor ynghylch sut y dylai rhywbeth fod. Nid yw o anghenraid yn gywir nac yn cynrychioli rhywbeth sy'n wir.
- Ystyr gwrth-ddadl yw dadl sy'n mynd yn groes i ddadl arall naill ai drwy herio'r rhesymau yn y ddadl arall, gan ddefnyddio rhesymau gwahanol i fynd yn groes i ddadl arall neu drwy ddod o hyd i ddiffygion yn rhesymeg y ddadl arall.

# UNED 11

## 11.1: Beth yw diffygion mewn dadleuon?

Camgymeriad mewn dadl yw **diffyg**. Fel arfer, bydd hyn yn codi pan na fydd casgliad yn dilyn y rhesymau mewn dadl mewn modd rhesymegol.

Wrth lunio dadleuon neu ddadansoddi eu cryfder, mae'n bwysig bod yn ymwybodol o ddiffygion posibl.

## 11.2 Diffyg 1

## - Camsyniad post hoc

Caiff yr ymadrodd Lladin *post hoc ergo propter hoc* ei gyfieithu fel 'ar ôl hyn, felly oherwydd hyn'. Neu i'w roi mewn ffordd arall, dim ond am fod rhywbeth yn digwydd (gweithred A) ar ôl rhywbeth arall (gweithred B), nid yw hyn yn golygu bod gweithred A wedi achosi gweithred B. Gallai fod yn gyd-ddigwyddiad.

Ceir enghraifft arall o gamsyniad post hoc isod:

**Dadl:** Mae bwyta 5 y dydd yn eich gwneud yn sâl. Yn ddiweddar, dechreuais ar ymgyrch iach bwyta 5 y dydd. Nawr mae gen i annwyd trwm.

Pwynt myfyrio 1

Ym mha ffordd y mae'r ddadl uchod yn ddiffygiol?

## 11.3 Diffyg 2

## - Camsyniad ad hominem

Ystyr yr ymadrodd Lladin *ad hominem* yw 'yn erbyn yr unigolyn'. Felly, yn lle ymosod ar ddadl, mae rhywun yn ymosod ar yr unigolyn sy'n cyflwyno'r ddadl. Gwneir hyn fel arfer er mwyn bwrw amheuaeth ar ei hygrededd a'i enw da.

Mae dadl ad hominem yn cynnwys y canlynol:

- Disgrifiad negyddol o'r unigolyn sy'n cyflwyno'r ddadl
- Diystyru'r ddadl yn seiliedig ar y disgrifiad negyddol hwn.

**Dadl:** Ni ddylid adfer y gŵr hwnnw i'w swydd fel Maer gan nad yw'n gwybod beth mae'n ei wneud. Mae'n rhywiaethol oherwydd yn ddiweddar bu'n cellwair mai dim ond er mwyn dod o hyd i ŵr y bydd merched yn mynd i'r brifysgol.

Pwynt myfyrio 2

Ym mha ffordd y mae'r ddadl uchod yn ddiffygiol?

## 11.4 Diffyg 3 - Camsyniad dyn gwellt

Defnyddiwyd dyn gwellt yn draddodiadol fel ymarfer targed ar gyfer saethyddion gan ei fod yn hawdd ei daro i lawr.

Yn yr un modd, pan fydd dadl wedi cael ei gor-ddweud neu ei symleiddio, mae'n haws ei tharo i lawr.

Mae camsyniad dyn gwellt yn cynnwys nodi:

- Dadleuon sydd naill ai'n ymddangos yn rhy syml neu wedi cael eu gor-ddweud felly mae eu neges wedi cael ei hystumio.

**Dadl:** Mae ein AS lleol yn dweud y dylid cwtogi'r gyllideb amddiffyn 2%. Ni fydd gennym fyddin ar ôl i amddiffyn ein gwlad.

### Pwynt myfyrio 3

Ym mha ffordd y mae'r ddadl uchod yn ddiffygiol?

## 11.5 Diffyg 4 - Camsyniad tu quoque

Ystyr yr ymadrodd Lladin *To quoque* yw 'Ti hefyd'. Dyma pan fydd dadl yn cael ei diystyru oherwydd yr ystyrir ei bod yn anghyson â gweithredoedd neu honiadau blaenorol. Dim ond am ei bod yn ymddangos bod dadl yn gwrth-ddweud gweithredoedd neu ymatebion blaenorol, nid yw'n golygu y dylid gwrthod y ddadl.

**Dadl:** Mae fy mam yn dweud wrthyf y dylwn ofalu amdanaf i fy hun yn well a rhoi'r gorau i smygu. Eto, mae hi'n bwyta gormod o fraster dirlawn ac nid yw'n gwneud bron dim ymarfer corff.

### Pwynt myfyrio 4

Ym mha ffordd y mae'r ddadl uchod yn ddiffygiol?

## 11.6 Diffyg 6 - Llethr Llithrig

Defnyddir dadl llethr llithrig yn aml i godi bwganod. Mae'n ceisio perswadio pobl y gallai rhywbeth a all ymddangos yn dderbyniol ar y dechrau arwain at ganlyniadau annerbyniol.

Y diffyg mewn dadl llethr llithrig yw'r awgrym y bydd y llethr llithrig yn digwydd heb lawer o dystiolaeth os o gwbl!

**Dadl:** Mae rhai gwledydd o blaid y gosb eithaf. Ond beth fydd canlyniad hyn? Mae ein carchardai yn orlawn felly efallai y bydd mwy o bobl yn wynebu'r gosb eithaf yn hytrach na dedfryd o garchar am oes. A pho fwyaf o farwolaethau a fydd, y mwyaf y bydd pobl yn ei derbyn. Gall arwain at grwpiau o bobl yn wynebu'r gosb eithaf ar yr un pryd, sy'n ein hatgoffa o gyfnod goresgyniad y Natsïaid.

Pwynt myfyrio 5

Ym mha ffordd y mae'r ddadl uchod yn ddiffygiol?

## 11.7 Diffyg 7 - Dadl gylchog

Bydd dadl gylchog yn digwydd pan fydd y rheswm a'r casgliad yr un fath.

**Dadl:** Fi yw'r gorau am chwarae monopoly oherwydd rwyf bob amser yn ennill.

Pwynt myfyrio 6

Ym mha ffordd y mae'r ddadl uchod yn ddiffygiol?

**Pwynt trafod 1**

Beth fyddai'n rheswm gwell dros ategu'r casgliad?

11.8 Diffyg 8 - Cyfyng-gyngor ffug

Gall dadleuon fod yn ddiffygiol hefyd pan fydd yr opsiynau sydd ar gael yn brin neu'n gyfyngedig. Yn aml, bydd dadleuon o'r fath yn gofyn i bobl benderfynu rhwng dau opsiwn annymunol neu fwy.

Gelwir hon yn gyfyng-gyngor ffug gan fod problem yn cynnwys gorfod gwneud dewis anodd. Mae cyfyngu ar ddewisiadau yn arwain at gyfyng-gyngor ffug.

**Dadl:** Mae dwy ffordd o wella safonau addysg. Y ffordd gyntaf yw sicrhau gwell athrawon a'r ail ffordd yw sicrhau gwell cyfleusterau. Bydd y mesurau hyn yn arwain at well canlyniadau.

Pwynt myfyrio 7

Ym mha ffordd y mae'r ddadl uchod yn ddiffygiol?

**Pwynt trafod 2**

Pa ddewisiadau eraill sydd?

## 11.9 Diffyg 9 - Anghysondeb

Gall dadleuon fod yn anghyson hefyd. Dyma pryd y bydd rhesymau/casgliadau/honiadau yn gwrth-ddweud ei gilydd.

**Dadl:** Nid yw ewthanasia yn iawn. Dylai pobl farw yn naturiol. Felly, dylid buddsoddi mewn mwy o lefydd sydd o blaid ewthanasia.

Pwynt myfyrio 8

Ym mha ffordd y mae'r ddadl uchod yn ddiffygiol?

**Pwynt trafod 3**

Beth fyddai'n gasgliad mwy addas?

## 11.10 Diffyg 10 - Apeliadau

Mae llawer o wahanol fathau o apeliadau. Fel arfer, mae apeliadau yn amherthnasol i'r dadleuon a gyflwynir. Gallai apeliadau gynnwys apelio o blaid **pethau newydd** - (mae unrhyw beth newydd yn well), **tosturi** - (teimlwch drueni drosta i), **poblogrwydd** - (mae'n rhaid mai fi sy'n gywir gan fod y rhan fwyaf o bobl yn cytuno â mi), **ofn** - (perswadio o ganlyniad i ofni rhywbeth) ac **awdurdod** (defnyddio rhywun mewn awdurdod a all fod yn amherthnasol) er mwyn ychwanegu bri. Yn aml, defnyddir enwogion i hyrwyddo llefydd a chynhyrchion. Efallai na fydd ganddynt unrhyw beth i'w wneud â'r cynnyrch na'r lle, ond mae eu presenoldeb yn gweithredu fel apêl.

### Gweithgaredd unigol 1

Lluniwch ddadl sy'n dangos pob diffyg (Diffygion 1-10). Cofiwch fod dadl yn cynnwys o leiaf un rheswm i ategu casgliad.

### Crynodeb

- Caiff yr ymadrodd Lladin *post hoc ergo propter hoc* ei gyfieithu fel 'ar ôl hyn, felly oherwydd hyn'. Neu i'w roi mewn ffordd arall, dim ond am fod rhywbeth yn digwydd (gweithred A) ar ôl rhywbeth arall (gweithred B), nid yw hyn yn golygu bod gweithred A wedi achosi gweithred B. Gallai fod yn gyd-ddigwyddiad.
- Ystyr yr ymadrodd Lladin ad hominem yw 'yn erbyn yr unigolyn'. Felly, yn lle ymosod ar ddadl, mae rhywun yn ymosod ar yr unigolyn sy'n cyflwyno'r ddadl. Gwneir hyn fel arfer er mwyn bwrw amheuaeth ar ei hygrededd a'i enw da.
- Mae camsyniad dyn gwellt yn cynnwys nodi dadleuon sydd naill ai'n ymddangos yn rhy syml neu wedi cael eu gor-ddweud fel bod eu neges wedi cael ei hystumio.
- Ystyr *to quoque yw* 'Ti hefyd'. Dyma pan fydd dadl yn cael ei diystyru oherwydd yr ystyrir ei bod yn anghyson â gweithredoedd neu honiadau blaenorol.
- Defnyddir dadl llethr llithrig yn aml i godi bwganod. Mae'n ceisio perswadio pobl y gallai rhywbeth a all ymddangos yn dderbyniol ar y dechrau arwain at ganlyniadau annerbyniol.
- Bydd dadl gylchog yn digwydd pan fydd y rheswm a'r casgliad yr un fath.
- Gall dadleuon fod yn ddiffygiol hefyd pan fydd yr opsiynau sydd ar gael yn brin neu'n gyfyngedig. Yn aml, bydd dadleuon o'r fath yn gofyn i bobl benderfynu rhwng dau opsiwn annymunol neu fwy sy'n enghraifft o gyfyng-gyngor ffug.
- Gall dadleuon fod yn anghyson hefyd. Dyma pryd y bydd

rhesymau/casgliadau/honiadau yn gwrth-ddweud ei gilydd.

- Mae apeliadau'n amherthnasol os nad oes ganddynt dystiolaeth i'w hategu.




Diffyg y dyn gwellt - a yw'r ddadl yn rhy syml neu wedi cael ei gor-ddweud fel bod ei neges wedi cael ei hystumio?

# UNED 12

## 12.1: Sut i ddechrau llunio dadl effeithiol:

- Ymchwiliwch i'r pwnc rydych wedi'i ddewis. Ceisiwch ganfod cymaint â phosibl. Dylai'r wybodaeth hon gynrychioli pob barn ac yna gallwch benderfynu ar eich safbwynt pan fyddwch wedi cwblhau eich ymchwil.




- Nesaf, ewch drwy eich ymchwil pan fyddwch wedi penderfynu ar eich ffocws. Diystyrwch yr holl ymchwil amherthnasol

- Penderfynwch pa mor ddibynadwy yw'r ymchwil berthnasol sydd gennych. Gallwch ddiystyru tystiolaeth annibynadwy neu wneud nodyn ynghylch pam ei bod yn annibynadwy, y gallwch benderfynu ei ddefnyddio yn eich dadl.

- Rhannwch y dystiolaeth sy'n weddill yn ddau bentwr. Un sy'n ymddangos yn niwtral ac un sy'n cefnogi safbwyntiau croes.

- Casglwch ynghyd unrhyw ymchwil sy'n ymddengys yn gysylltiedig.

- Dewch i gasgliad cyffredinol.



- Penderfynwch ar resymau a thystiolaeth i ategu eich rhesymau yn eich casgliad. Er mwyn creu dadl effeithiol, mae'n bwysig gallu ei chynllunio fel y gellir ei chyflwyno **ar ffurf safonol.** Efallai y byddwch am ddiwygio'r drefn, ychwanegu ato neu ei newid ond dylai eich dadl fod yn ddigon cryf i gael ei chyflwyno **ar ffurf safonol** a'i chyflwyno ar ffurf **symbolau.**

- Peidiwch ag anwybyddu ymchwil sy'n mynd yn groes i'ch casgliad. Ystyriwch wrth-ddadleuon ar ei chyfer.

- Craffwch yn feirniadol ar eich dadl. A oes unrhyw ddiffygion?



## 12.2: Ffactorau pwysig eraill i'w hystyried

*a) Pa fath o resymeg ydych chi'n ei defnyddio?*

Mae angen i chi sicrhau bod eich rhesymeg hefyd yn ddiogel. Ystyriwch p'un a ydych yn defnyddio rhesymu ochr yn ochr, rhesymu ar y cyd neu resymu cadwyn. Faint o resymau ydych chi'n eu nodi? A yw eich rhesymau'n berthnasol?

*b) A oes angen unrhyw gasgliadau canolradd arnoch?*

A oes angen atgyfnerthu eich dadl gyda chasgliadau canolradd?

*c) A oes gennych unrhyw dybiaethau?*

Ydych chi'n gwneud unrhyw dybiaethau y mae angen i chi eu troi yn rhesymau amlwg er mwyn atgyfnerthu eich dadl?

*d) Ydych chi'n dibynnu ar unrhyw egwyddorion yn eich dadl?*

Os felly, a yw'n berthnasol i bob sefyllfa? Mae egwyddorion yn bwerus ond yn anhyblyg.

*e) A oes gennych unrhyw wrth-ddadleuon?*

A fydd eich dadl yn gryfach os byddwch yn herio rhesymau yn y ddadl groes?

*f) A oes gennych unrhyw dystiolaeth i atgyfnerthu eich rhesymau?*

A yw'r dystiolaeth hon yn gredadwy?

*g) A yw eich dadl yn rhesymegol?*

A yw eich casgliad yn argyhoeddiadol? A yw eich rhesymau yn ategu eich casgliad?

*h) A yw eich dadl yn cynnwys digon o wybodaeth, heb fod yn ormod?*

Mae angen i chi fod yn ddarbwyllol ac yn wybodus; ond ni ddylech falu awyr.

### Gweithgaredd i Unigolion

Dewiswch un o'r cwestiynau isod a lluniwch ddadl effeithiol gan ddefnyddio'r holl gyngor uchod:

- A ddylid cael cyfraith i atal rhieni rhag smacio eu plant?
- A ddylai prisiau tocynnau hedfan godi?
- A ddylid cyflwyno ewthanasia yng Nghymru?
- A ddylid cyfreithloni'r defnydd o gyffuriau?
- A ddylid gwrthod llawdriniaethau i bobl sy'n ordew iawn?
- A ddylid codi'r oedran cyfreithlon i yfed alcohol i 21?
- A ddylai pawb gael hawl i fod yn rhiant?
- A ddylid ailgyflwyno'r gosb eithaf yng Nghymru?

### Gwaith grŵp

Gwrandewch ar ddadleuon eraill. Gwerthuswch gryfder pob dadl yn feirniadol.

## Gwiriad Cynnydd 2

**Termau allweddol:**

| Tymor | Diffiniad | Pa mor hyderus ydw i fy mod i'n deall ac yn defnyddio'r term hwn? | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Hyderus iawn | Rhywfaint yn hyderus | Ddim yn hyderus iawn |
| Dadl | | | | |
| Casgliad | | | | |
| Rheswm | | | | |
| Tybiaeth | | | | |

| Rwyf wedi dysgu sut i: | Pa mor hyderus ydw i wrth wneud hyn? | | |
|---|---|---|---|
| | Hyderus iawn | Rhywfaint yn hyderus | Ddim yn hyderus iawn |
| Cyflwyno dadleuon yn symbolaidd | | | |
| Defnyddio patrymau rhesymu gwahanol (syml, ochr yn ochr, ar y cyd a chadwyn) | | | |
| Deall sut i herio dadleuon | | | |
| Nodi dangosyddion rheswm | | | |
| Nodi dangosyddion casgliad | | | |
| Nodi diffygion mewn dadleuon | | | |

**Cymhwyso Sgiliau a Gwybodaeth:**

**Rwyf wedi mwynhau:**

**Gallaf gymhwyso'r dysgu hyn at:**


# UNED 13

## 13.1: Beth yw dadansoddiad PESTLE?

Mae'r amgylchedd yn newid yn gyson. Un ffordd o ddadansoddi'r amgylchedd allanol yw drwy ddefnyddio dadansoddiad PESTLE. Mae'r acronym Saesneg PESTLE yn cyfeirio at:

- Dylanwadau **Gwleidyddol**
- Dylanwadau **Economaidd**
- Dylanwadau **Cymdeithasol a Diwylliannol**
- Dylanwadau **Technolegol**
- Dylanwadau **Cyfreithiol**
- Dylanwadau **Amgylcheddol**

Felly mae unrhyw sefydliad neu fater yn gweithio mewn amgylchedd allanol a gall PESTLE helpu i esbonio'r dylanwadau a'r effeithiau.




## 13.2 Beth yw dylanwadau Gwleidyddol?

Mae llywodraethau yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol yn darparu rheolau, rheoliadau, confensiynau a chyfyngiadau.

Gall dylanwadau a all effeithio ar amgylchedd gynnwys:

- Newidiadau mewn treth. Er enghraifft; os bydd llywodraeth yn lleihau trethiant, gall hyn olygu bod gan ddefnyddwyr fwy o incwm gwario a gallant brynu mwy o nwyddau a gwasanaethau gan fusnesau.

- Preifateiddio neu wladoli. Er enghraifft; os caiff sefydliad cludiant ei breifateiddio, gall fod yn gweithio mewn amgylchedd cystadleuol a chynnig tocynnau teithio rhatach er mwyn denu cwsmeriaid.

- Undebau llafur. Er enghraifft; os bydd sefydliad cludiant yn newid telerau ac amodau ei gyflogeion, gall undebau llafur alw streic. Gallai hyn arwain at sefyllfa lle na fyddai'r gwasanaeth cludiant ar gael i'r defnyddwyr ei ddefnyddio ar ddiwrnodau'r streic.

- Newidiadau o ran y deunyddiau crai sydd ar gael. Er enghraifft, os bydd pris deunydd crai fel coco yn codi am fod cnwd wedi methu, efallai y bydd defnyddwyr yn talu mwy am y cynnyrch terfynol.

- Tollau ac ardollau. Os codir tollau uwch ar gynhyrchion annymunol fel tybaco, gall hyn atal defnyddwyr rhag eu defnyddio.

### Gweithgaredd i Unigolion

Ewch ati i weld beth yw'r sefyllfa yng Nghymru ar hyn o bryd o ran pob un o'r dylanwadau uchod. Dewiswch un a gwnewch gyflwyniad ar yr hyn rydych chi'n ei ddeall i gynulleidfa.

Er mwyn ymestyn hyn, gallech gymharu a chyferbynnu â gwlad arall.

Felly, penderfyniadau a wneir gan lywodraethau yw **dylanwadau gwleidyddol.** Gall lobïo er enghraifft, ddylanwadu ar benderfyniadau gwleidyddol, ond fel arfer maent y tu hwnt i reolaeth sefydliadau.

### Astudiaeth achos 1 - Cludiant

Mae gwasanaethau cludiant wrth wraidd economi'r DU - symud pobl i'w gwaith, i'w cartrefi ac i'r ysgol, a nwyddau i gartrefi a busnesau. Yn y 1980au, dechreuodd y llywodraeth breifateiddio rhai gwasanaethau cludiant yn y DU. Credodd y byddai caniatáu i gwmnïau preifat gystadlu er mwyn rhedeg gwasanaethau cludiant yn cadw prisiau'n isel ac yn sicrhau y byddai cwmnïau yn gweithio'n galetach i roi'r hyn y mae cwsmeriaid yn gofyn amdano iddynt.

### Trafodaeth 1

**Ydy defnyddwyr yng Nghymru yn hapus ar y cyfan â gwasanaethau cludiant?**

Cafodd rheilffyrdd Prydain eu gwladoli gan y blaid Lafur yn 1948 a'u dychwelyd i ddwylo preifat gan lywodraeth Geidwadol John Major yn 1993.

Ar y dechrau roedd y blaid Lafur yn ymrwymedig i ailwladoli ond dilëwyd y polisi pan ddaeth Tony Blair i rym yn 1997. Penderfynwyd rhoi'r gorau i breifateiddio traciau, signalau a gorsafoedd a'u rhoi i

gwmni nid er elw, sef Network Rail, ar ôl i Railtrack ddod i ben yn 2002.

**Y ddadl dros wladoli gan Ian Taylor.**

*Ian Taylor, cyd-sylfaenydd melin drafod Transport for Quality of Life.*

*Cyn hynny bu'n rheolwr ar wasanaethau ymgynghori amgylcheddol ar gyfer y Ganolfan Dechnoleg Amgen.*

Yn 1993, rhannwyd rheilffyrdd Prydain yn ddarnau a'u trosglwyddo, fel monopolïau lleol ar y cyfan, i gwmnïau nid er elw.

O ganlyniad, mae cost y rheilffordd i'r trethdalwr wedi mwy na dyblu mewn termau real, gan godi y tu hwnt i reswm o gymharu â'r cynnydd o 33% mewn gwasanaethau trenau yn ystod yr un cyfnod.

Mae'r cynnydd mewn costau yn deillio o wastraff fel taliadau difidend i gyfranddalwyr, cyllid sector preifat aneffeithlon arall ac aneffeithlonrwydd a grëwyd drwy rannu'r rheilffyrdd yn ddarnau.

Mae swm y gwastraff yn fwy nag £1bn y flwyddyn, digon i dorri cost tocynnau teithio 20% pe bai'r rheilffordd yn cael ei hailuno fel cwmni cyhoeddus.

Heb yn wybod i'r rhan fwyaf o deithwyr, mae un rhan o'n rheilffordd, sef prif reilffordd Arfordir Dwyrain Lloegr, yn dal i gael ei rhedeg gan gwmni preifat, Directly Operated Railways (DOR), a aeth ati ar ôl i'w dau ragflaenydd o'r sector preifat adael y gwaith.

Mae cyfrifiadau diweddar gan Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd wedi datgelu sut mae'r arian cyhoeddus sy'n helpu i gynnal y traciau ar y rheilffyrdd neu sy'n cefnogi gwasanaethau rheilffyrdd yn uniongyrchol yn cael ei rannu rhwng y cwmnïau trên a dangosodd fod DOR yn cael llai o gymhorthdal nag unrhyw weithredwr masnachfraint rheilffyrdd arall. Mae llwyddiant DOR yn embaras amlwg i'r Llywodraeth, sydd nawr yn bwriadu ei breifateiddio yn gyflym, er y bydd hynny yn golygu mwy o gost i'r trethdalwr.

**Y ddadl dros wladoli gan Ben Southwell.**

*Mae Ben Southwood yn ymchwilydd yn Sefydliad Adam Smith.*

*Cyn hynny ef oedd y gohebydd economaidd ar gyfer papur newydd City AM.*

Cafodd rhwydwaith y DU o reilffyrdd ei adeiladu'n breifat ac yn gystadleuol ac i raddau helaeth ei flynyddoedd mwyaf llwyddiannus oedd y rhai preifat

rhwng 1830 a 1922 a 1994 hyd heddiw.

Byddai ei newid i un o dan reolaeth wladwriaethol ganolog yn gam yn ôl ac yn gamgymeriad.

Yn lle hynny dylem ddod ag arfer masnachfreinio i ben, sy'n creu monopolïau preifat, a chaniatáu ar gyfer gwir gystadleuaeth ac amrywiaeth.

Dechreuodd ein system gyda'r trên stêm cyntaf yn 1825, ac er gwaethaf trwyddedau drud y llywodraeth, adeiladodd buddsoddwyr y rhan fwyaf o rwydwaith heddiw (tua 6,000 o tua 11,000 o filltiroedd) ymhen rhyw dair blynedd, rhwng 1844 a 1846.

Cynyddodd nifer y teithiau o tua 500 miliwn y flwyddyn yn y 1870au i 1.5 biliwn ychydig cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Ar ôl y rhyfel, barnodd David Lloyd George fod enillion cwmnïau rheilffyrdd yn rhy isel am fod gormod o gystadleuaeth, a phenderfynodd uno bron holl gwmnïau rheilffyrdd y DU yn ddim ond pedwar cwmni, sef monopolïau i bob diben.

Rhwng 1934 a 1947 rheolwyd y rheilffyrdd gan y pedwar cwmni mawr gyda chefnogaeth y llywodraeth - y Big Four fel y'u galwyd - a gostyngodd nifer y teithiau i tua 1.2 biliwn erbyn dechrau'r Ail Ryfel Byd.

Ar ôl y rhyfel, cafodd y rhain ac eraill eu cyfuno ymhellach yn British Rail. O dan British Rail, gwnaed llai a llai o deithiau'r flwyddyn - o tua 1 biliwn yn 1948 i ddim ond 750 miliwn erbyn 1995, ychydig cyn i'r system fasnachfreinio ddechrau.

Bellach mae diffygion mawr yn y system fasnachfreinio, ac yn ddiau mae wedi bod yn lwcus, gan gyd-daro â thagfeydd, prisiau tanwydd, a chynnydd o'r newydd yn Llundain fel canolfan economaidd y DU. Ond ni ellir gwadu'r newid mawr ers 1995.

Er hynny, mae nifer y teithiau wedi cynyddu'n ddramatig, gan godi bob blwyddyn yn agos i'r ffigur o 1.5 biliwn nas gwelwyd ers bron i ganrif.

Nid yr ateb i'n problemau ar hyn o bryd yw mwy o benderfyniadau di-glem gan y wladwriaeth; ond yn hytrach dychwelyd i amrywiaeth, cystadleuaeth a marchnadoedd agored.

[http://businesscasestudies.co.uk/first-group/managing-external-influences/political-and-economic-factors.html#ixzz3TDibE3HI]

## Gweithgaredd grŵp

Rhannwch yn ddau grŵp - 'O blaid' ac 'Yn erbyn' gwladoli cludiant. Ewch ati i gynhyrchu dogfennau a chynnal dadl er mwyn dadlau eich achos.

## Crynodeb

- Mae **trethiant** yn ffordd i lywodraethau ariannu eu gwariant drwy godi taliadau ar ddinasyddion ac endidau corfforaethol. Mae llywodraethau'n defnyddio trethiant i annog neu beidio ag annog rhai penderfyniadau economaidd. Er enghraifft, mae incwm personol (neu gartref) trethadwy llai'r swm a delir fel llog ar fenthyciadau morgeisi cartref yn arwain at fwy o weithgarwch adeiladu, ac yn creu mwy o swyddi. Gweler hefyd egwyddorion trethiant
- **Preifateiddio** yw gwerthu neu ddychwelyd mentrau cyhoeddus i berchenogaeth a rheolaeth breifat, sef y gwrthwyneb i wladoli.
    - Mae **gwladoli** yn cyfeirio at feddiannu corfforaethau preifat, diwydiannau ac adnoddau gan lywodraeth gydag iawndal neu hebddo.

Mae rhesymau cyffredin dros wladoli yn cynnwys (1) atal camfanteisio annheg ac achosion lle caiff nifer fawr o weithwyr eu hatal dros dro o'u gwaith, (2) dosbarthu incwm o adnoddau cenedlaethol yn deg, a (3) cadw'r modd o gynhyrchu cyfoeth o dan reolaeth y cyhoedd.

- Sefydliadau yw **undebau llafur** y mae eu haelodaeth yn cynnwys gweithwyr ac arweinwyr undebau, sy'n uno i ddiogelu a hyrwyddo eu buddiannau cyffredin. Prif ddibenion undeb llafur yw (1) negodi cyflogau ac amodau gwaith, (2) rheoleiddio cysylltiadau rhwng gweithwyr (ei aelodau) a'r cyflogwr, (3) cymryd camau cyfunol i orfodi telerau bargeinio ar y cyd, (4) codi galwadau newydd ar ran ei aelodau, a (5) helpu i setlo eu cwynion.

# UNED 14

## 14.1: Beth yw ffactorau Economaidd?

Mae **dylanwadau Economaidd** yn effeithio ar berfformiad economi sy'n cael effaith uniongyrchol ar sefydliadau ac unigolion. Gall y dylanwadau hyn gael effeithiau hirdymor hefyd.

Gall dylanwadau Economaidd gynnwys y canlynol:

- Cyfradd chwyddiant
- Cyfraddau llog
- Cyfraddau cyfnewid tramor
- Patrymau twf economaidd
- FDI (buddsoddiad tramor uniongyrchol)
- Cyfraddau diweithdra
- Incwm gwario
- Tariffau masnach
- Materion treth cyffredinol
- Newidiadau mewn treth sy'n benodol i'r cynnyrch/gwasanaethau
- Sefyllfa a thueddiadau economaidd lleol



Bydd rhai ffactorau yn esbonio yn eu tro sut y gall effeithio ar sefydliad neu unigolyn.

## 14.2: Beth yw cyfradd chwyddiant?

Diffinnir chwyddiant fel cynnydd cynaledig yn lefel gyffredinol prisiau nwyddau a gwasanaethau. Fe'i mesurir fel cynnydd canrannol blynyddol. Wrth i chwyddiant godi, mae pob punt rydych yn berchen arni yn prynu canran lai o nwydd neu wasanaeth. Mae hyn yn effeithio ar safon byw unigolyn oherwydd os bydd chwyddiant yn codi, cewch lai am eich arian.

Mewn termau syml:

- Cynnydd yw **chwyddiant** ym mhris y nwyddau a'r gwasanaethau a brynwn.
- Mae'r gyfradd chwyddiant flynyddol yn dangos faint yn uwch neu'n is y mae prisiau o'u cymharu â phrisiau yn yr un mis flwyddyn yn gynt. Mae'n dangos newidiadau i'n costau byw.
- Felly os yw'r gyfradd chwyddiant yn 3% ym mis Ionawr, er enghraifft, mae prisiau 3% yn uwch nag yr oeddent 12 mis yn gynt. Neu, o'i roi mewn ffordd arall, mae

angen i ni wario 3% yn fwy i brynu'r un pethau.

- Rydym yn cymharu hyn â'r newid blynyddol a gofnodwyd yn ystod y mis blaenorol er mwyn cael syniad a yw codiadau mewn prisiau yn mynd yn fwy neu'n llai.
- Os yw'r gyfradd flynyddol wedi codi o 3% i 4% o un mis i'r nesaf, mae prisiau yn codi ar gyfradd gyflymach.
- Os yw'r gyfradd wedi gostwng - dyweder o 3% i 2% - mae prisiau'r pethau a brynwn yn dal i fod yn uwch, ond nid ydynt wedi cynyddu gymaint.
- Os yw'r gyfradd ganrannol yn negyddol - er enghraifft, -1% - yna bydd prisiau 1% yn rhatach nag yr oeddent flwyddyn yn ôl.
- Cesglir y ffigurau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cyfrifir y gyfradd chwyddiant bob mis drwy edrych ar y newidiadau ym mhrisiau 700 o nwyddau a gwasanaethau mewn 150 o ardaloedd gwahanol ledled y DU.
- Gelwir hyn yn fasged o nwyddau a chaiff ei diweddaru'n gyson i adlewyrchu newidiadau yn y pethau a brynwn. Dyna pam y cafodd cyfrifiaduron llechi a llyfrau Twilight eu cynnwys yn ddiweddar a pham y cafodd dysglau caserol a gwasanaethau argraffu ffotograffau eu heithrio.
- Mae dau brif fesur: y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) a'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI). Mewn gwirionedd, dwy fasged yw'r rhain sy'n cynnwys nwyddau a gwasanaethau gwahanol, a defnyddir dulliau gwahanol i'w cyfrifo. Mae llawer o wahaniaethau, ond yr un mwyaf yw bod RPI yn cynnwys costau tai fel taliadau llog morgais a'r dreth gyngor, ond nid yw CPI yn eu cynnwys.

**Gweithgaredd unigol 1**

Beth yw'r gyfradd chwyddiant ar hyn o bryd yng Nghymru?

Ydy hyn wedi cynyddu neu wedi lleihau o'i chymharu â'r llynedd?

Ydy dinasyddion Cymru felly yn well neu'n waeth eu byd?

## 14.3: Beth yw cyfradd llog?

Mae cyfraddau llog yn nodi am ba bris y gallwch fenthyca arian neu'r elw ar faint o arian y byddwch yn ei arbed.

Os byddwch yn benthyca arian a'r gyfradd llog yw 5% y flwyddyn,

bydd yn costio 5% o'r swm a fenthycwyd i wneud hynny. Bydd angen ad-dalu hyn ynghyd â'r arian gwreiddiol a gafodd ei fenthyca. Fel arfer caiff cyfraddau llog eu datgan bob blwyddyn ac fe'u cyfrifir fel cyfradd adlog.

Yn gyffredinol, mae llywodraethau'n gosod cyfraddau llog uchel er mwyn annog pobl i gynilo a chyfraddau is er mwyn annog pobl i roi'r gorau i gynilo a gwario yn lle hynny.

### Astudiaeth achos 1

Mae pobl yn benthyca arian ar ffurf morgais i brynu eiddo. Fel arfer, hon fydd y ddyled fwyaf a fydd gan rywun ac mae'n para rhwng 15 a 30 o flynyddoedd fel arfer.

Mae banciau mawr ar y stryd fawr yn cynnig cyfraddau  o tua 3% ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, cost gyfartalog eiddo yng Nghymru yw £171,000. Pe baech yn trefnu morgais am 3% dros 25 o flynyddoedd i dalu'r swm hwn, byddech yn talu'n ôl tua £362,000!


### Astudiaeth achos 2

Mae cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog yn tyfu'n gyflym yn y DU.

Blaenswm byrdymor yw benthyciad diwrnod cyflog a bwriedir iddo eich cynnal dros dro yn ariannol nes i chi gael eich cyflog. Telir y benthyciad diwrnod cyflog fel arfer yn syth i mewn i'ch cyfrif banc, yn aml o fewn 24 awr i gymeradwyo eich cais. Yna caiff ad-daliad y benthyciad diwrnod cyflog, ynghyd â llog, ei gymryd yn uniongyrchol o'ch cyfrif banc ar y dyddiad dyledus.

Fodd bynnag, lle mae banc ar y stryd fawr yn codi cyfradd llog o tua 5% fel arfer ar gyfer benthyciad personol, mae cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog yn tueddu i fenthyg arian i bobl sydd â statws credyd gwael. Fel y cyfryw, maent yn credu bod y risg dan sylw yn uwch o lawer ac felly, mae'r gyfradd llog a godir yn uwch o lawer. Edrychwch ar yr hysbysebion canlynol i ddod o hyd i'r cyfraddau llog:






### Pwynt Myfyrio 1

A ddylai cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog fod yn gyfreithlon? Dylech gyfiawnhau eich ateb?

## 14.4 Beth yw trethiant?

**Trethiant** yw'r ffordd y mae llywodraethau'n ariannu eu gwariant drwy osod taliadau ar ddinasyddion ac endidau corfforaethol (e.e. busnesau).

Mae llywodraethau hefyd yn defnyddio trethiant i annog neu beidio ag annog rhai penderfyniadau economaidd. Er enghraifft, cynyddu trethi ar alcohol a thybaco er mwyn gwneud yr eitemau yn ddrutach er mwyn lleihau'r nifer a werthir, a diogelu iechyd yr unigolyn yn y pen draw.

Ar ôl i chi ddechrau gweithio, bydd eich incwm yn lleihau oherwydd y dreth y bydd yn rhaid i chi ei thalu. Mae'r cyfraddau ar hyn o bryd fel a ganlyn:

- **Treth cyfradd sylfaenol**

  Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n talu'r gyfradd dreth sylfaenol (yn fras y rhai sy'n ennill rhwng £10,600 a £41,785 yn 2015/16) yn talu 20% o'u hincwm cynilion mewn treth, yr un lefel ag incwm cyflogaeth.

- **Treth cyfradd uwch**

  Mae'r rhai sy'n talu'r gyfradd dreth uwch (yn fras y rhai sy'n ennill rhwng £41,785 a £150,000 yn 2015/16) yn talu 40% ar y ddwy.

- **Treth cyfradd 'ychwanegol'**

  Yn ystod y flwyddyn dreth 2015/16 bydd unrhyw un y mae ei gyflog yn fwy na £150,000 yn talu treth ychwanegol ar gyfradd o 45%.

- **Y rhai nad ydynt yn drethdalwyr**

  Nid yw'r rhai nad ydynt yn talu unrhyw dreth incwm (yn fras y rhai y mae eu hincwm o dan £10,600 yn 2015/16) yn talu unrhyw dreth ar gynilion. Fel arfer mae hyn yn cynnwys myfyrwyr a phlant, a drethir fel pawb arall, ond nad ydynt yn aml yn ennill mwy na'r trothwy.

### Pwynt Myfyrio 2

**Ydy egwyddor treth yn deg?**

Ydy'r banciau treth hyn yn deg? Eglurwch eich ateb

### Gweithgaredd unigol 1

Ymchwiliwch i systemau treth gwledydd eraill gan gynnwys Monaco. Sut mae'r ddwy yn wahanol?

Pa un sy'n fwy dymunol?

## 14.5 Beth yw incwm gwario?

Mae dylanwadau economaidd yn **effeithio** ar swm yr incwm gwario sydd gan gartrefi.


**Incwm gwario** yw'r swm o arian sydd gan gartrefi i'w wario a'i gynilo ar ôl talu trethi incwm. Mae hwn yn fesur pwysig iawn nid yn unig i benderfynu ar iechyd economaidd cyffredinol unigolyn ond iechyd cymdeithas yn gyffredinol. **Mae'n un o brif fesurau cyfoeth personol ond nid hwn yw'r unig fesur y gellir ei ddefnyddio.**

### Crynodeb

- Diffinnir chwyddiant fel cynnydd cynaledig yn lefel gyffredinol prisiau nwyddau a gwasanaethau.
- Mae cyfraddau llog yn nodi am ba bris y gallwch fenthyca arian neu'r elw ar faint o arian y byddwch yn ei arbed.
- Mae trethiant yn ffordd i lywodraethau ariannu eu gwariant drwy godi taliadau ar ddinasyddion ac endidau corfforaethol.
- Mae dylanwadau Economaidd yn effeithio ar berfformiad economi sy'n cael effaith uniongyrchol ar sefydliadau ac unigolion.

# UNED 15

## 15.1: Beth yw Dylanwadau Cymdeithasol?




Mae'r term **amgylchedd cymdeithasol** yn disgrifio nodweddion cymdeithas, y bobl sy'n byw yn y gymdeithas honno a'u gwerthoedd a'u credoau. Mae ffactorau cymdeithasol yn cyfeirio at yr agweddau diwylliannol a demograffig ar yr amgylchedd.

## 15.2 Beth yw demograffeg?

Mae demograffeg cymdeithas yn darparu gwybodaeth am faint, rhyw, grwpiau ethnig, lefelau incwm, cyrhaeddiad addysgol, galwedigaethau a strwythur teuluol.

Mae demograffeg yn bwysig oherwydd mae'n rhoi gwybodaeth gyffredinol am boblogaeth ar adeg benodol sy'n effeithio ar y gymdeithas benodol honno.

15.3 Beth yw demograffeg Cymru ar hyn o bryd?

- 3.1 miliwn o bobl (canol 2011).
- Y prif ardaloedd trefol yw Caerdydd (346,100), Abertawe (239,000) a Chasnewydd (145,700).
- Mae tua 1 o bob 20 o boblogaeth y DU yn byw yng Nghymru.
- 1.3 miliwn o gartrefi (2011).
- Mae cyfanswm arwynebedd tir Cymru yn cynnwys bron 2.1 miliwn o hectarau, y mae tua 80 y cant o'r tir hwnnw wedi'i neilltuo ar gyfer amaethyddiaeth.
- Disgwyliad oes o adeg geni yng Nghymru yw 78.2 o flynyddoedd i ddynion ac 82.2 o flynyddoedd i fenywod (2010-12).
- Mae Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) yn amcangyfrif y gweithgarwch economaidd mewn ardal. Roedd GYG y gweithle yng Nghymru yn £47.3 biliwn yn 2012. Fesul

pen o'r boblogaeth mae hyn ychydig o dan dri chwarter o gyfartaledd y DU (llai rhanbarth ychwanegol) (72.3 y cant).

- Roedd 1.76 miliwn o gerbydau ffordd trwyddedig yng Nghymru yn 2012.
- Paratowyd ychydig dros 52 y cant o wastraff trefol awdurdodau lleol ar gyfer ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio yn 2012-13.
- Ym mis Ionawr 2013 roedd 1,656 o ysgolion a gynhelir, a tua 465,000 o ddisgyblion. Mae mwy na 500 o ysgolion yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gwnaeth bron 129,000 o fyfyrwyr gofrestru mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn 2012/13.
- Yn 2013 roedd 9.5 miliwn o ddefaid ac ŵyn - tua chwarter o gyfanswm y DU.
- Cafodd tua 32,500 o fabanod eu geni yn 2012.
- Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr cyffredinol wedi gostwng 21 y cant rhwng blwyddyn sylfaenol 1990 a 2011.
- Mae tua un rhan o bump o boblogaeth Cymru yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg.
- Gwnaed 9.6 miliwn o deithiau twristiaid domestig y DU i Gymru yn 2012.

**Gweithgaredd Unigol 1**


Dewiswch 10 o blith y demograffeg uchod. Ar gyfer pob un, rhagfynegwch a yw'r ystadegau yn dangos cynnydd neu ostyngiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Hefyd meddyliwch am resymau posibl ar gyfer pob newid.

## 15.4 Beth yw demograffeg allweddol y Byd?

Yn ôl The State of the World's Children 1998, UNICEF.

### 15.4.1 Poblogaeth

Bydd gan y byd bron bedair gwaith cymaint o drigolion ar ddiwedd y ganrif ag yr oedd ganddo ar y dechrau. Asia sydd wedi cyfrannu'r rhan fwyaf o'r boblogaeth ddynol drwy gydol y ganrif; mae cyfran Ewrop wedi lleihau'n raddol.




Poblogaeth y byd fesul rhanbarth, 1900 a 2000


## 15.4.2 Yr amgylchedd


Cafodd pobl effaith fwy dinistriol o lawer ar yr amgylchedd byd-eang yn yr ugeinfed ganrif nag ym mhob milflwydd a'i rhagflaenodd.

- Dinistriwyd tua hanner fforestydd trofannol y byd ar ôl 1950. Cliriwyd tua 75 y cant ohonynt er mwyn darparu tir ar gyfer amaethyddiaeth. Yng Ngorllewin Affrica roedd tri chwarter o'r holl fforestydd wedi cael eu dinistrio erbyn diwedd y ganrif.
- Oherwydd y clorofflworocarbonau (CFCs) a gafodd eu rhyddhau i'r atmosffer o'r 1930au ymlaen crëwyd tyllau yn yr haen osôn sy'n diogelu'r ddaear rhag ymbelydredd uwchfioled yr haul. Cynyddodd y defnydd o CFCs o 100 o dunelli yn 1931 i 650,000 o dunelli erbyn canol y 1980au. Mae CFCs wedi cael eu dileu yn raddol ond ni fydd yr haen osôn yn dychwelyd i'w chyflwr blaenorol tan ganol yr unfed ganrif ar hugain.
- Daw tua dwy ran o dair o effaith cynhesu byd-eang o'r allyriadau o garbon deuocsid sy'n deillio o losgi tanwyddau ffosil. Digwyddodd dros hanner cyfanswm y cynnydd mewn lefelau carbon deuocsid rhwng 1750 a 1990 ar ôl 1950. Mae'r lefelau hyn yn dal i godi, gan ddyblu bob 16 o flynyddoedd, ac eto nid oes dim byd difrifol wedi cael ei wneud i ddelio â'r broblem.

## 15.4.3 Gwladychiaeth

Yn 1900 roedd Ewrop a Gogledd America yn rheoli 84 y cant o'r arwynebedd tir[4]. Roedd y system drefedigol yn golygu mai dim ond tua 35 o wledydd annibynnol sydd, ac roedd bron hanner ohonynt yn America. Ar ddiwedd y ganrif roedd 193 o wladwriaethau annibynnol.




## 15.4.4 Iechyd

Ar gyfer pawb heblaw trigolion cyfoethocach y gwledydd diwydiannol yn 1900 roedd disgwyliad oes yn ofnadwy o isel. Mae'r gwelliannau mewn disgwyliad oes yn rhanbarthau'r byd wedi bod yn ddramatig, yn bennaf oherwydd i rai clefydau allweddol gael eu trechu a lleihad mewn cyfraddau marwolaethau babanod. Ond mae'r bwlch rhwng y gwledydd diwydiannol a'r gwledydd datblygol ar ddiwedd y ganrif yn parhau i fod yn anghysurus o lydan.


Yn y byd cyfoethog mae gorddefnydd wedi creu ei broblemau iechyd ei hun yng nghlefydau digonedd, sef canser a chlefyd y galon:

- Roedd clefyd y galon bron yn anhysbys yn 1900 y tu hwnt i'r elît cysurus eu byd ond bellach mae'n lladd 40 y cant o ddynion ac 20 y cant o fenywod mewn gwledydd diwydiannol.
- Mae tua 1 o bob 3 o Americaniaid yn cael canser ar hyn o bryd o gymharu ag 1 o bob 27 yn 1900.
- Cododd cyfraddau canser yr ysgyfaint yn y byd diwydiannol 80 y cant yn yr 20 mlynedd ar ôl 1960, yn bennaf o ganlyniad i smygu; mae cyfraddau bellach yn codi yn y gwledydd datblygol (Byd y Mwyafrif) wrth i'r arfer o smygu tybaco gael ei allforio yno gan bobl ryngwladol o'r Gorllewin.

## 15.4.5 Newyn

Mae cyfran y bobl sy'n dioddef o ddiffyg maethiad cronig wedi lleihau yn ystod y ganrif wrth i boblogaeth y byd gynyddu. Ond mae'r niferoedd llwyr sy'n dioddef o ddiffyg maethiad cronig yn

parhau i fod yn un biliwn neu ychydig yn fwy na hynny o'r adeg y dechreuwyd cadw cofnodion yn y 1930au hyd heddiw. Ac yn Affrica, mae cyfran y bobl sy'n dioddef o ddiffyg maethiad cronig unwaith eto yn cynyddu.







*Cynnyrch gwladol gros y pen o wledydd incwm isel fel canran o'r hyn ydyw mewn gwledydd incwm uchel, 1950, 1976 a 1997*

## 15.4.6 Cyfoeth

Cododd defnydd y byd o $1.5 triliwn yn 1900 i $4 triliwn yn 1950, ac yna cynyddodd yn sydyn i $12 triliwn yn 1975 a $24 triliwn yn 1998. Ond nid yw'r buddiannau wedi cael eu dosbarthu'n deg: mae gan wledydd tlawd gyfran lai o lawer o'r gacen fyd-eang nag yr oedd ganddynt yn 1950.

### Gwaith Grŵp 1

Mewn timau, dewiswch un o'r pynciau uchod a chrëwch ymgyrch codi ymwybyddiaeth i dynnu sylw at y trafferthion sydd ar hyn o bryd a beth y gellir ei wneud i leddfu'r problemau sy'n wynebu gwledydd.

## 15.5 Beth yw ffactorau cymdeithasol eraill?

Mae'r term **amgylchedd cymdeithasol** yn disgrifio nodweddion cymdeithas, y bobl sy'n byw yn y gymdeithas honno a'u gwerthoedd a'u credoau. Mae ffactorau cymdeithasol yn cyfeirio at yr agweddau diwylliannol a demograffig ar yr amgylchedd.

Mae ffactorau cymdeithasol eraill yn cynnwys:

- Addysg
- Crefydd
- Teulu
- Trafnidiaeth
- Bwyd
- Ynni
- TG
- Ynni

### Gweithgaredd Unigol 1

Dewiswch un o'r ffactorau uchod ac ystyriwch yn fras sut mae'n effeithio ar ein dewisiadau o ran ffordd o fyw. Tynnwch lun o ddiagram corryn er mwyn cyfleu hyn.

### Crynodeb

Mae demograffeg cymdeithas yn darparu gwybodaeth am faint, rhyw, grwpiau ethnig, lefelau incwm, cyrhaeddiad addysgol, galwedigaethau a strwythur teuluol.

## UNIT 16

### 16.1: Beth yw Dylanwadau Technolegol?

Mae **dylanwadau technolegol** yn disgrifio arloesedd mewn technoleg a all effeithio ar weithredoedd unigolion, y diwydiant a'r farchnad mewn modd cadarnhaol neu negyddol. Gall dylanwadau o'r fath gynnwys awtomeiddio, ymchwil a datblygu a faint o ymwybyddiaeth dechnolegol sydd gan gymdeithas.

### 16.2 Effaith technoleg - Meddyginiaeth

Er bod Rhufeinwyr, Groegwyr ac Eifftiaid yr Henfyd wedi datblygu gwybodaeth feddygol; ar ôl i'r gwareiddiadau hyn ddarfod, arafodd y momentwm a ddechreuwyd gan y bobl hyn.

Erbyn y 14eg Ganrif, roedd prifysgolion wedi datblygu yng ngorllewin Ewrop y gellid eu dosbarthu fel ysgolion meddygol lle gallai myfyrwyr astudio dan arweiniad ffisigwr meistr. Roedd Prifysgol Montpelier yn un o'r rhain. Byddai cyrff yn cael eu dyrannu yn y prifysgolion hyn felly nid oedd unrhyw un oedd am astudio meddygaeth yn yr Oesoedd Canol yn gwbl anwybodus ynghylch ffeithiau am y corff dynol.

Fodd bynnag, roedd ffisigwyr yn credu o hyd bod anghydbwysedd o ran anian yn elfen bwysig mewn perthynas ag anhwylderau.

"Several kinds of medicine may be good such as diet, drink, hot bath (whence sweat is growing), with purging, vomiting and letting blood".

### 16.3 Rhyddhau gwaed yn yr Oesoedd Canol

Yn wir, roedd rhyddhau gwaed yn driniaeth boblogaidd ar gyfer llawer o glefydau. Credwyd bod llawer o glefydau yn cael eu hachosi gan ormod o waed yn y corff ac ystyriwyd mai rhyddhau gwaed oedd y gwellhad amlwg. Pan oedd angen llawer o waed, byddai'r wythïen briodol yn cael ei thorri. Os mai dim ond swm bach oedd ei angen, byddai gelen yn cael ei defnyddio.



Byddai seryddiaeth hefyd yn dylanwadu ar ddiagnosis. Roedd siartiau meddygol yn hysbysu ffisigwyr beth i **beidio â'i wneud** i bobl a aned o dan arwydd seryddol penodol.

- **Yr Hwrdd**
  Osgoi toriadau yn y pen a'r wyneb ac osgoi torri unrhyw wythïen yn y pen.
- **Y Tarw**
  Osgoi toriadau yn y gwddf ac osgoi torri unrhyw wythïen yn y fan hon.
- **Yr Efeilliaid**
  Osgoi toriadau yn yr ysgwyddau, y breichiau neu'r dwylo ac osgoi torri unrhyw wythïen.
- **Y Cranc**
  Osgoi toriadau yn y bronnau, ochrau, stumog ac ysgyfaint ac osgoi torri unrhyw wythïen sy'n mynd i mewn i'r ddueg.
- **Y Llew**
  Osgoi toriadau yn y nerfau, anafiadau i'r ochrau a'r esgyrn, ac osgoi torri'r cefn drwy agor na gwaedu.
- **Y Forwyn**
  Osgoi agor clwyf yn y bol a'r rhannau mewnol.
- **Y Fantol**
  Osgoi agor clwyfau yn y bogail a rhannau o'r bol ac osgoi agor gwythïen yn y cefn na chwpanu.
- **Y Sgorpion**
  Osgoi torri'r ceilliau a'r anws.
- **Y Saethydd**

  Osgoi toriadau yn y cluniau a'r bysedd ac osgoi torri namau a thyfiannau.

- **Yr Afr**
  Osgoi torri'r pengliniau neu'r gwythiennau a gewynnau yn y mannau hyn.
- **Y Dyfrwr**
  Osgoi torri'r pengliniau neu'r gwythiennau a genynnau yn y mannau hyn.
- **Y Pysgod**
  Osgoi torri'r traed.




### Gweithgaredd Unigol 1

1. Edrychwch ar eich arwydd seryddol uchod. Ydych chi wedi cael unrhyw driniaethau neu anafiadau sydd wedi targedu'r ardaloedd yr oeddech i fod i'w hosgoi?

### Pwynt Myfyrio 1

Pam roedd ffisigwyr yn yr Oesoedd Canol yn defnyddio seryddiaeth er mwyn helpu i drin pobl yn eich barn chi?

## 16.4 Datblygiadau technolegol mewn meddyginiaeth

Datblygodd triniaethau ac yn y 1900au, defnyddiwyd cyfarpar mwy technolegol.

### 1. Dŵr Radiwm

Cyn deall ymbelydredd yn llawn, canmolwyd radiwm a oedd yn bodoli'n naturiol am ei fuddiannau arallfydol bron. Cadwyd dŵr mewn bwcedi gyda rhywfaint o radiwm ynddynt, a byddai pobl yn yfed yr hylif llygredig i gael gwellhad o bopeth o lid y cymalau i anallu rhywiol. Wrth gwrs, roedd hwn yn syniad ofnadwy, a phan ddechreuodd pobl ddisgyn yn farw ar ôl yfed y dŵr gwyrthiol hwn, gwnaed y cysylltiad. Bellach, defnyddir cyffuriau presgripsiwn nad ydynt yn cynnwys ymbelydredd i frwydro llid y cymalau ac anallu rhywiol.

### 2. Ecraseur

Roedd gan y cyfarpar hwn, sydd bellach wedi diflannu, ddolen gadwyn y byddai'r meddyg yn ei dynhau o amgylch syst neu hemoroid. Byddai'r cywasgiad hwn yn atal llif y gwaed i'r man dan sylw, a fyddai'n achosi i'r lwmp ddisgyn i ffwrdd. Mewn swyddfeydd meddygol modern, defnyddir hufen i leddfu hemoroidiau, ac yn amlach na pheidio, defnyddir llawdriniaeth fanwl i dynnu systiau.

### 3. Coesau Pren

Cyn i goesau prosthetig datblygedig gael eu cyflwyno, byddai pegiau pren yn cael eu gwthio i dyllau a gafnwyd yng

nghoes claf neu a strapiwyd am ganol y claf. Byddai'r ddyfais yn cael ei siapio a'i cherfio i'r uchder cywir, ac yn achlysurol byddai'n ffitio'n berffaith. Gallai rhai a oedd wedi cael y driniaeth gerdded am filltiroedd heb deimlo'n anghyfforddus. Er hyn, ni ellir eu cymharu â choesau prosthetig heddiw.

**4. Gasolîn i Gael Gwared ar Lau**

Ar ddechrau'r 20fed ganrif, byddai claf gydag achos drwg o lau pen yn trochi ei gorun â gasolîn neu gerosîn mewn ymgais i gael gwared ar yr ymwelwyr annymunol o'u pen. Er y gallai'r driniaeth hon fod wedi bod yn effeithiol i raddau, roedd hefyd yn beryglus iawn i unrhyw un a gerddai ger fflam agored. Gall meddyginiaeth fodern ddatrys y pla yn llawer mwy diogel gyda siampŵ meddyginiaethol.

## 16.5 Datblygiadau technolegol mewn meddyginiaeth heddiw

Yn amlwg, mae'r datblygiadau mewn triniaethau meddygol wedi bod yn syfrdanol. Hyd oes gyfartalog rhywun yn yr Oesoedd Canol (heb gynnwys pobl a fu farw cyn troi'n oedolion), oedd 43.6 o flynyddoedd, gyda chanolrif o 42/43; i ddynion, roedd yn oedran cymedrig o 48.7 a chanolrif o 48/49. Y gyfradd ddisgwyliedig heddiw yw 79 i ddynion ac 83 i fenywod.

16.6 Enghreifftiau penodol o ddatblygiadau technolegol mewn meddyginiaeth

[http://www.sherweb.com/blog/7-really-cool-medical-tech-advancements-underway/]

### 16.6.1 Uwchsain Ffôn Deallus



Cafodd peirianwyr cyfrifiadurol ym Mhrifysgol Washington yn St. Louis grant o $100,000 gan Microsoft a ddefnyddiwyd i uno chwiliedydd uwchsain yn seiliedig ar USB â thechnoleg Ffôn Deallus newydd. Y canlyniad yw peiriant uwchsain maint llaw sy'n galluogi meddygon mewn lleoliadau anghysbell i dynnu lluniau o arenau, iau/afu, pledren, llygaid, gwythiennau a rhydwelïau unigolyn er mwyn canfod unrhyw broblemau. Gallai hyn fod yn

ddatblygiad pwysig ar gyfer gwledydd datblygol, lle nad oes gan dros 70 y cant o bobl fynediad at gyfarpar meddygol sydd ei angen arnynt fel sganiau MRI neu gyfarpar sganio CT.

### 16.6.2 Lensys Cyffwrdd Nanogyfansawdd ar gyfer trin diabetes



Gan ddisodli'r angen i bobl â diabetes dynnu gwaed er mwyn profi eu gwaed/lefel siwgr, mae'r dechnoleg hon a ddatblygwyd gan yr athro Peirianneg Cemegol a Biogemegol ym Mhrifysgol Western Ontario, Jin Zhang, yn gosod nanoronynnau mewn lensys hydrogel, sy'n adweithio â molecylau glwcos a geir mewn dagrau ac yn achosi adweithiad cemegol sy'n newid lliw y llygad. Byddai'r lensys cyffwrdd hyn a wnaed yn arbennig ar gyfer pobl â diabetes yn eu rhybuddio'n barhaus am amrywiadau yn eu lefelau glwcos drwy edrych yn y drych.


### 16.6.3 Llawfeddygon Robotig



Er eu bod yn bodoli ers diwedd yr wythdegau, mae robotiaid meddygol yn cael eu defnyddio fwyfwy i gynorthwyo mewn llawdriniaethau, gan leihau'r perygl o gamgymeriadau dynol a sicrhau prosesau mwy cywir ar gyfer cyflawni tasgau astrus. Mae'r model robotig yn ymddwyn yn debyg i fraich person, gan alluogi gweithredoedd ailadroddus a reolir, dan arweiniad y llawfeddyg drwy gyfrifiadur. Mae robotiaid meddygol wedi cael eu defnyddio mewn llawfeddygaeth cardiothorasig, cardioleg ac electroffysioleg, llawfeddygaeth gastroberfeddol, gynaecoleg, niwrofeddygaeth, orthopedeg, pediatreg, radiolawfeddygaeth i drin tiwmorau, ac wroleg i dynnu chwarennau prostad canseraidd, atgyweirio arenau sydd wedi'u


rhwystro, atgyweirio annormaleddau yn y bledren a thynnu arenau afiach.

### 16.6.4 Sglodion Niwroprostheteg er mwyn atal trawiadau a rheoli coesau a breichiau artiffisial gyda'r meddwl



Mae ymchwilwyr ym Mhrifysgol Florida yn datblygu dyfeisiau a all ddehongli signalau yn yr ymennydd ac ysgogi niwronau i berfformio'n gywir. Nod gychwynnol y dechnoleg hon oedd cywiro cyflyrau fel parlys ac epilepsi. Byddai'r sglodyn yn cael ei fewnblannu'n uniongyrchol i feinwe'r ymennydd, lle y gallai gasglu data o signalau, eu dadgodio, ac ysgogi'r ymennydd i weithredu'n gywir. Un o nodau'r datblygiadau hyn yn y pen draw fydd sicrhau ei bod yn bosibl i unigolyn â'r parlys reoli coes neu fraich brosthetig dim ond drwy feddwl amdano.

### 16.6.5 Technoleg Delweddu Hybrid Amlfoddolrwydd er mwyn canfod canser y prostad



Datblygwyd technoleg delweddu hybrid newydd yn Sefydliad Ymchwil Iechyd Lawson a allai ganfod canser y brostad yn y ffordd fwyaf effeithiol eto. Gallu cyfyngol oedd gan dechnolegau blaenorol ar gyfer mesur antigen-prostad-benodol (PSA), ond gallai'r dechnoleg delweddu hybrid newydd fesur union faint o PSA a geir yn y llif gwaed. Mae ymchwilwyr yn gobeithio defnyddio delweddu datblygedig i lunio system debyg i GPS o'r

brostad a fydd yn galluogi meddygon i dargedu'r canser yn well cyn ei drin.

## 16.6.6 Crothau Artiffisial



Mae'r wterws (neu groth) artiffisial, yn ddull a ddefnyddir i dyfu embryo y tu allan i gorff organeb fenywaidd. Caiff tanciau amniotig eu llenwi â hylif amniotig a gaiff ei gynnal ar dymheredd y corff. Caiff llinynnau bogeiliau embryonig eu hatodi i bympiau allanol sy'n rheoli'r maethynnau a amsugnir a'r all-lif o wastraff.

## 16.6.7 Archwiliadau meddygol yn y cartref



Mae'r broses o fonitro ac arolygu cyflwr iechyd pobl, yn enwedig ar gyfer pobl oedrannus neu anabl, yn dod yn gynyddol angenrheidiol. O ganlyniad, mae Grŵp Offeryniaeth, Synwyryddion a Rhyngwyneb Adran Peirianneg Electronig yr UPC yn Castelldefels, Barcelona, yn gweithio ar system a fydd yn sicrhau y gellir monitro arwyddion bywyd cleifion mewn amgylcheddau domestig. Mae'r Grŵp wedi cynllunio system sy'n canfod cyfraddau curiad calon ac anadlu cleifion ar yr un pryd sy'n gweithredu gan ddefnyddio synwyryddion grym, sy'n cyfateb i'r rhai a ddefnyddir i fesur pwysau mewn cloriannau pwysau electronig confensiynol. Yn y pen draw, eu nod yw datblygu synwyryddion na fydd angen cyswllt gyda'r unigolyn sy'n cael ei arolygu er mwyn sicrhau'r effaith

leiaf posibl ar ei fywyd a'i weithgareddau bob dydd. Mae datblygiadau eisoes ar waith i roi system archwiliadau meddygol yn y cartref ar waith drwy eitemau cartref fel cadeiriau. Dim ond pan fyddai gwir angen y byddai'r system archwiliadau yn cael ei gweithredu.

### Trafodaeth 1

A yw datblygiadau technolegol bob amser yn fuddiol?

# UNED 17


## 17.1: Beth yw Dylanwadau Cyfreithiol?

Mae'r **gyfraith** yn disgrifio rheolau a orfodir drwy sefydliadau cymdeithasol i reoli ymddygiad. Y materion **cyfreithiol** yw'r rhai sy'n ymwneud â'r gyfraith.

## 17.2 Natur newidiol yr amgylchedd cyfreithiol

Mae'r amgylchedd cyfreithiol yn newid yn gyson wrth i'r llywodraeth gyflwyno cyfreithiau newydd drwy'r Senedd.

## 17.3 Sut mae cyfreithiau yn cael eu pasio?




Gall y broses o basio Bil Cyhoeddus ddechrau yn Nhŷ'r Cyffredin neu yn Nhŷ'r Arglwyddi. Fodd bynnag, mae'n rhaid i Filiau sy'n cynnwys cyflwyno trethiant newydd gael eu cyflwyno gan weinidog llywodraeth i Dŷ'r Cyffredin. Caiff biliau o natur wleidyddol ddadleuol hefyd eu cyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin.

### Darlleniad cyntaf

Mae'r broses ddeddfwriaethol yn dechrau gyda'r *darlleniad cyntaf* sy'n ddim mwy na ffurfioldeb yn y ddau Dŷ.

### Ail ddarlleniad

Yna, mae'n rhaid i'r Bil gael i *ail ddarlleniad* (yn achos Biliau'r llywodraeth, o fewn pythefnos). Yn Nhŷ'r Cyffredin, caiff y Bil ei gyflwyno gan un o weinidogion y llywodraeth. Yna, caiff safbwyntiau'r Wrthblaid a phleidiau eraill eu clywed. Er bod yr Wrthblaid fel arfer yn pleidleisio yn ei erbyn yn Nhŷ'r Cyffredin, bydd Bil bron bob amser yn cyrraedd y cam Pwyllgor. Mae'n gonfensiwn na chaiff Biliau'r Llywodraeth eu gwrthwynebu gan Dŷ'r Arglwyddi ar yr ail ddarlleniad. Fodd bynnag, gellir pleidleisio ar ddiwygiadau.

### Y cam Pwyllgor

Pan fydd Biliau wedi pasio'r ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin, cânt eu cyfeirio at *bwyllgor sefydlog* i'w harchwilio. Mae pwyllgor sefydlog yn cynnwys rhwng 16 ac 20 o ASau. Caiff pwyllgorau sefydlog eu cadeirio gan aelod o Banel y Cadeiryddion. Dim ond os bydd pleidlais gyfartal y bydd y Cadeirydd yn pleidleisio ac yn ôl blaenoriaeth. Caiff aelodau newydd o'r pwyllgor sefydlog eu hethol ar gyfer pob bil newydd.

Fodd bynnag, gellir cyfeirio rhai Biliau at Bwyllgor y Tŷ cyfan, os byddant yn rhan o un o'r categorïau canlynol:

- Biliau o bwysigrwydd cyfansoddiadol mawr, fel y rhai sy'n cadarnhau Cytuniad yr Undeb Ewropeaidd
- Biliau y mae'n rhaid eu pasio'n gyflym
- Biliau nad ydynt yn ddadleuol ac y disgwylir i'r cam pwyllgor ar eu cyfer fod yn fyr iawn.
- Biliau Aelodau Preifat na ddisgwylir iddynt gael eu gwrthwynebu ar unrhyw gam.

### Y cam adrodd

Ar ôl y cam pwyllgor, mae'n rhaid i'r pwyllgor sydd wedi archwilio'r Bil gyflwyno adroddiad o'i benderfyniad i Dŷ'r Cyffredin cyfan o fewn pythefnos, fel bod pob aelod yn cael cyfle i gynnig diwygiadau neu i ychwanegu cymalau. Gall y cam adrodd fod yn eithaf hir. Fel arfer, ni chaiff biliau a archwiliwyd gan y Pwyllgor o'r Tŷ cyfan eu trafod yn y cam adrodd.

Hefyd, yn Nhŷ'r Arglwyddi, mae'r cam adrodd yn dilyn bythefnos ar ôl y cam pwyllgor.

### Trydydd darlleniad

Ar y cam hwn, caiff drafft terfynol y Bil ei adolygu. Yn Nhŷ'r Cyffredin, ni ellir diwygio'r Bil yn sylweddol yn y trydydd darlleniad. Fodd bynnag, gellir diwygio Biliau y mae eu trydydd darlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi o hyd ar y cam hwn.

Ar ôl pasio drwy'r camau blaenorol, mae'n rhaid anfon y Bil i'r Tŷ arall lle caiff yr holl broses ei hailadrodd. Gellir diwygio Biliau ar y cam hwn o hyd, ac mae'n rhaid i'r ddau Dŷ gytuno ar y diwygiadau. Os na all y Tai ddod i gyfaddawd ar y drafftiau terfynol, gall y broses fod yn hir iawn. Oherwydd cyfyngiadau amser, caiff rhai Biliau eu colli.

Yn gyffredinol, mae rôl yr Arglwyddi yn ategol ac mae eu pŵer deddfwriaethol wedi'i gyfyngu gan Ddeddfau Seneddol 1911 a 1949. Gall Tŷ'r Cyffredin gyflwyno Bil i gael Cydsyniad Brenhinol heb gydsyniad yr Arglwyddi, ar ôl blwyddyn ac mewn sesiwn newydd. Hefyd, nid yw cydsyniad yr Arglwyddi'n hanfodol, o dan rai amodau, yn achos Biliau ariannol.

### Cydsyniad Brenhinol

Cam olaf y broses ddeddfwriaethol yn y DU yw'r Cydsyniad Brenhinol. Rhoddir y Cydsyniad Brenhinol gan y Frenhines i'r Bil sydd wedi cwblhau pob cam seneddol, a chaiff ei ddatgan i'r ddau Dŷ. Hefyd, caiff ei restru yng nghofnod o drafodion swyddogion y Senedd. Ffurfioldeb yw'r Cydsyniad Brenhinol ac nid yw wedi cael ei wrthod ers 1707.

### Pwynt trafod 1

Pam yr ystyrir bod angen cael proses mor hir wrth basio deddf?

## 17.4 Enghreifftiau o ddeddfau diweddar a gyflwynwyd yn y DU

- The Drug Driving (Specified Limits) (England and Wales) Regulations 2014
- The Harrogate Stray Act 1985 (Tour de France) Order 2014
- The Consular Marriages and Marriages under Foreign Law Order 2014
- The Paternity, Adoption and Shared Parental Leave (Parental Order Cases) Regulations 2014

Cyfreithiau yn yr Arfaeth:

- The Single Use Carrier Bags Charges (England) Order 2015
- The Nicotine Inhaling Products (Age of Sale and Proxy Purchasing) Regulations 2015

### Gweithgaredd Unigol 1

Dewiswch un o'r cyfreithiau a restrir uchod ac eglurwch beth ystyr y gyfraith mewn gwirionedd.

Baglorïaeth Cymru
Welsh Baccalaureate

### Gweithgaredd Unigol 2

Edrychwch ar y cyfreithiau canlynol a phenderfynwch a ydynt yn Wir neu'n Anwir.

1. Os ydych yn feichiog (ac yn fenyw) yn y DU yna caniateir i chi basio dŵr ble bynnag y mynnoch.

2. Caiff Cymry eu gwahardd rhag mynd i Gaer cyn i'r haul wawrio - a byddai'n rhaid iddynt adael eto cyn i'r haul fachlud, yn ôl hen is-ddeddf.

3. O ystyried yr uchod, efallai ei fod yn egluro'r ffaith y caniateir yn dechnegol i rywun saethu Cymro ar ddydd Sul y tu fewn i furiau'r ddinas - cyn belled â'i bod ar ôl hanner nos a'i fod yn gwneud hynny gan ddefnyddio bwa croes.

4. Os canfyddir morfil ar arfordir Prydain, gall y Brenin hawlio'r pen a'r Frenhines sydd â hawl gyfreithiol i'r gynffon - rhag ofn y bydd angen esgyrn newydd arni ar gyfer ei staes.

5. Ni ddylid cadw aligator mewn baddon yn Arkansas.

6. Ni chaiff mulod socian mewn baddon yn Arizona.

7. Mae'n anghyfreithlon marw yn nau Dŷ'r Senedd - yn ôl y sôn, mae hyn oherwydd y byddent yn gymwys i gael angladd y wladwriaeth ac mae hynny braidd yn gostus i'r awdurdodau.

## 17.5 Enghreifftiau o gyfreithiau a gyflwynwyd mewn rhannau eraill o'r byd

Yn Ffrainc, mae'n anghyfreithlon enwi mochyn yn Napoleon.

Yn San Salvador, gellir rhoi dedfryd o farwolaeth gan griw saethu i bobl sy'n yfed a gyrru.

Yn Affganistan, gwaharddodd y Taliban ferched rhag gwisgo sanau gwyn, rhag ofn i ddynion eu hystyried yn ddeniadol.

Yn 1837, gwaharddwyd dynion rhag bolddawnsio yn yr Aifft gan iddo arwain at derfysg mawr.

Yn Wetaskiwin, Alberta, Canada, yn 1917, roedd yn anghyfreithlon clymu ceffyl gwrywaidd ger ceffyl benywaidd.

Yn Singapore, mae'n anghyfreithlon cnoi gwm.

Ym Mharaguay, gallwch ymladd gornestau yn gyfreithlon, cyhyd ag y bo'r ddau wrthwynebydd yn rhoddwyr gwaed.

Ym Milan, yr Eidal, oni fyddwch yn mynd i ysbyty neu angladd, mae'n rhaid i chi wenu neu wynebu dirwy.

Yn y Swistir, mae'n rhaid i chi fyw o fewn 200m i loches bom niwclear.

Yn Burma, mae yn erbyn y gyfraith i chi ddefnyddio'r We. Bydd unrhyw un a wnaiff hynny yn wynebu dedfryd o garchar.

Ym Mangladesh byddwch yn wynebu dedfryd o garchar am dwyllo yn yr ysgol.

Hyd at 1984 yng Ngwlad Belg, roedd yn rhaid i chi ddewis enw eich plentyn oddi ar restr o 1500 o enwau.

Arferai fod yn anghyfreithlon cael ci anwes yng Ngwlad yr Iâ.

Yn Seville, Sbaen, yn 1983, cafodd ci blaidd ei arestio am ddwyn bag llaw menyw.

Yn Nhwrci, roedd yn anghyfreithlon yfed coffi yn ystod y 16eg a'r 17eg ganrif. Marwolaeth oedd y gosb.

Yn Nenmarc, nid yw'n anghyfreithlon dianc o'r carchar.

### Pwynt Myfyrio 1

1. Pam ei bod yn bwysig i bleidleisio mewn etholiadau?
2. A ddylid gwahardd rhai mathau penodol o lywodraethau?
3. A ellir cynnal hawliau dynol UNRHYW LE yn y byd?
4. A oes gan nifer rhy fach o bobl ormod o bŵer?

### Pwynt trafod 2

Trafodwch y datganiadau uchod

# UNED 18

## 18.1: Beth yw Dylanwadau Amgylcheddol?

Mae'r term **dylanwadau amgylcheddol** yn disgrifio rhywbeth rydym yn gyfarwydd iawn ag ef. Mae'n cynnwys popeth a geir yn ein hamgylchedd ac mae'n effeithio ar ein gallu i fyw ar y ddaear - yr aer a anadlwn, y dŵr sy'n gorchuddio'r rhan fwyaf o arwyneb y ddaear, y planhigion a'r anifeiliaid o'n cwmpas, a llawer mwy.

## 18.2 Pam yr ystyrir bod dylanwadau amgylcheddol yn bwysicach?

Yn ddiweddar, mae gwyddonwyr wedi bod yn archwilio'n fanwl y ffyrdd y mae pobl yn effeithio ar yr amgylchedd. Maent wedi canfod ein bod yn achosi llygredd aer, datgoedwigo, glaw asid, a phroblemau eraill sy'n beryglus i'r ddaear ac i ni. Y dyddiau hyn, pan glywch bobl yn siarad am "yr amgylchedd", yn aml maent yn cyfeirio at gyflwr cyffredinol ein planed, neu pa mor iach ydyw.

## 18.3: Saith ffordd y mae pobl yn niweidio'r blaned.

Yn ôl y Mother Earth Network, mae pobl yn gwneud niwed mawr i'r blaned.

[http://www.mnn.com/earth-matters/wilderness-resources/photos/7-ways-humans-are-damaging-the-planet/changing-our-world]

### 18.3 Erydu ar raddfa fawr



Afon Felen Tsieina ar hyd Gwlff Bohai yw'r afon sy'n cynnwys y nifer fwyaf o waddodion ar y Ddaear. Fe'i gelwir hefyd yn Huang He, ac mae'n llifo 5,475 o gilometrau (3,395 o filltiroedd) o ddwyrain Tibet i Fôr Bohai. Ar ei thaith, mae'n croesi llwyfandir llydan lle ceir pridd da, sy'n dyddodi i'r delta eco-sensitif ar aber yr afon hon. Mae hyn wedi galluogi'r afon i ail-lunio'r arfordir dros amser.

Fodd bynnag, yn 1996 rhwystrwyd yr afon gan beirianwyr Tsieineaidd a'i hailgyfeirio tua'r gogledd. Mae hyn wedi arwain at lefel o erydu sydd wedi ail-lunio'r delta yn sylweddol.

Uchod, gwelwn lun o'r delta o loeren Landsat NASA yn 1989 a 2009. Mae'r ddelwedd o 2009 yn dangos bod y draethlin wedi'i hail-lunio i ddiogelu cyfres o ffynhonnau olew a nwy arfordirol. Er y gall hyn ymddangos yn rhyfedd, mae'n bosibl mai dyma'r canlyniad yr oedd y peiriannwyr yn awyddus i'w gyflawni.

## 18.3.2 Datgoedwigo ar raddfa fawr



Dros y 40 mlynedd diwethaf, mae cymaint ag 20 y cant o goedwigoedd glaw yr Amazon wedi cael eu torri i lawr. Mae'r coedwigoedd glaw yn cynhyrchu hanner ei wlybaniaeth ei hun. Wrth i'r coedwigoedd gael eu dinistrio a'u llosgi at ddibenion diwydiannol, mae'r coed sy'n weddill yn sychu ac yn marw. Mae’r gweithgaredd hwn wedi golygu mai Brasil yw un o'r gwledydd â'r allyriadau nwyon tŷ gwydr mwyaf ar y blaned.

Uchod gwelir talaith Rondônia yng ngorllewin Brazil o loeren Terra NASA. Arferai'r 51.4 erw hyn o goedwigoedd fod tua maint Kansas yn fras, yn ôl NASA, ond cyn hir hon fydd y rhan sydd wedi'i datgoedwigo fwyaf yn yr Amazon.

Pa mor ddrwg yw'r sefyllfa? Nododd NASA fod 4,200 o gilometrau sgwâr o dir wedi cael ei glirio erbyn 1978; 30,000 erbyn 1988; a 53,300 erbyn 1998. Erbyn 2003, roedd amcangyfrif o 67,764 o gilometrau sgwâr o goedwigoedd glaw, ardal sy'n fwy na thalaith West Virginia, wedi cael ei glirio. Yn y delweddau hyn, gwelwn yr ardal yn 2000 (chwith) ac yn 2010.


## 18.3.3 Cloddio sy'n dileu copaon mynyddoedd yn West Virginia

Fel y mae'r enw yn ei awgrymu, ystyr cloddio sy'n dileu copaon mynyddoedd yw'r broses hynod broffidiol a wneir gan gwmnïau cloddio o ddileu copaon mynyddoedd gan ddefnyddio

ffrwydron. Yna, bydd cwmnïau yn cloddio gwythiennau glo a arferai fod o dan y graig.

Er bod cwmnïau glo yn ceisio ailadeiladu copaon y mynyddoedd i edrych yn gymharol debyg i'w hymddangosiad gwreiddiol, caiff y creigiau a'r llaid sy'n weddill sy'n cynnwys cynhyrchion cloddio gwenwynig eu gollwng yn nyffrynnoedd a nentydd yr ardal. Fel y mae NASA yn ei nodi, mae effeithiau amgylcheddol y math hwn o gloddio ar bridd a dŵr ardal, ynghyd â'r effaith ar iechyd, yn dreiddiol ac anwrthdroadwy.

Isod ceir darlun o gloddfa arwyneb Hobet yn Boone County, West Virginia, wedi'i delweddu gan NASA. Dangosir yr ardal yn 1984 (isod) ac yn 2010. Yn 1984, roedd y gloddfa yn dal yn gymharol fach. Erbyn 2010, roedd wedi llenwi Cangen Connelly hyd at yr Afon Fwd.






## 18.3.4 Las Vegas: Datblygiadau yn yr anialwch

Mae Lake Mead yn gronfa ddŵr anferth a geir ar Afon Colorado ac mae'n gyfrifol am ddarparu dŵr i Nevada, Arizona, Califfornia a gogledd Mecsico. Arweiniodd sychder difrifol a barodd 11 o flynyddoedd i'r afon ostwng i lefelau nas gwelwyd ers 1956. A rhaid ystyried atyniad trethiant Las Vegas, y ddinas agosaf.

Ar y dde, gwelir Las Vegas yn 1894, wedi'i darlunio gan loeren Landsat-5 NASA. Ar y dde, gwelir y ddinas yn 2007. Mae'r ffotograffau hyn yn dangos gwasgariad trefol cynyddol Las Vegas. Gerllaw, mae Lake Mead, sy'n crebachu, a leolir ar ffin Nevada ac Arizona.

Mae'r dreth ar Lake Mead yn ganlyniad i'r twf cyflym yn Las Vegas, yn ogystal â'r lefelau glawiad is na'r cyffredin. Mae Lake Mead yn darparu cymaint â 90 y cant o ddŵr de Nevada. Yn ffodus, adferodd y llyn rywfaint ar ôl gaeaf gwlyb yn 2011.






## 18.3.5 Corsydd Irac

Mae gan gorsydd Irac hanes amgylcheddol a diwylliannol cyfoethog. Am filoedd o flynyddoedd, mae'r gwlypdiroedd Mesopotamaidd hyn wedi cefnogi cydbwysedd unigryw o bobl sy'n cyd-fyw yn un â'u hamgylchedd. Mae Arabiaid y corsydd wedi bod yn pysgota yn yr ardal ers canrifoedd ac yn byw mewn cytiau wedi'u gwehyddu o gyrs. Ond yn y 1990au, draeniodd Saddam Hussein y corsydd i atal ymladdwyr guerrilla honedig rhag defnyddio'r adnoddau hyn. Ar ôl ei gwymp yn 2003, mae'r Iraciaid wedi gweithio i adfer y gwlypdiroedd a arferai fod yn gyfoethog drwy ddymchwel yr argaeau, y cloddiau a'r camlesi a sefydlwyd gan Hussein. Mae bygythiad arall yn amharu ar eu gwaith - sychder.

Yma, gwelwn y corsydd wedi'u delweddu gan loeren Terra NASA. Uchod ceir delwedd o 2000. Yn hytrach na gwyrddni ir, “the area was reduced to a few small green patches and bare soil, varying in shades from purplish brown to pale beige,” yn ôl NASA. Mae unrhyw ardaloedd gwyrdd yn debygol o fod yn gnydau a gaiff eu dyfrhau. Ar y dde, gwelir yr ardal yn 2010 - mae’n amlwg nad yw'r ardal wedi'i hadfer, ac ychwanegodd sychder mawr 2009 at y broblem. Fel y dywedodd Shîc Ali Hool wrth y Los Angeles Times, “What was once described as the Garden of Eden, the cradle of civilization, has been changed to desert and to a cradle of disease, poverty and suffering.” Ond mae gobaith: erbyn 2010, ymddengys bod yr ardaloedd gwyrdd oedd yn cael eu dyfrio yng nghanol y ddelwedd ar y ffordd i gael eu hadfer.


## 18.3.6 Ehangu'r ddinas yn Kampala

Kampala yw prifddinas Uganda a'i dinas fwyaf hefyd. Arferai fod yn llawn bryniau a gwlypdiroedd, a chafodd ei ystyried yn lle delfrydol i hela. Ers y 1960au, mae'r boblogaeth wedi tyfu ar gyfradd gyfartalog o 5.6 y cant y flwyddyn. O ganlyniad, mae llawer o'r coedwigoedd o amgylch wedi cael eu colli yn sgil yr angen am siarcol, ac mae ansawdd y dŵr yn yr ardal wedi gostwng yn sylweddol.

Yma, gallwch weld y ddinas yn 1974 (isod) a 2008. Heddiw, mae cymaint â 2.5 miliwn o bobl yn byw yn y ddinas - a chredir mai dim ond 10 y cant o'r bobl hyn sy'n gallu defnyddio llinellau carthffosydd y ddinas.



## 18.3.7 Twf Dubai



Cafodd tref wyliau Dubai, sy'n rhan o'r Emiraethau Arabaidd Unedig, gyfnod o drefoli dramatig ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain. Gan nad oes olew yno, adeiladodd Dubai ei thwf ar gyllid, eiddo tirol a thwristiaeth. Gan na cheir unrhyw ddŵr arwyneb, na llawer o ddyfrhaenau na glawiad, defnyddiodd y ddinas blanhigion croyw i newid dŵr môr yn ddŵr croyw, gan addurno'r ddinas â chyrsiau golff, gerddi a choed palmwydd. Ymddangosodd coed palmwydd anferth ar hyd yr arfordir hefyd - ynysoedd artiffisial a wnaed o dywod o wely'r môr wedi'u diogelu gan forgloddiau craig.

Tynnodd y Radiomedr Allyrru ac Adlewyrchu Thermal Gofodol Uwch (ASTER) lun ar loeren Terra NASA o'r ddelwedd â lliwiau ffug hon o ran o Dubai, yn cynnwys ynys wyliau Palm Jumeirah, ar 8 Chwefror 2010. Mae'r tir noeth yn ymddangos yn frown, mae'r llystyfiant yn ymddangos yn goch, mae'r dŵr yn ymddangos yn las

tywyll, ac mae'r adeiladau a'r arwynebau palmantog yn ymddangos yn las golau neu lwyd. Mae'r ddelwedd hon yn rhan o nodwedd World of Change Arsyllfa'r Ddaear ar y broses o drefoli Dubai.

### Gweithgaredd Unigol 1

Lluniwch gyflwyniad i gynulleidfa ar un o'r pryderon hyn. Dylai eich cyflwyniad gynnwys:

Beth yw'r pryder?

Pa effaith a gaiff ar yr amgylchedd?

Pa effaith a gaiff ar unigolion?

A ddylai'r byd bryderu?

## Gwiriad Cynnydd 3

**Termau allweddol:**

| Tymor | Diffiniad | Pa mor hyderus ydw i fy mod i'n deall ac yn defnyddio'r term hwn? | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Hyderus iawn | Rhywfaint yn hyderus | Ddim yn hyderus iawn |
| Demograffeg | | | | |
| Trethiant | | | | |
| Incwm Gwario | | | | |
| Amgylchedd allanol | | | | |

| Rwyf wedi dysgu sut i: | Pa mor hyderus ydw i wrth wneud hyn? | | |
|---|---|---|---|
| | Hyderus iawn | Rhywfaint yn hyderus | Ddim yn hyderus iawn |
| Deall, nodi a gwerthuso ffactorau gwleidyddol | | | |
| Deall, nodi a gwerthuso ffactorau economaidd | | | |
| Deall, nodi a gwerthuso ffactorau cymdeithasol | | | |
| Deall, nodi a gwerthuso ffactorau technolegol | | | |
| Deall, nodi a gwerthuso ffactorau cyfreithiol | | | |
| Deall, nodi a gwerthuso ffactorau amgylcheddol | | | |

**Cymhwyso Sgiliau a Gwybodaeth:**

**Rwyf wedi mwynhau:**


**Gallaf gymhwyso'r dysgu hyn at:**

# UNED 19

## 19.1: Beth yw problem?

### Gweithgaredd Unigol 1

Edrychwch ar y blychau canlynol. Allwch chi eu ffitio i mewn i betryal heb unrhyw orgyffwrdd?



### Trafodaeth Grŵp 1

Sut y gwnaethoch ddatrys y broblem?

Mae sawl math gwahanol o broblem a sawl dull o'u datrys. Yn y gweithgaredd uchod, gwnaethoch ddefnyddio dull profi a methu mae'n debyg.

Mae **profi a methu** yn cyfeirio at ddull canfod i ddatrys problem gan ddefnyddio arbrawf ymarferol. Mae hyn yn golygu rhoi cynnig ar ddulliau amrywiol nes i chi gael y dull cywir neu'r canlyniad a ddymunir.

Efallai y bydd problemau eraill yn gofyn am ddefnyddio dull systematig. Er enghraifft, dilyn cyfarwyddiadau i ddefnyddio cerdyn SIM ar gyfer ffôn symudol. Yn yr achos hwn ni fyddai dull prawf a methu yn un effeithiol mae'n debyg.

Mae dull systematig yn un sy'n golygu gweithio drwy gyfres o gamau sydd angen eu cymryd mewn trefn benodol.

### Trafodaeth Grŵp 2

Gall gwneud croesair a phenderfynu ar ba yrfa yr hoffech ei dilyn gael eu hystyried yn broblemau. Beth sy'n gwneud rhywbeth yn broblem?

Gellir diffinio **problem** fel bwlch rhwng ble rydych ar hyn o bryd (cyflwr presennol) a chyflwr a ddymunir (ble rydych am fod). Gall problemau yn aml gynnwys cwestiynau sydd angen eu hateb. Mae'n bosibl datrys llawer o broblemau mewn sawl ffordd. Weithiau bydd anawsterau'n codi pan nad yw'r datrysiadau'n amlwg neu pan nad ydynt ar gael ar unwaith.

## 19.2: Beth yw'r tair proses y gellir eu defnyddio wrth ddatrys problemau?

Gellir defnyddio'r prosesau canlynol i ddatrys problemau:

1. Nodi pa wybodaeth sydd ei hangen i ddatrys problem a beth sy'n amherthnasol.
2. Cyfuno gwybodaeth i lunio gwybodaeth newydd.
3. Cysylltu problemau a gwybodaeth newydd â rhai rydym eisoes wedi eu datrys drwy brofiad.

Y tair proses hyn yw blociau adeiladu sylfaenol datrys problemau. Maent i gyd yn cynnwys sgiliau meddwl.

Mae gennych fwy o wybodaeth nag y sylweddolwch. Fodd bynnag, mae'n debyg nad ydych yn defnyddio eich sgiliau meddwl gymaint ag y gallwch. Po fwyaf y gweithiwch ar eich sgiliau meddwl, y mwyaf y bydd eich sgiliau datrys problemau yn gwella.

### Gweithgaredd Unigol 2

Dychmygwch fod gennych ddrâr yn eich ystafell wely sy'n cynnwys sanau. Rydych yn gwisgo amdanoch; mae'n dal i fod yn dywyll y tu allan ac mae eich golau wedi torri felly allwch chi ddim gweld lliw y sanau. Mae gennych wyth hosan brown tywyll ac wyth hosan llwyd tywyll yn eich drâr.



1. Beth yw'r nifer leiaf o sanau y bydd angen i chi eu tynnu allan i sicrhau bod gennych bâr tebyg?
2. Beth yw'r nifer fwyaf y gallwch eu tynnu allan heb gael pâr tebyg?
3. Beth yw'r nifer leiaf y gallwch eu tynnu allan er mwyn sicrhau bod gennych un o bob lliw?
4. Beth yw'r nifer fwyaf y gallwch eu tynnu allan a'u bod i gyd yr un lliw?
5. Beth yw'r nifer leiaf y gallwch eu tynnu allan er mwyn sicrhau bod gennych bâr llwyd?

**Pa mor anodd oedd hynny i chi?**

Heriau meddwl eraill:

## Gweithgaredd Unigol 3

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 8 | | | | 9 | |
| | 5 | | 9 | | | 3 | 7 | |
| | 9 | | | | 5 | 8 | | 1 |
| | | | | | | 9 | 1 | 4 |
| | | 6 | | | | 5 | | |
| 8 | 1 | 7 | | | | | | |
| 4 | | 1 | 5 | | | | 3 | |
| | 8 | 5 | | | 1 | | 2 | |
| | 7 | | | | 8 | | | |

## Gweithgaredd Unigol 4

1. Rwy'n teithio ledled y byd, ond yn aros yn fy nghornel bob amser. Ble ydw i?
2. Beth sydd â 13 o galonnau, ond dim organau eraill?
3. Pa fath o gôt sydd bob amser yn wlyb pan fyddwch yn ei gwisgo amdanoch?
4. Beth rydych chi'n ei dorri cyn ei ddefnyddio?
5. Pam taw'r llythyren A sydd debycaf i flodyn?
6. Beth sy'n dechrau gyda P, yn gorffen gydag E ac sydd â miloedd o lythrennau

## Gweithgaredd Unigol 5

Mae'r bobl ganlynol yn byw yn Stryd Ryder. Allwch chi roi trefn ar eu henwau, rhifau eu tai ac enwau eu cathod?

**Enwau'r cathod**

Smwt, Pawen Wen, Modlen

**Enwau cyntaf pobl**

Stewart, Mohamed, Rhys

**Cyfenwau pobl**

Smith, Jones, Morgan

**Rhifau'r tai**

21, 22, 23

Cwblhewch y grid canlynol yn seiliedig ar y cliwiau isod:

**Cliw 1**

Mae Mohamed yn byw yn rhywle sydd â rhif uwch na chartref Mr Morgan; nid yw Smwt yn perthyn i un ohonynt.

**Cliw 2**

Mae Modlen yn byw yn Rhif 21.

**Cliw 3**

Nid yw Stewart Smith yn byw yn Rhif 23.

| Enw | Cyfenw | Rhif Tŷ | Cath |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## Crynodeb

- Mae sawl math gwahanol o broblem a sawl dull o'u datrys.
- Mae profi a methu yn cyfeirio at ddull canfod i ddatrys problem gan ddefnyddio arbrawf ymarferol. Mae hyn yn golygu rhoi cynnig ar ddulliau amrywiol nes i chi gael y dull cywir neu'r canlyniad a ddymunir.
- Mae dull systematig yn un sy'n golygu gweithio drwy gyfres o gamau sydd angen eu cymryd mewn trefn benodol.
- Gellir diffinio problem fel bwlch rhwng ble rydych ar hyn o bryd (cyflwr presennol) a chyflwr a ddymunir (ble rydych am fod).
- Gellir defnyddio tair proses i ddatrys problemau:
    - Nodi pa wybodaeth sydd ei hangen i ddatrys problem a beth sy'n amherthnasol.
    - Cyfuno gwybdoaeth i lunio gwybodaeth newydd.
    - Cysylltu problemau a gwybodaeth newydd â rhai rydym eisoes wedi eu datrys drwy brofiad.

# UNED 20

## 20.1: Sut rydym yn datrys problem?

Beth bynnag yw'r broblem rydych yn ei hwynebu, mae rhai camau'n sylfaenol: mae'r gair Saesneg **IDEAL** yn acronym ar gyfer model datrys problemau:

**I**dentify the problem

**D**efine the problem

**E**xamine the options

**A**ct on a plan

**L**ook at the consequences

## 20.2: Beth yw'r camau tuag at ddatrys problem?

Gan ddefnyddio'r model IDEAL, bydd nifer o elfennau i bob cam:

### Cam 1) Nodi'r broblem

Wrth fynd i'r afael â'r cam hwn, mae nifer o bethau y dylech eu hystyried:

a) Symleiddio a deall natur problem
b) Gofyn cwestiynau
c) Casglu gwybodaeth yn systematig
d) Coladu a threfnu data
e) Cywasgu a chrynhoi gwybodaeth

### Cam 2) Diffinio'r broblem

Ar ôl i chi nodi'r broblem, gallwch ddechrau meddwl am ba ddatrysiad rydych yn gobeithio ei gyflawni (h.y. y cyflwr a ddymunir).

### Cofiwch beth yw'r diffiniad o broblem?

Gellir diffinio **problem** fel bwlch rhwng ble rydych ar hyn o bryd (cyflwr presennol) a chyflwr a ddymunir (ble rydych am fod). Gall problemau yn aml gynnwys cwestiynau sydd angen eu hateb. Mae'n bosibl datrys llawer o broblemau mewn sawl ffordd. Weithiau bydd anawsterau'n codi pan nad yw'r datrysiadau'n amlwg neu pan nad ydynt ar gael ar unwaith.

Wrth fynd i'r afael â'r cam hwn, mae nifer o bethau y dylech eu hystyried:

a) Defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn effeithiol
b) Rhannu'r broblem yn ddarnau llai, haws eu trin
c) Defnyddio technegau fel taflu syniadau a meddwl ochrol i ystyried opsiynau
d) Dadansoddi'r opsiynau hyn yn fanylach
e) Nodi camau y gellir eu cymryd i gyflawni'r amcan

Y cam nesaf yw archwilio eich opsiynau:

### Cam 3) Archwilio'r opsiynau

a) Penderfynu rhwng yr opsiynau posibl ar gyfer pa gamau i'w cymryd
b) Penderfynu ar wybodaeth bellach i'w chasglu cyn cymryd camau
c) Penderfynu ar adnoddau (amser, cyllid, staff ac ati) i'w neilltuo ar gyfer y broblem hon

Y cam nesaf yw gweithredu ar eich cynllun:

### Cam 4) Gweithredu ar gynllun

Tra'n gweithredu ar eich cynllun, efallai y bydd angen i chi:

a) Darparu gwybodaeth i randdeiliaid eraill
b) Dirprwyo tasgau
c) Adolygu cynnydd a wnaed yn rheolaidd

Y cam olaf yw edrych ar y canlyniadau.

### Cam 5) Edrych ar y canlyniadau

Gallwch wneud hyn drwy:

a) Archwilio'r canlyniadau - a wnaethoch gyflawni'r hyn yr oeddech yn bwriadu ei wneud?
b) Monitro canlyniad y camau a gymerwyd
c) Adolygu'r broblem a'r broses datrys problemau er mwyn osgoi sefyllfaoedd tebyg yn y dyfodol

Ar unrhyw gam o'r broses hon, efallai y bydd angen dychwelyd i gam cynharach - er enghraifft, os bydd problemau pellach yn codi neu os bydd yn ymddangos nad yw datrysiad yn gweithio fel y dymunwyd.



### Gweithgaredd Unigol 1

Ar Ddiwrnod Rhyngwladol Ieuenctid 2014, gofynnwyd i bobl ifanc pa faterion yr hoffent iddynt gael mwy o sylw.

Yr ymateb mwyaf cyffredin oedd swyddi, sy'n adlewyrchu cyfradd ddiweithdra gynyddol ymhlith pobl ifanc ledled y byd o 13.1%, cynnydd o gymharu â 12.9% yn 2012. Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn y Dwyrain Canol, sydd â'r cyfraddau diweithdra uchaf ymhlith pobl ifanc yn y byd, yn ôl adroddiad y Sefydliad Llafur Rhyngwladol.

Cael swydd fydd y broblem bwysicaf y byddwch yn ei hwynebu mae'n siŵr yn y byrdymor.

**Llunio taflen wybodaeth mewn perthynas â'r mater hwn sy'n rhoi gwybodaeth am gyflawni camau 1-4 o fodel IDEAL.**

## 21.1: Beth yw fformatau posibl gwybodaeth?

Gall gwybodaeth gael ei chyflwyno mewn sawl fformat gwahanol. Mae'n bwysig eich bod yn deall sut i ddehongli pob dull:

a) **Tablau.** Er enghraifft, crynodebau o ymchwil i'r farchnad ac amserlenni trenau.

### Gweithgaredd Unigol 1

| MON to SAT | SX | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sheffield Interchange | *0759* | 1027 | 1244 | 1457 | 1722 |
| Sheffield Uni. Western Bank | *0809* | 1037 | 1254 | 1507 | 1732 |
| Crosspool Church | *0816* | 1044 | 1301 | 1514 | 1744 |
| Rivelin Dams Norfolk Arms | *0821* | 1049 | 1306 | 1519 | 1750 |
| Ladybower Inn | *0828* | 1056 | 1313 | 1526 | 1757 |
| Fearfall Wood | ------- | 1059 | ------- | ------- | ------- |
| Derwent Fairholmes | ------- | 1104 | ------- | ------- | ------- |
| Fearfall Wood | ------- | 1109 | ------- | ------- | ------- |
| Yorkshire Bridge Hotel | *0830* | 1114 | 1315 | 1528 | 1759 |
| Bamford Derwent Hotel | *0833* | 1117 | 1317 | 1530 | 1801 |
| Bamford Bus Turnaround | *0836* | 1119 | 1319 | 1532 | 1803 |
| Hope Post Office | *0845* | ------- | ------- | 1537 | 1808 |
| Castleton Bus Station | *0852* | ------- | ------- | 1547 | 1813 |

| MON to SAT | SX | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Castleton Bus Station | *0709* | 0909 | ------- | ------- | 1552 | 1815 |
| Hope Post Office | *0713* | 0913 | ------- | ------- | 1556 | 1819 |
| Bamford Bus Turnaround | *0718* | 0918 | 1118 | 1318 | 1601 | 1824 |
| Bamford Derwent Hotel | *0720* | 0920 | 1120 | 1320 | 1603 | 1826 |
| Yorkshire Bridge Hotel | *0722* | 0922 | 1122 | 1322 | 1605 | 1828 |
| Fearfall Wood | ------- | ------- | ------- | ------- | 1608 | ------- |
| Derwent Fairholmes | ------- | ------- | ------- | ------- | 1613 | ------- |
| Fearfall Wood | ------- | ------- | ------- | ------- | 1618 | ------- |
| Ladybower Inn | *0724* | 0924 | 1124 | 1325 | 1621 | 1830 |
| Rivelin Dams Norfolk Arms | *0731* | 0931 | 1131 | 1331 | 1627 | 1837 |
| Crosspool Church | *0737* | 0937 | 1137 | 1337 | 1633 | 1843 |
| Sheffield Uni. Western Bank | *0744* | 0944 | 1144 | 1344 | 1640 | 1849 |
| Sheffield Interchange | *0754* | 0954 | 1154 | 1354 | 1650 | 1858 |

Mae gennych gyfweliad am swydd yn Sheffield. Mae eich trên yn cyrraedd gorsaf Sheffield am 0800 ddydd Llun. Rydych o fewn pellter cerdded i Derwent Fairholmes a Gwesty'r Yorkshire Bridge. Bydd yn cymryd 10 munud i gyrraedd y ddau ohonynt. Mae eich cyfweliad mewn adeilad wrth ymyl Gorsaf Fysiau Castleton am 10.30.

I. At ba arhosfan y byddwch chi'n cerdded?
II. Pa fws y byddwch yn mynd arno (amser y bws)?
III. Am faint o amser y byddwch ar y bws?
IV. Faint o'r gloch mae eich bws yn ôl i orsaf Sheffield?

### Gweithgaredd Unigol 2

Gofynnwyd i siopwyr pa ddarparwr adloniant yr oeddent yn tanysgrifio iddo. Gellir gweld y canllawiau yn y tabl isod:

| | Math | | | |
|---|---|---|---|---|
| Oedran | Sky | Freeview | NetFlix | Cyfanswm |
| 18-25 | 45 | 57 | 21 | 123 |
| 26-40 | 119 | 83 | 34 | 245 |
| 41-60 | 54 | 50 | 28 | 132 |
| Cyfanswm | 218 | 190 | 92 | 500 |


Mae un o'r ffigurau yn y tabl wedi cael ei deipio'n anghywir. **Pa un?**

b) **Graffiau.** Defnyddir y rhain i ddarparu gwybodaeth y gellir ei deall yn hawdd.

### Gweithgaredd Unigol 3

Rydych yn cynllunio taith i Japan. Rydych am fynd yno ar adeg pan fydd yn debygol y caiff y wlad y

lleiaf o law; fodd bynnag, rydych am i'r tymheredd gyrraedd o leiaf 7 gradd. Gan ddefnyddio'r graff isod, ym mha fis y dylech fynd yno?




c) **Geiriau.** Gall mathau rhifyddol, gofodol, rhesymegol a llawer o fathau eraill o wybodaeth gael eu cyfleu ar ffurf geiriau.

### Gweithgaredd Unigol 4

Weithiau, bydd dod o hyd i wybodaeth mewn geiriau yn anodd. Edrychwch ar y testun isod a cheisiwch weithio allan pa mor hir y bu Tîm Football Fanatics yn chwarae cyn iddo golli gêm a chael ei ddileu o'r gystadleuaeth?


Mewn cystadleuaeth bêl-droed 5 bob ochr, dechreuwyd gyda 32 o dimau. Rhannwyd y timau yn grwpiau i chwarae yn erbyn ei gilydd a'r bwriad oedd y byddai enillydd pob grŵp yn mynd ymlaen i'r rownd nesaf. Caiff hyn ei ailadrodd nes bod dau dîm yn weddill ac maent yn chwarae yn erbyn ei gilydd yn y rownd derfynol. Mae dau hanner i bob gêm sy'n para 20 munud yr un. Er, os bydd gan y ddau dîm yr un sgôr, caiff dau gyfnod ychwanegol o 10 munud yr un eu chwarae. Os byddant yn dal i fod yn gyfartal, rhaid i aelodau'r tîm yn eu tro geisio sgorio goliau cosb.

Collodd Tîm Football Fanatics yn y rownd gynderfynol. Yn un o'r rowndiau cynharach bu'n rhaid iddo chwarae'r ddau gyfnod ychwanegol cyn ennill.

d) **Darluniadol.** Weithiau gellir defnyddio darluniau i ddangos gwybodaeth am faint a safle.

### Gweithgaredd Unigol 5

Gofynnwyd i Jackie, adeiladwr lleol, i osod patio newydd ar iard ysgol. Gellir gweld dyluniad y patio isod.




Faint o batrymau gwahanol o gerrig palmant sydd eu hangen i lunio'r patrwm?

e) **Diagramatig.** Mae diagramau yn aml yn crynhoi gwybodaeth rifyddol a gofodol.

### Gweithgaredd Unigol 6

Yn ôl y siart lif isod, beth dylech ei wneud os yw'r bwlb wedi llosgi ar eich lamp?




## 21.2: Sut rydym yn cael gafael ar wybodaeth ddibynadwy a chredadwy gan ddefnyddio'r rhyngrwyd?

1. Defnyddiwch **eiriau allweddol** sy'n berthnasol i'r pwnc rydych yn ymchwilio iddo. Er mwyn dod o hyd i wybodaeth gredadwy a pherthnasol am eich pwnc ar y Rhyngrwyd, rhaid i chi ddefnyddio cyfuniad o eiriau allweddol sy'n gysylltiedig â'ch ymchwil.

2. Defnyddiwch ymadroddion â **geiriau allweddol penodol** i ddod o hyd i'r wybodaeth fwyaf perthnasol.

Er enghraifft, os ydych yn chwilio am wybodaeth am sut i newid yr olew mewn Honda Accord 2006, nodwch eiriau allweddol penodol fel "cyfarwyddiadau ar sut i newid olew mewn Honda Accord 2006" yn lle ymadrodd sylfaenol fel "newid olew", a all greu miloedd o ganlyniadau ar gyfer gwefannau sy'n cynnwys sut i newid olew ar gyfer beiciau modur, bysiau, cychod a phob math arall o fodur.

Defnyddiwch **eiriau amgen** neu ymadroddion â geiriau allweddol i ddod o hyd i ffynonellau ymchwil ychwanegol. Er enghraifft, os ydych yn gwneud ymchwil yn Saesneg ar ffilmiau tramor, defnyddiwch y geiriau "films" neu "shows" yn lle "movies" i ddod o hyd i ffynonellau ychwanegol a all roi mwy o wybodaeth i chi am eich pwnc ymchwil.

3. **Adolygwch sawl tudalen** o ganlyniadau chwilio am wybodaeth ddilys. Yn y rhan fwyaf

o achosion, bydd peiriannau chwilio fel Google, Bing a Yahoo yn trefnu canlyniadau chwilio yn seiliedig ar algorithmau penodol, fel poblogaeth gwefan.

Edrychwch y tu hwnt i dudalen gyntaf canlyniadau chwilio i ddod o hyd i wybodaeth ar gyfer eich ymchwil. Mewn rhai achosion, efallai y gallwch ddod o hyd i wefannau â gwybodaeth ddefnyddiol y tu hwnt i'r pum tudalen cyntaf o ganlyniadau chwilio.

4. **Penderfynwch fod y wefan yn ffynhonnell gredadwy a dibynadwy.** Os ydych yn casglu ffeithiau ar gyfer eich ymchwil, byddwch am gadarnhau bod y wybodaeth yn cael ei rhoi gan bobl broffesiynol neu arbenigwyr ardystiedig yn y maes neu'r pwnc penodol hwnnw.

Darllenwch yr adran "Amdanom ni" ar wefan i ddysgu mwy am yr awduron neu'r sefydliad sy'n cyhoeddi'r wybodaeth.

Adolygwch yr estyniad o'r wefan yn y bar cyfeiriad er mwyn canfod y ffynhonnell. Os yw'r wefan yn gorffen gyda ".edu," ".gov," neu ".org," caiff y wybodaeth ar y wefan ei goruchwylio gan ysgol, endid llywodraeth, neu sefydliad nad yw'n gwneud elw, yn y drefn honno, ac yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n gywir.

5. **Defnyddiwch wybodaeth gyfredol ar gyfer ymchwilio ar y Rhyngrwyd.** Mae peth gwybodaeth ond yn berthnasol am gyfnod byr o amser, ac efallai y bydd y ffynonellau y dewch o hyd iddynt yn hen neu'n anghywir. Er enghraifft, os ydych yn gwneud gwaith ymchwil ar feddalwedd gyfrifiadurol boblogaidd, defnyddiwch wybodaeth o erthygl a gyhoeddwyd o fewn yr ychydig wythnosau neu fisoedd diwethaf, yn lle erthygl a gyhoeddwyd sawl blwyddyn yn ôl.

6. **Adolygwch bob gwefan am wallau gramadegol a dolenni anghywir.** Os bydd y wefan yn gredadwy a dibynadwy, dylai'r gramadeg a'r sillafu fod yn gywir a dylai'r holl ddolenni fynd â chi i'r dudalen lanio briodol. Gall gwefannau sydd â gwallau niferus a dolenni anghywir fod yn copïo eu gwybodaeth o ffynhonnell arall neu efallai nad ydynt yn rhai dilys.

7. **Enwch neu rhestrwch yr holl ffynonellau o'r Rhyngrwyd a ddefnyddiwyd yn eich ymchwil.** Mae'r broses hon yn ddefnyddiol os bydd angen i chi ailymweld â gwefan i gynnwys rhagor o wybodaeth yn eich ymchwil, neu os bydd angen i chi roi rhestr o ffynonellau a ddefnyddiwyd gennych i gasglu eich gwybodaeth i'ch cynulleidfa neu gyflogwr.

**Copïwch neu dogfennwch yr union ddolen gwefan a**

**ddefnyddiwyd gennych i gael gafael ar y wybodaeth ar gyfer eich ymchwil ar y Rhyngrwyd.**

8. Pan ddewch o hyd i wefan sydd wedi rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i chi ar gyfer eich ymchwil, ychwanegwch y wefan at eich proffil ffefrynnau neu nodau tudalen yn eich porwr Rhyngrwyd er mwyn cael gafael arni yn ddiweddarach pan fyddwch yn gwneud eich prosiect ymchwil nesaf.

[http://www.wikihow.com/Do-Internet-Research]

### Gweithgaredd Unigol 7

Weithiau, bydd angen i chi edrych ar y data a phrosesu'r drefn er mwyn i'r data wneud synnwyr.

Proseswch y wybodaeth ganlynol a'i rhoi yn y drefn gywir drwy rifo pob paragraff fel ei bod yn gwneud synnwyr:

- Er mwyn gwneud yr hufen menyn, rhowch y cynhwysion mewn powlen fawr a'u stwnsio gyda'i gilydd gan ddefnyddio fforc neu sbatwla (bydd hyn yn atal y siwgr eisin rhag mynd i bobman).
- Mewn powlen, cymysgwch y blawd, soda pobi, sinsir mâl, sinamon a 1/2 llwy de o halen.
- Toddwch y menyn, siwgr, triog a surop mewn sosban fach, a'i chwisgio nes bydd yn llyfn. Rhowch i'r naill ochr i oeri am 10 munud. Cynheswch y popty i 160C/140C gwyntyll/nwy 3. Irwch dun torth 2lb a'i leinio â phapur pobi
- Defnyddiwch y gyllell balet i greu llinellau fertigol ar hyd yr ochrau.
- Arllwyswch y cymysgedd surop cynnes a'r llaeth i mewn ac yna'r melynwy. Chwisgiwch hyd nes i chi gael cytew llyfn.
- Rhowch hanner y cymysgedd mewn bag peipio gyda phig mawr crwn a'i roi i'r naill ochr.
- Gweinwch y gacen ar unwaith neu oerwch am hyd at 2 ddiwrnod, gan ei thynnu o'r oergell 30 munud cyn ei gweini.
- Arllwyswch ef i mewn i'r tun a'i bobi am awr neu hyd nes y bydd sgiwer yn dod allan yn lân. Gadewch iddo oeri yn y tun am 30 munud, yna sleisiwch y top i gael arwyneb llyfn.
- Trowch y gacen allan ar resel wifrau a thynnwch y papur pobi.
- Ar ôl eu cyfuno'n fras, cymysgwch gyda chwisg llaw trydanol hyd nes y bydd yn llyfn.
- Nawr gwnewch yr eisin malws melys. Rhowch y gwynwy, siwgr, 1 llwy fwrdd o ddŵr a phinsiad da o halen mewn powlen sy'n gwrthsefyll gwres. Rhowch y bowlen dros sosban o ddŵr sy'n mudferwi, gan sicrhau nad yw'n cyffwrdd â'r dŵr poeth, a'i chwisgio.

- Nawr defnyddiwch y bag peipio i beipio pigau meringue dros dop y gacen.
- Pan fyddwch yn barod i roi popeth at ei gilydd, sleisiwch y gacen ar ei hyd yn 3 haen gyfartal.
- Ar stand cacennau neu blât, rhowch y gacen yn ôl at ei gilydd, gyda'r sleisen fwyaf ar y gwaelod, gan roi haen o hufen menyn arni.
- Gan ddefnyddio cyllell balet onglog fach neu gyllell fenyn fach, gorchuddiwch y gacen â'r eisin malws melys sy'n weddill yn y bowlen.
- Defnyddiwch chwythlamp cogydd i dostio'r meringue hyd nes y bydd yn frown euraid - bydd rhai rhannau wedi llosgi yn ychwanegu at yr effaith.

[www.bbcgoodfood.com/recipes/toasted-marshmallow-ginger-cake]

# UNED 22

## 22.1 Sut i gadarnhau bod problem wedi cael ei datrys?

Gall hyn ymddangos yn gwestiwn gwirion. Fodd bynnag, er mwyn cadarnhau'n systematig bod problem wedi cael ei datrys, bydd angen i chi fynd drwy nifer o gamau.

Cam 1
Edrych yn ôl i weld beth oedd y canlyniad yr oeddech yn ei ddisgwyl ar ddechrau eich taith datrys problemau.

Cam 2
Nodi dulliau o gadarnhau bod y broblem wedi ei datrys, fel profi, mesur, arsylwi neu ofyn i rywun arall.

Cam 3
Rhoi'r dulliau hyn ar waith mewn modd systemataidd i gadarnhau bod y broblem wedi'i datrys.

Cam 4
Gwneud asesiad o ansawdd y gwaith rydych wedi ei wneud gan ddefnyddio sgiliau datrys problemau drwy wneud cysylltiadau rhwng meini prawf/sylwadau adborth a'ch barn eich hun am eich perfformiad yn seiliedig ar ddefnyddio'r dulliau uchod.

Cam 5
Disgrifio'r canlyniadau yn llawn a dod i gasgliadau ar ba mor llwyddiannus yr oeddech.

Cam 6
Nodi cynnydd hyd yn hyn a'r meysydd rydych eisiau gweithio arnynt yn y dyfodol.

Drwy ddilyn y broses hon, byddwch yn gwella eich sgiliau datrys problemau.

## 22.2 Pam bod sgiliau datrys problemau mor bwysig?




[https://targetjobs.co.uk/careers-advice/skills-and-competencies/300766-problem-solving-the-mark-of-an-independent-employee]

Yn ôl TargetJobs, hyd yn oed pan na chaiff ei nodi yn y disgrifiad swydd, bydd llawer o gyflogwyr yn edrych ar eich sgiliau datrys problemau ar gamau gwahanol amrywiol yn y broses gwneud cais. Gallai hyn fod yn unrhyw beth o

brofion seicometrig i weithgareddau grŵp neu gyfweliadau un i un.

Mae datrys problemau yn ymwneud â defnyddio rhesymeg, yn ogystal â dychymyg, i wneud synnwyr o'ch sefyllfa a meddwl am ateb deallus. Mae'n gysylltiedig â nifer o sgiliau eraill:

- Mae bod yn bwyllog a gwydn yn bwysig er mwyn asesu sefyllfa, a'i hailasesu os byddwch yn methu y tro cyntaf.
- Bydd angen i chi feddu ar sgiliau dadansoddol, creadigrwydd a meddwl yn rhesymegol i ddod i ateb.
- Os ydych mewn grŵp bydd angen sgiliau gwaith tîm da arnoch hefyd.

Mae datrys problemau yn sgil hanfodol mewn bywyd bob dydd, a dyma pam mae cyflogwyr sy'n cyflogi graddedigion mor gefnogol ohoni.

## 22.3 Sut ydw i'n geirio hyn ar gais am swydd?

**Dywedwch:** 'Bu'n rhaid i mi ddod o hyd i ateb i rwystr cymhleth X. Drwy neilltuo adnoddau A yn ofalus a defnyddio syniadau arloesol B roeddwn yn gallu ei oresgyn.' Defnyddiwch enghreifftiau go iawn. Eglurwch y broblem; dywedwch beth oedd eich adnoddau a pha syniadau a gawsoch. Ystyriwch ddefnyddio'r patrwm canlynol. Meddyliwch am y sefyllfa roeddech yn ei hwynebu a'r dasg y bu'n rhaid i chi ei chwblhau, y camau a gymeroch a'r canlyniadau a gyflawnoch.

**Peidiwch â dweud:** 'Cefais fy ngorfodi i ddelio â sefyllfa anodd. Diolch byth, gan fy mod mor wych am ddatrys problemau, doedd hi ddim yn rhy anodd i mi wneud.' – Os na wnewch chi esbonio sut y gwnaethoch ddatrys y broblem, yna ni ellir asesu'r sgil. Mae trafod natur y broblem, yn ogystal ag addasrwydd yr ateb, yn bwysig wrth ddangos eich gallu i ddatrys problemau.

## 22.4 Deall sut mae sgiliau datrys problemau yn drosglwyddadwy mewn bywyd

Mae datrys problemau yn sgil hanfodol yn eich bywyd bob dydd, a dyna pam mae cyflogwyr graddedigion mor awyddus i'w chael. Bydd delio ag unrhyw un o'r sefyllfaoedd canlynol yn eich helpu i feithrin sgiliau datrys problemau heb sylweddoli hynny ac efallai y gallwch ddefnyddio hyn yn eich ceisiadau am swyddi i raddedigion neu mewn cyfweliadau:

- Datrys problem gyda'ch cyfrifiadur
- Datrys anghydfod gyda landlord anodd er mwyn cael eich blaendal yn ôl
- Bodloni cwsmer anodd
- Dod o hyd i ffordd o ymdopi â phrinder arian er mwyn gallu teithio neu gymryd blwyddyn i ffwrdd
- Gwella sefyllfa ariannol cymdeithas myfyrwyr sydd mewn trafferthion
- Trefnu taith dramor i gymdeithas myfyrwyr, gan oresgyn anawsterau annisgwyl ar hyd y ffordd.
- Gall posau a gemau fel Sudoku a gwyddbwyll hefyd atgyfnerthu eich gallu i feddwl yn strategol a chreadigol.

### Gweithgaredd Unigol 1

Meddyliwch am broblem, defnyddiwch eich sgiliau datrys problemau i fynd i'r afael â'r broblem ac adolygwch y modd y gwnaethoch ei datrys gan ddefnyddio Camau 1-6 fel y nodir uchod.

## Gwiriad Cynnydd 4

**Termau allweddol:**

| Tymor | Diffiniad | Pa mor hyderus ydw i fy mod i'n deall ac yn defnyddio'r term hwn? | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Hyderus iawn | Rhywfaint yn hyderus | Ddim yn hyderus iawn |
| Problem | | | | |
| Dulliau systematig | | | | |
| Profi a methu | | | | |

| Rwyf wedi dysgu sut i: | Pa mor hyderus ydw i wrth wneud hyn? | | |
|---|---|---|---|
| | Hyderus iawn | Rhywfaint yn hyderus | Ddim yn hyderus iawn |
| Deall a chymhwyso'r broses o ddatrys problemau (IDEAL) | | | |
| Dehongli gwybodaeth a gyflwynir mewn fformatau gwahanol | | | |
| Cael gafael ar wybodaeth ddibynadwy a chredadwy gan ddefnyddio'r rhyngrwyd | | | |
| Gallu cadarnhau a yw problem wedi cael ei datrys | | | |

**Cymhwyso Sgiliau a Gwybodaeth:**

**Rwyf wedi mwynhau:**

**Gallaf gymhwyso'r dysgu hyn at:**

## UNED 23

### 23.1: Beth yw meddwl yn greadigol?

Mae **meddwl yn greadigol** yn cyfeirio at ffordd o edrych ar broblemau neu sefyllfaoedd o safbwynt newydd sy'n awgrymu atebion anarferol (a all ymddangos yn ansicr ar y dechrau). Gall meddwl yn greadigol gael ei ysgogi gan broses anstrwythuredig fel taflu syniadau a chan broses strwythuredig fel meddwl ochrol.




O safbwynt nodweddion personoliaeth, mae nifer o nodweddion sy'n gysylltiedig â chreadigrwydd mewn pobl. Mae pobl greadigol yn tueddu i fod yn fwy agored i brofiadau newydd, yn fwy hunanhyderus, yn fwy uchelgeisiol, yn fodlon derbyn beiau personol, yn fyrbwyll, yn gystadleuol, yn dra-awdurdodol, ond hefyd yn elyniaethus o'u cymharu â phobl sy'n llai creadigol.

Mae llawer o'r meddwl a wneir mewn addysg ffurfiol yn pwysleisio sgiliau dadansoddi lle caiff pobl eu haddysgu sut i ddeall honiadau, dilyn neu greu dadl resymegol, meddwl am yr ateb, dileu llwybrau anghywir a chanolbwyntio ar yr un cywir.

Fodd bynnag, mae math arall o feddwl, un sy'n canolbwyntio ar ymchwilio i syniadau, creu posibiliadau, edrych am lawer o atebion cywir yn hytrach nag un yn unig. Mae'r ddau fath hyn o feddwl yn hollbwysig i fywyd gwaith llwyddiannus, ac eto mae'r olaf yn tueddu i gael ei anwybyddu tan ar ôl dyddiau coleg. Gallem wahanu'r ddau fath hyn o feddwl fel a ganlyn:

| Meddwl yn Feirniadol | Meddwl yn Greadigol |
|---|---|
| dadansoddol | cynhyrchiol |
| cydgyfeiriol | ymrannol |
| fertigol | ochrol |
| penodol | gwasgarog |
| ymennydd chwith | ymennydd de |
| geiriol | gweledol |
| ie ond | ie a |
| ateb | ateb |
| gwrthrychol | goddrychol |

### Pwynt trafod 1

Beth yw ystyr yr holl eiriau hyn? Beth yw'r gwahaniaeth rhwng meddwl yn feirniadol a meddwl yn greadigol?

Mewn gweithgaredd fel datrys problemau, mae'r ddau fath o feddwl yn bwysig i ni. Yn gyntaf, rhaid i ni ddadansoddi'r broblem; yna rhaid i ni feddwl am atebion posibl; nesaf, rhaid i ni ddewis a rhoi'r ateb gorau ar waith; ac yn olaf, rhaid i ni werthuso effeithiolrwydd yr ateb. Fel y gallwch weld, mae'r broses hon yn datgelu newid rhwng y ddau fath o feddwl, beirniadol a chreadigol. Yn ymarferol, mae'r ddau fath o feddwl yn cydweithredu llawer o'r amser ac nid ydynt mewn gwirionedd, yn annibynnol ar ei gilydd.

23.2 Felly beth yw creadigrwydd mewn gwirionedd?

- Gallu.

Diffiniad syml yw mai creadigrwydd yw'r gallu i ddychmygu neu ddyfeisio rhywbeth newydd. Mae rhai syniadau creadigol yn rhyfeddol a gwych, mae eraill yn syniadau syml, da, ymarferol nad oes neb wedi meddwl amdanynt eto.

### Gweithgaredd Unigol 1

Edrychwch ar y dyfeisiau isod sydd i gyd yn dangos creadigrwydd rhyfeddol. Pa rai sy'n wych yn eich barn chi?

[www.washingtonpost.com/blogs/innovations/wp/2015/02/13/7-odd-inventions-that-weve-come-to-love/]

1. Gobennydd Estrys:



2. Ffon Hunlun



3. Desg Melin Droedlath



- Agwedd

Mae creadigrwydd hefyd yn agwedd: y gallu i dderbyn newid a newydd-deb, parodrwydd i ystyried syniadau a phosibiliadau, agwedd hyblyg, yr arfer o fwynhau'r hyn sy'n dda, tra'n chwilio am ffyrdd o'i wella. Rydym wedi ein cymdeithasoli i dderbyn nifer fach yn unig o bethau a ganiateir neu bethau arferol, fel mefus â siocled drostynt, er enghraifft. Mae'r person creadigol yn sylweddoli bod posibiliadau eraill, fel brechdanau menyn cnau a banana, neu eirin sych â siocled drostynt.

- Proses

Mae pobl greadigol yn gweithio'n galed ac yn gyson i wella syniadau ac atebion, drwy addasu a mireinio eu gwaith yn raddol. Yn groes i'r fytholeg sy'n gysylltiedig â chreadigrwydd, prin iawn, iawn yw'r gwaith o ragoriaeth greadigol a gaiff ei greu gydag un fflach o athrylith neu mewn cyfnod gwyllt o weithgarwch sydyn. Yn agosach o lawer i'r gwir yw'r straeon am gwmnïau y bu'n rhaid iddynt fynd â'r ddyfais oddi wrth y dyfeisiwr er mwyn ei marchnata, gan y byddai'r dyfeisiwr wedi parhau i'w newid a photsian â hi, a cheisio ei gwneud ychydig yn well.

**Mae'r person creadigol yn gwybod bod lle i wella bob amser.**

## 23.3 Dulliau Creadigol

Nodwyd sawl dull ar gyfer creu canlyniadau creadigol. Dyma bum dull clasurol:

1. **Esblygiad.** Hwn yw'r dull o wella'n gynyddrannol. Mae syniadau newydd yn deillio o syniadau eraill, atebion newydd o rai blaenorol, ac mae'r rhai newydd ychydig yn well na'r hen rai. Mae gwneud rhywbeth ychydig yn well yma ac acw yn raddol yn ei wneud yn rhywbeth gwell o lawer - hyd yn oed yn hollol wahanol i'r gwreiddiol.

Er enghraifft, edrychwch ar hanes y car. Gyda phob model newydd, gwneir gwelliannau.

2. **Cyfosod.** Gyda'r dull hwn, caiff dau neu fwy o syniadau sydd eisoes yn bodoli eu cyfuno yn drydydd syniad newydd. Mae cyfuno

syniadau cylchgrawn a thâp sain yn rhoi'r syniad o gylchgrawn y gallwch wrando arno, sy'n ddefnyddiol i bobl ddall neu gymudwyr traffyrdd.

Er enghraifft, sylwodd rhywun fod llawer o bobl sy'n mynd am ddêt yn mynd allan i swper yn gyntaf ac wedyn i'r theatr. Pam ddim cyfuno'r ddau ddigwyddiad hyn? Felly, y theatr swper, lle mae pobl yn mynd am fwyd yn gyntaf ac wedyn i weld drama neu adloniant arall.

3. **Chwyldro**. Weithiau mae'r syniad newydd gorau yn un hollol wahanol, newid amlwg o'r rhai blaenorol.

Er enghraifft, y dechnoleg esblygol a ddefnyddiwyd i ladd pryfed sy'n bwyta cnydau oedd datblygu plaladdwyr a nwyon mwy diogel a chyflymach i'w lladd. Un newid ychydig yn chwyldroadol a wnaed oedd rhoi'r gorau i nwyon yn gyfan gwbl o blaid nitrogen hylifol, sy'n eu rhewi nes eu bod wedi marw, neu ficrodonfeddau, sy'n eu pobi. Syniad creadigol hollol chwyldroadol fyddai gofyn, "Sut y gallwn eu hatal rhag bwyta'r cnydau yn y lle cyntaf?"

4. **Ailddefnyddio.** Edrychwch ar rywbeth hen mewn ffordd newydd. Ewch y tu hwnt i labeli.

Er enghraifft, gellir defnyddio clip papurau fel sgriwdreifar bach os caiff ei lyfnu; gellir defnyddio paent fel math o lud i atal sgriwiau rhag llacio mewn peiriannau; gellir defnyddio glanedyddion golchi llestri i ddileu'r DNA o facteria mewn labordy; gellir defnyddio glanhawyr chwistrellu cyffredin i ladd morgrug.

5. **Newid Cyfeiriad.** Bydd llawer o ddarganfyddiadau creadigol yn digwydd pan newidir y sylw o un rhan o broblem i un arall. Gelwir hyn weithiau yn ddirnadaeth greadigol.

Pan gafodd cŵn poeth eu dyfeisio gyntaf, cawsant eu gweini i gwsmeriaid gyda menig i'w dal. Yn anffodus, roedd y cwsmeriaid yn mynd â'r menig gyda nhw. Nid oedd yr ateb yn gymhleth o gwbl: rhowch y ci poeth mewn rôl fara fel nad yw bysedd y cwsmer yn teimlo'r gwres. Gallai'r rôl fara a'r ci poeth wedyn gael eu bwyta. Yn lle gofyn, "Sut alla i atal y cwsmer rhag mynd â'r menig gydag ef?" gwnaeth yr un a oedd yn gweini'r cŵn poeth stopio meddwl am y menig yn gyfan gwbl.

## Gweithgaredd Unigol 2

Mae digartrefedd yn dod yn fwyfwy cyffredin. Mae hosteli yn orlawn felly mae mwy a mwy o bobl yn cael eu gorfodi i gysgu ar y stryd.

Dewiswch rai o'r dulliau creadigol uchod a'u defnyddio i feddwl am ateb creadigol. Gall hyn fod ar ffurf pecyn argyfwng neu rywbeth nad oes neb wedi meddwl amdano eto!

## Crynodeb

- Mae meddwl yn greadigol yn cyfeirio at ffordd o edrych ar broblemau neu sefyllfaoedd o safbwynt newydd.

## UNED 24

### 24.1: Beth yw meddwl yn arloesol?

Mae **meddwl yn arloesol** yn ymwneud â dyfeisio. Mae'n ymwneud â meddwl am rywbeth nad oes neb arall wedi meddwl amdano o'r blaen.



**Pwynt trafod 1**

**Sut mae'r ddelwedd uchod yn arloesol?**

### 24.2 Sut i fod yn fwy arloesol?

[http://thinksimplenow.com/creativity/7-habits-of-highly-innovative-people/]

Yn ôl "The myths of innovation" gan Scott Berkun, mae saith arfer yn gysylltiedig â phobl arloesol iawn. Wrth i chi ddarllen drwyddynt, a oes unrhyw awgrymiadau y gallwch eu nodi a'u rhoi ar waith?

1. **Dyfalbarhad** - Mae arloesedd yn golygu mwy na syniadau gwych. Mae angen ffyrdd, gwaith caled a ffocws er mwyn i'r canlyniad terfynol ddyfalbarhau yn wyneb rhwystrau. Yn ôl Thomas A. Edison:

"Invention is 1% inspiration, 99% perspiration"

2. **Chwalu ataliadau hunan-gyfyngedig** - Dyma'r hyn y cyfeirir ato pan fydd pobl yn dweud "meddwl y tu allan i'r bocs". Ceisiwch annog eich hun i fod yn agored i syniadau ac atebion newydd heb osod credoau cyfyngol. Cofiwch, mae arloesedd yn ymwneud mwy â seicoleg na deallusrwydd.

3. **Cymryd Risgiau, Gwneud Camgymeriadau** - Dylech ddisgwyl i rai syniadau fethu wrth ddysgu. Lluniwch brototeipiau yn aml, a'u profi ar bobl, casglwch adborth a gwnewch newidiadau cynyddrannol. Yn hytrach na thrin y camgymeriadau fel methiannau, meddyliwch amdanynt fel arbrofion. Dywedodd Thomas A. Edison hefyd:

"I have not failed. I've just found 10,000 ways that won't work. "

**4.** Dianc - Mae'r amgylchedd yn gallu ac yn effeithio ar y ffordd rydym yn teimlo. Po fwyaf yr ydym wedi ymlacio ac ymdawelu yn fewnol, y mwyaf rydym yn barod i dderbyn ein creadigrwydd sy'n llifo. Dyna pam rydym yn meddwl am syniadau weithiau yn y gawod neu pan fyddwn ar ein pen ein hunain. Arbrofwch a cheisiwch weld beth sy'n gweithio i chi.

**5. Ysgrifennu Pethau -** Mae llawer o arloeswyr a phobl greadigol yn cadw dyddlyfr er mwyn nodi syniadau a meddyliau. Mae rhai yn cadw llyfr brasluniau, llyfr lloffion, nodiadau 'post-it' a phapur rhydd. Mae gan bob un ohonynt ddull o nodi eu meddyliau, o feddwl ar bapur, chwalu eu hataliadau a dechrau'r broses greadigol. Prynwyd llyfr nodiadau enwog Leonardo Da Vinci gan Bill Gates am $30.8 million o ddoleri.

**6. Dod o hyd i Batrymau a Chreu Cyfuniadau -** Daw syniadau o syniadau eraill. Wyddoch chi mai Edison oedd yr un cyntaf i ddyfeisio'r bwlb golau? Ef oedd y cyntaf i greu ffilament carbon oedd yn gweithio y tu mewn i fwlb gwydr, a oedd yn gwneud i fwlbiau golau bara am fwy o amser.

**7.** Chwilfrydedd - Mae llawer o arloeswyr yn bobl chwilfrydig a busneslyd, sy'n hoffi datrys problemau.

### Gweithgaredd Unigol 1

Mewngofnodwch i:
www.enterprisecatalyst.co.uk/

Holiadur yw hwn a fydd yn llunio adroddiad ac yn gwerthuso pa mor greadigol ac arloesol ydych chi.

### Astudiaeth achos 1

**Stori Coca Cola**

[www.inventions-handbook.com/invention-of-coca-cola.html]




Nid yw'r stori am ddyfeisio Coca Cola yn gyfarwydd iawn, o gofio pa mor boblogaidd yw'r ddiod.

Ni fydd llawer o bobl yn gyfarwydd ag enw John

Pemberton, sef yr un a ddyfeisiodd Coca Cola.

Roedd John Pemberton yn byw yn Columbus, Georgia ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cemegwr a fferyllydd ydoedd wrth ei alwedigaeth.

Ym mis Ebrill 1865, cafodd Pemberton ei glwyfo ym mrwydr Columbus, Georgia yn ystod rhyfel cartref America. Roedd yn ymladd ar ochr byddin y Taleithiau Cydffederal. Dyfeisiodd Coca Cola o ganlyniad uniongyrchol i'w anffawd yn ystod y frwydr honno.

Ar y pryd, roedd Morffin yn feddyginiaeth boblogaidd a oedd yn cael ei defnyddio er mwyn helpu i leddfu poen milwyr clwyfedig.

Fel llawer o gyn-filwyr y cyfnod, aeth Pemberton yn gaeth i'r cyffur. Roedd bod yn gaeth i Forffin yn gyffredin ar ôl rhyfel cartref America ac roedd yn cael ei alw yn aml yn "glefyd y fyddin".

Ac yntau'n wynebu'r ffaith ei fod yn gaeth i Forffin ynghyd â llawer o gyn-filwyr eraill, defnyddiodd Pemberton ei alwedigaeth i geisio dod o hyd i wellhad ar gyfer hyn.

Fel cemegydd a fferyllydd roedd yn gyfarwydd â buddiannau hysbys Cocên a oedd yn boblogaidd iawn ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg fel cyfnerthydd meddyliol. Roedd yn hysbys bod y cyffur yn gwneud i rywun deimlo'n fwy effro, yn creu ymdeimlad o les ac ewfforia canfyddedig, yn rhoi egni i rywun ac yn gwella rheolaeth echddygol (motor). Yn 1884, argymhellodd Sigmund Freud y dylid defnyddio Cocên i wella rhywun oedd yn gaeth i rywbeth, fel alcohol neu forffin.

Yn 1865, y flwyddyn y cafodd Pemberton ei glwyfo yn y rhyfel, cafodd diod feddyginiaethol iachaol o'r enw Vin Mariani, cymysgedd o win a chocên, ei chyflwyno i'r cyhoedd a daeth yn ateb poblogaidd i bob afiechyd.

Roedd y ddiod wedi'i gwneud o win Bordeaux, ac wedi'i thrin â dail coca. Honnwyd y gallai'r ddiod adfer cryfder, ynni a bywiogrwydd. Gwnaeth Pemberton arbrofi i geisio gwella pobl oedd yn gaeth i Forffin a chreodd ei fersiwn ei hun o win coca, a'i enw oedd Coca Gwin Ffrengig Pemberton.

Roedd ei fersiwn ef yn ddiod alcoholig, wedi'i chymysgu â coca (y planhigyn yr oedd y cocên cemegol yn dod ohono), cneuen cola (sef cneuen y goeden Cola, coeden a oedd yn gysylltiedig â theulu'r coco, y mae ei gnau yn cynnwys caffin) a Damiana (llwyn sy'n gynhenid i Texas y mae

ganddo effeithiau sy'n ymlacio rhywun ac yn gwella libido).

Coca Gwin Ffrengig Pemberton yw fersiwn alcoholig gwreiddiol Coca Cola. Cafodd ei hysbysebu fel diod oedd o fudd penodol i Fenywod nerfus o dde America ac unrhyw un yr oedd angen tonig ar gyfer y nerfau arno.

Yn 1886, pan gyflwynwyd deddfwriaeth dirwest yn Atlanta a Fulton County, gan gyfyngu ar y diodydd alcoholig oedd yn cael eu gwerthu a'u hyfed, gorfodwyd Pemberton i feddwl am fersiwn o'i ddiod Coca Gwin Ffrengig heb alcohol ynddi, a dyma'r hyn a arweiniodd at ddyfeisio Coca Cola.

Gyda chymorth cyn-fferyllydd o Atlanta, Willis Venable, aeth ati i brofi a pherffeithio'r rysáit ar gyfer y ddiod, a rhoi sawl cynnig arni, drwy system profi a methu.

Felly roedd y ddiod Coca-Cola a ddyfeisiwyd yn cael ei gwerthu yn wreiddiol fel ffisig siop, term a ddefnyddiwn heddiw i ddisgrifio diodydd meddygol nad ydym yn gwybod a ydynt yn effeithiol ai peidio, a gafodd eu gwerthu'n hanesyddol o dan amrywiaeth o enwau a labeli.

Gwerthwyd diod wreiddiol Coca-Cola am 5 sent y gwydraid ac roedd yn bosibl prynu'r ddiod o fariau soda, a oedd yn boblogaidd yn yr UD oherwydd rhinweddau iechyd tybiedig y dŵr. Roeddent yn ymdrechu i greu rhywbeth a oedd yn debyg i'r dŵr mwynol a oedd yn byrlymu o'r ddaear.

Pwy allai fod wedi dychmygu y byddai dyfeisio Coca Cola, diod a grëwyd fel tonig meddyginiaethol, a'i fformiwleiddio â dŵr carbonedig er mwyn ychwanegu at ei rinweddau iachaol, yn dod yn un o'r diodydd pefriog enwocaf yn y byd.

**Gwerth Net Coca-Cola bellach yw $158.8 biliwn o ddoleri.**

### Crynodeb

- Mae **meddwl yn arloesol** yn ymwneud â dyfeisio. Mae'n ymwneud â meddwl am rywbeth nad oes neb arall wedi meddwl amdano o'r blaen.

## Gwiriad Cynnydd 5

**Termau allweddol:**

| Tymor | Diffiniad | Pa mor hyderus ydw i fy mod i'n deall ac yn defnyddio'r term hwn? | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Hyderus iawn | Rhywfaint yn hyderus | Ddim yn hyderus iawn |
| Meddwl yn Feirniadol | | | | |
| Meddwl yn greadigol | | | | |
| Arloesedd | | | | |

| Rwyf wedi dysgu sut i: | Pa mor hyderus ydw i wrth wneud hyn? | | |
|---|---|---|---|
| | Hyderus iawn | Rhywfaint yn hyderus | Ddim yn hyderus iawn |
| Deall beth yw creadigrwydd | | | |
| Sut i ddod yn fwy creadigol | | | |
| Deall beth yw ystyr bod yn arloesol | | | |
| Gwerthfawrogi pa mor greadigol ac arloesol ydw i wrth ddefnyddio'r Catalydd Mentro | | | |
| Cymhwyso technegau i ddod yn fwy creadigol ac arloesol | | | |

**Cymhwyso Sgiliau a Gwybodaeth:**

**Rwyf wedi mwynhau:**

**Gallaf gymhwyso'r dysgu hyn at:**

## UNED 25


### 25.1: Beth yw cyfathrebu?

Mae cyfathrebu yn cynnwys anfonwr a derbynnydd (neu dderbynwyr) yn trosglwyddo gwybodaeth drwy sianel gyfathrebu.

**Sianel Gyfathrebu** yw'r term a roddir i'r ffordd rydym yn cyfathrebu. Mae sawl sianel gyfathrebu ar gael i ni heddiw e.e. sgyrsiau wyneb yn wyneb, galwadau ffôn, negeseuon testun, e-bost, y Rhyngrwyd (yn cynnwys cyfryngau cymdeithasol fel Facebook a Twitter), radio a theledu, llythyrau ysgrifenedig, llyfrynnau ac adroddiadau i enwi dim ond rhai.

Mae **dewis sianel gyfathrebu briodol** yn hanfodol ar gyfer cyfathrebu'n effeithiol gan fod gan bob sianel gyfathrebu gryfderau a gwendidau gwahanol e.e. gellir cyfleu gwybodaeth gymhleth a thechnegol yn well gan ddefnyddio dogfen ysgrifenedig na thrwy neges lafar oherwydd gall y derbynnydd gymhathu'r wybodaeth ar ei gyflymder ei hun ac ailddarllen eitemau nad yw'n eu deall yn llwyr. Mae dulliau cyfathrebu ysgrifenedig hefyd yn ddefnyddiol fel ffordd o gofnodi'r hyn a ddywedwyd, er enghraifft cymryd cofnodion mewn cyfarfodydd.

**Mae cyfathrebwyr effeithiol yn ystyried y gynulleidfa y maent yn cyfathrebu â hi.** Mae hyn yn cynnwys defnyddio iaith yn briodol, trosglwyddo'r wybodaeth yn syml ac yn glir, rhagweld a dileu achosion tebygol o gymhlethdod a chamddealltwriaeth, ac ystyried profiad y derbynwyr o ddadgodio dulliau cyfathrebu tebyg eraill.




### 25.2: Sut i gyfleu gwybodaeth yn effeithiol mewn fformat ysgrifenedig?

- **Gwybod eich nod a'i nodi'n glir.** Ydych chi am i'r darllenydd wneud rhywbeth i chi neu ai dim ond

trosglwyddo gwybodaeth ydych chi? Ydych chi am gael ymateb gan y darllenydd neu ydych chi am iddo weithredu?

- **Mae angen i chi nodi eich diben wrth gyfathrebu.** Dylech osgoi gwybodaeth nad yw'n berthnasol. Mae'n bwysig bod yn glir.
- **Gall goslef helpu i sicrhau bod yr hyn rydych yn ei ysgrifennu yn fwy effeithiol.** Mae angen goslef ffurfiol ar gyfer rhai dulliau o gyfathrebu, fel memoranda a chynigion. Bydd angen goslef fwy anffurfiol wrth ysgrifennu at rywun rydych yn ei adnabod yn dda. Mae'r math o oslef yn dibynnu ar y gynulleidfa a beth yw diben yr ysgrifennu.
- **Eglurwch yn glir beth rydych am i'r darllenydd ei wneud.** Ni all ufuddhau os nad yw'n deall. Hefyd, efallai na fydd am helpu hyd yn oed os bydd yr hyn sy'n cael ei gyfathrebu'n amwys ac wedi'i ysgrifennu'n wael. Mae'n arfer da cynnwys pam y byddai o fudd iddo wneud beth rydych chi'n ei ofyn neu eich helpu chi.
- **Mae angen i'r iaith fod yn syml.** Peidiwch â gorddefnyddio ystrydebau, jargon ac ymadroddion na cheisio creu argraff gan ddefnyddio geiriau hir. Dylech gadw'r brawddegau a'r paragraffau'n fyr ac yn gryno.
- **Mae cyfleu gwybodaeth mewn modd cryno yn llawer mwy effeithiol.** Ni ddylech ddefnyddio geiriau nad ydynt yn cyfrannu at brif ffocws yr hyn sy'n cael ei gyfathrebu. Gall hyn wneud i'r darllenydd weithio'n galetach i wybod pam eich bod wedi ysgrifennu ato.
- **Mae gramadeg ac atalnodi cywir yn bwysig iawn.** Mae'n syniad da gofyn i rywun arall brawfddarllen yr hyn rydych yn ei ysgrifennu cyn i chi ei anfon. Os na allwch wneud hynny, ceisiwch ei ddarllen yn uchel. [http://www.skillsyouneed.com/general/what-is-communication.html]

## 25.3: Beth yw'r gwahanol fathau o fformatau ysgrifennu?

Pwynt Myfyrio 1
Faint o fformatau ysgrifennu ydych chi'n eu defnyddio ar hyn o bryd?

| | |
|---|---|
| Adolygiadau o lyfrau<br>Llyfrynnau<br>CVs<br>Disgrifiadau<br>Dyddiaduron<br>Traethodau<br>Esboniadau<br><br>Taflenni gwybodaeth<br><br>Cyfweliadau<br>Cyfnodolion<br>Llythyrau<br>Rhestrau<br><br>Erthyglau cylchgrawn<br><br>Erthyglau newyddion | Pamffledi<br><br>Profiadau personol<br><br>Llythyrau darbwyllol<br><br>Dramâu<br>Barddoniaeth<br><br>Sleidiau a thaflenni cyflwyniad<br><br>Cynigion<br>Adroddiadau<br>Adolygiadau<br>Adolygu<br>Areithiau Straeon |

Mae cymaint o fformatau gwahanol ar gyfer cyfleu gwybodaeth ysgrifenedig. Isod, ceir rhestr o rai o'r ffurfiau mwy cyffredin y gallech fod yn eu defnyddio amlaf:

## Gweithgaredd Unigol 1

Edrychwch ar y fformatau canlynol a phenderfynwch p'un a ydynt yn cyfleu eu neges yn effeithiol ai peidio.

**Enghraifft 1: E-bost i gydweithiwr yn y gwaith:**

> Ellie,
>
> MAE ANGEN I MI GAEL DY ADRODDIAD ERBYN 5 P.M. HEDDIW NEU BYDDAF YN METHU FY NYDDIAD CAU.
>
> Harry

Enghraifft 2: Llythyr gan bennaeth ysgol gynradd i'r rhieni:

Annwyl Riant,

Yn y byd sydd ohoni, e-bost yw un o'r dulliau mwyaf poblogaidd o gyfathrebu, yn enwedig ar gyfer cyfathrebu â rhieni. Mae'n fy synnu bod rhai sefydliadau yn dal heb sylweddoli pwysigrwydd y dull cyfathrebu pwerus hwn. Felly, hoffwn achub ar y cyfle hwn i ysgrifennu atoch a gofyn a fyddech yn fodlon derbyn unrhyw ohebiaeth gan yr ysgol dros e-bost? Byddai eich ystyriaethau a'ch sylwadau ar y mater hwn o gymorth mawr i mi.

Yn gywir,

Y Pennaeth

Enghraifft 3: Sleid PowerPoint a ddefnyddiwyd mewn cynhadledd Addysg Bellach ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed am bwysigrwydd yr iaith Gymraeg:

**From the 14th century onwards the Welsh people spoke Welsh, it**


**Was the first language of the country. Many people were monoglot Welsh speakers, today, all Welsh speakers speak at least on other language.**

**Welsh speakers in Wales also speak English and Welsh speakers in the Welsh settlement in Patagonia speak Spanish as their second language.**

**Welsh is the oldest living language in Europe, dating back at least 2500 years. However, it nearly died out in the 19th century due to belief that English was superior, and was the only language which should be used throughout the British Empire.**

**In 1847 a report was written by three English barristers who did not speak one word of Welsh between them. The report castigated Welsh culture in general, and Welsh schools in particular.**

Enghraifft 4: Holiadur i fyfyrwyr rhan amser ar ôl iddynt fynychu cwrs cyfrifiadura:



1. How many times have you used Adobe Acrobat during the last calendar year?

2. When typing a letter a I typically use:
- Word
- Adobe Acrobat
- Photoshop
- A word processor

3. The Mac operating system rarely gets infected by viruses and therefore Department of Education should only purchase Mac computers.
- Yes
- No

4. Which of the following Federal programs do you feel are the most effective in assisting students to succeed? (choose only one)
- NCLB
- SES
- ME
- FSS
- EETT

5. How do you feel about the instructor(s) of this course?

## 25.4: Beth sy'n gwneud cyflwyniad PowerPoint (neu debyg) effeithiol?

Mae defnyddio PowerPoint yn beth cyffredin bellach. Fodd bynnag, weithiau nid yw'r defnydd a wneir o PowerPoint yn effeithiol iawn er mwyn cyfleu ei neges. Dylai'r awgrymiadau canlynol eich helpu i lunio sleidiau cyflwyniadau PowerPoint effeithiol.

- **Dylech sicrhau bod y sleidiau'n edrych yn dda.** Nid yw hyn yn golygu bod angen iddynt edrych yn drawiadol - er bod lluniau neu ddarluniadau addas yn effeithiol iawn - ond mae'n golygu y dylech ddefnyddio fformat a ffurfdeip **cyson** a lliwiau darllenadwy a rhoi rhif cronolegol i bob sleid.

- Dylai'r **sleid cyntaf** nodi teitl eich cyflwyniad, y digwyddiad a'r dyddiad, ynghyd â'ch enw a'ch swydd. Dylech geisio sicrhau bod y **teitl yn fachog**, er mwyn hoelio sylw eich cynulleidfa ar unwaith.

- Dylai'r **ail sleid hoelio** sylw eich cynulleidfa ar gyfer eich cyflwyniad. Gallai gynnwys neges ganolog eich cyflwyniad neu ystyriaeth yr hoffech ei herio neu ddyfyniad perthnasol neu

ddifyr gan arweinydd yn eich maes. Gorau fyth os bydd yn ddoniol neu'n ddadleuol.

- Dylai'r **trydydd sleid** nodi strwythur eich cyflwyniad. Gall y strwythur gynnwys o leiaf dair thema rydych yn bwriadu eu harchwilio.

- Dylai pob thema gynnwys nifer fach o sleidiau. Eto, gellir tybio y byddai tri sleid ar gyfer pob thema yn briodol. Ni fydd llai na dau yn ddigon sylweddol i fod yn thema ar wahân; os bydd gennych fwy na phump mae'n debyg y dylid ei rannu'n ddwy thema.

- **Dylai pob sleid gael pennawd clir.** Yn aml, mae cwestiwn yn ffordd dda o hoelio sylw - ond os felly, dylech sicrhau eich bod yn ateb y cwestiwn yng nghorff y sleid.

- Dylai pobl sleid gynnwys **tua 25-35 o eiriau** fel arfer, oni fydd yn ddyfyniad (lle gallech ddefnyddio mwy) neu'n cynnwys darluniad (lle mae'n debyg y byddwch yn defnyddio llai). Bydd cynnwys gormod o eiriau yn golygu y bydd eich cynulleidfa'n cael trafferth darllen y deunydd; dim digon o eiriau ac mae'n debygol y byddwch yn edrych drwy'r sleidiau ac yn treulio gormod o amser yn clicio'r llygoden.

- Dylai pob pwynt bwled gynnwys **ymadrodd dealladwy,** yn hytrach na gair neu ddau sy'n ddiystyr ar eu pen eu hunain neu i'r gwrthwyneb frawddeg gyflawn y byddai'n well ei dweud ar lafar. **Ystyriwch y prawf hwn: dylai eich sleidiau wneud synnwyr a bod yn ddefnyddiol i rywun nad oedd yn bresennol yn eich cyflwyniad.**

- Gwnewch ddefnydd priodol o **ddelweddau**. Mae'n syniad da rhannu testun â darluniau.

- Dylai'r **sleid olaf** nodi'r holl fanylion cyswllt priodol: cyfeiriad e-bost, gwefan, tudalen Facebook a chyfeiriad Twitter neu flog os oes gennych un.

[http://www.rogerdarlington.me.uk/Presentation.html]

## UNED 26

### 26.1: Beth yw cyfathrebu'n effeithiol ar lafar?

Mae cyfathrebu'n effeithiol ar lafar yn cynnwys anfonwr a derbynnydd (neu dderbynwyr) yn trosglwyddo gwybodaeth drwy sianel gyfathrebu er mwyn i'r derbynnydd dderbyn y neges a fwriadwyd ar ei gyfer yn ei chyfanrwydd.

Gall **camddealltwriaeth** ddigwydd yn ystod unrhyw gam o'r broses gyfathrebu. Mae cyfathrebu effeithiol yn cynnwys lleihau camddealltwriaeth bosibl a goresgyn unrhyw **rwystrau i gyfathrebu** ar bob cam o'r broses gyfathrebu.

Mae **cyfathrebwr effeithiol** yn deall ei gynulleidfa, yn dewis sianel gyfathrebu briodol, yn addasu ei neges ar gyfer y sianel hon ac yn codio'r neges er mwyn lleihau'r siawns y caiff ei chamddeall gan y derbynnydd/derbynwyr. Bydd hefyd yn ceisio **adborth** gan y derbynnydd/derbynwyr ynghylch i ba raddau y caiff y neges ei deall ac yn ceisio cywiro unrhyw gamddealltwriaeth neu ddryswch cyn gynted â phosibl. Gall derbynwyr ddefnyddio **Eglurhad** a **Myfyrdod** fel ffyrdd effeithiol o sicrhau bod y neges a anfonwyd wedi cael ei deall yn gywir.

### 26.2 Pa fathau o ddulliau cyfathrebu ar lafar a geir?

Gall cyfathrebu ar lafar ddigwydd drwy sianeli cyfryngau fel y teledu a'r radio, mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb, mewn cynadleddau neu mewn sefyllfaoedd anffurfiol. **Mae'n allweddol sicrhau bod cynnwys y neges a chanlyniad disgwyliedig yr hyn sy'n cael ei gyfathrebu yn addas ar gyfer y sianel gyfathrebu.**

Trafodaeth 1

Ystyriwch yr enghreifftiau canlynol a'r dulliau cyfathrebu a ddefnyddiwyd. Dylech gyfiawnhau p'un a ydynt yn briodol.

1. Neges e-bost gan Reolwr Llinell i gyflogai: Peidiwch â dod i mewn yfory. Does dim angen i chi ddod i mewn mwyach gan fod archeb fawr wedi cael ei chanslo.
2. Sgwrs wyneb yn wyneb rhwng Cyfarwyddwr Cyllid a Rheolwr Gyfarwyddwr: Mae ein colled amcangyfrifedig eleni yn seiliedig ar ddadansoddiad ariannol a dadansoddiad ystadegol eang lle mai F (120,1) = 34.9

p< 00.5 yw'r amser ymateb cymedrig i'n harcheb.

3. Cynhadledd i 500 o bobl: Unrhyw gwestiynau am eich darpariaeth pensiwn amcangyfrifedig?

## 26.3 Sut i roi cyflwyniad effeithiol

Mae llawer o bobl yn cael trafferth yn cyflwyno gwybodaeth neu'n meddwl bod y syniad o roi araith i gynulleidfa yn arswydus. Fodd bynnag, wrth i chi wneud hyn dro ar ôl tro, bydd yn mynd yn haws. Hefyd, mae angen paratoi a chynllunio er mwyn cyfathrebu'n effeithiol ar lafar.

26.4 Sut i gynllunio ar gyfer cyflwyniad effeithiol

- Ymarfer y Cyflwyniad

Er mwyn cyflwyno'r ddelwedd fwyaf proffesiynol, mae angen i chi fod yn gyfarwydd â'ch cyflwyniad. Mae'n iawn gwyro oddi wrth y brif "sgript" yn achlysurol, ond nid yw byth yn dderbyniol rhoi cyflwyniadau dryslyd heb ffocws iddynt, neu rai sy'n dibynnu gormod ar nodiadau, neu'n cynnwys seibiau hir er mwyn i chi roi trefn ar eich meddyliau.

Mae ymarfer y cyflwyniad yn gofyn am fwy na dim ond mynd dros yr hyn y byddwch yn ei ddweud. Mae ymarfer yn cynnwys y cyflwyniad cyfan. Defnyddiwch yr un cyfarpar hefyd. Os byddwch yn defnyddio sleidiau, neu daflunydd, a bod yr ystafell y byddwch yn gwneud y cyflwyniad ynddi ar gael, ewch yno i ymarfer. A fyddwch chi'n defnyddio llygoden o bell a phwyntydd laser ar gyfer y cyflwyniad, neu ficroffon? Dylech ymarfer y cyflwyniad gan ddefnyddio'r dyfeisiau hyn.

- Peidiwch â rhoi'r cyflwyniad ar eich cof

Un peth yw ymarfer, ond ni ddylech roi'r cyflwyniad ar eich cof a'i berfformio drwy ei ddwyn i gof. Mae angen i chi gyflwyno, nid adrodd.

- Ond dim ond weithiau y dylech ddefnyddio eich nodiadau.

Gall treulio gormod o amser yn darllen nodiadau wneud i'ch cynulleidfa feddwl nad ydych wedi paratoi digon.

- Gwisgwch yn briodol.

Bydd rhai yn dweud na allwch fyth wisgo'n rhy smart ar gyfer cyflwyniad. Bydd eraill yn anghytuno. Ond bydd pawb yn cytuno na ddylech wisgo'n rhy anffurfiol. Sut i benderfynu beth sy'n briodol. Os aiff i'r pen arnoch: Gofynnwch i bobl. Mae'n rhan o wneud pethau'n iawn.

- Dewiswch gyflymder addas - peidiwch â rhuthro na mynd yn rhy araf.

Fel arfer, dylid neilltuo o leiaf 10 eiliad ond dim mwy na 100 eiliad, i bob "sleid". Os byddwch yn gweld eich bod yn treulio sawl munud ar un sleid, dylech ystyried ei rannu. (Nid ydym yn awgrymu hyn fel rheol bendant, ond yn hytrach fel arweiniad da. Yn amlwg, efallai y bydd rhai siartiau neu raffeg yn cymryd sawl munud i'w cyflwyno'n gywir.) Eto, efallai y byddent yn well fel sawl "sleid" ar wahân. Os ydych wedi gorffen gyda "sleid" - symudwch ymlaen. Peidiwch â gadael delwedd i fyny ar gyfer eich cynulleidfa ar ôl i chi symud ymlaen i bwyntiau eraill.

- Yr Adnoddau Cyflwyno

Mae llawer o adnoddau cyflwyno gwych ar gael i chi fel cyflwynydd e.e. Sleidiau, Taflunwyr LCD a DLP, Gliniaduron, paneli LCD, Fideo, Amlgyfrwng, Sain, Pwyntyddion Laser, Microffonau Llabedi, Uwchdaflunwyr, Argraffwyr ansawdd ffotograff, Argraffwyr posteri...

Penderfynwch ar eich anghenion cyfathrebu, yr amgylchedd cyflwyno, a dewiswch y grŵp cywir o gyfarpar i gyfleu eich neges.

- Deunyddiau Cymorth Creu

Gwych, rydych wedi paratoi cyflwyniad ardderchog. Roeddech yn edrych yn dda a gwnaeth eich cynulleidfa ymateb yn gadarnhaol. Ni allai fod wedi mynd yn well, felly beth sy'n bod?
Mae sawl aelod o'r gynulleidfa yn dychwelyd i'w sefydliadau. Maent yn rhoi sesiwn friffio i'w rheolwr, ac ar ôl dau gwestiwn mae'n amlwg eu bod wedi deall y cysyniad. Yn anffodus, mae hefyd yn amlwg nad oes ganddynt unrhyw fanylion. Pam? Dim dogfennau/taflenni neu ddogfennau/taflenni gwael.
Pan fydd holl ddarnau eraill y jig-so yn eu lle, peidiwch â chyfyngu ar barhad eich neges drwy beidio â defnyddio'r deunyddiau cymorth cywir.

26.5 Awgrymiadau ar gyfer cyfathrebu'n effeithiol

**Cofiwch: nid oes angen siaradwr gwych i roi araith wych** - gallwch chi lwyddo. Ystyrir mai Winston Churchill oedd un o'r siaradwyr gorau erioed yn y Saesneg, ond roedd yn difaru na chafodd ymarfer siarad cyhoeddus gan nad aeth i'r brifysgol. Hefyd roedd ganddo nam bach ar ei leferydd ac atal dweud. Mae paratoi yn allweddol.

Dylid **paratoi yn drylwyr** wythnosau cyn rhoi araith dda. Dylech fod wedi meddwl am themâu a phwyntiau, gan nodi syniadau a ffynonellau, llunio ymadroddion a brawddegau.

**Mae'r areithiau gorau yn dweud pethau wrth eich cynulleidfa nad oeddent yn ei wybod a/neu'n rhoi dealltwriaeth o'r newydd iddynt.** Felly:

- O ystyried y pwynt cyntaf, dylech ymchwilio i ffeithiau a ffigurau amlwg, cywir a chyfoes.
- Mewn perthynas â'r ail bwynt, edrychwch ar y pwnc mewn ffordd wahanol - meddyliwch 'y tu allan i'r blwch'.

Dylech fod wedi gorffen y nodiadau neu'r testun neu'r sleidiau o leiaf ddiwrnod ymlaen llaw, fel y gallwch ganolbwyntio ar ddarllen drwy'r deunydd, dod yn gyfarwydd ac yn gyfforddus ag ef, a meddwl am y dull cyflwyno.

Pan fyddwch yn cael eich galw i wneud eich araith, arhoswch am funud neu ddau cyn dechrau eich cyflwyniad. Os bydd yn rhaid i chi gerdded i fyny ar lwyfan neu i'r blaen, bydd hyn yn rhoi amser i chi gael eich gwynt atoch. **Os byddwch yn nerfus am siarad, bydd yn rhoi amser i chi gael eich gwynt atoch a thawelu'r nerfau hynny.** Bydd yn rhoi cyfle i'r gynulleidfa setlo a chanolbwyntio arnoch chi a'ch neges. Ond dim ond am ychydig eiliadau y dylech oedi.

Dylech gyfleu **ymdeimlad o frwdfrydedd** tuag at y pwnc. Bydd hyn yn effeithio ar eich dull cyflwyno a sut y caiff eich araith ei derbyn.

Yn achlysurol, dylech addasu cyflymder, uchder a goslef eich cyflwyniad. Mae siarad yn arafach neu'n gyflymach ac yn dawelach neu'n uwch a bod yn fwy hwyliog neu ddifrifol yn ychwanegu effaith ddramatig ac yn hoelio sylw eich cynulleidfa.

**Dylech symud eich llygaid** o'r chwith i'r canol i'r dde ac yn ôl ac o'r cefn i'r canol i'r blaen ac yn ôl, er mwyn ymgysylltu â phob aelod o'ch cynulleidfa. Dywedodd yr actor Tom Cruise wrth gyfwelydd unwaith: "A lot of the time, what

acting is really about is meeting someone's eye" - mae'r un peth yn wir am siarad yn gyhoeddus.

**Ni ddylech fyth ymddiheuro am fod yn nerfus nac am eich deunydd.** Mae'n debyg eich bod chi a'ch araith yn well na'r hyn rydych chi'n ei feddwl ond beth bynnag, ni ddylech dynnu sylw at unrhyw wendidau yn eich dull neu gynnwys, oherwydd mae'n debyg na fydd pobl yn sylwi arnynt.

**Peidiwch ag agor mewn ffordd ddryslyd.** Does dim yn waeth na siaradwr sy'n dechrau gyda rhywbeth fel: "Pan ofynnwyd i mi siarad ar y pwnc hwn, doeddwn i ddim yn siŵr beth i'w ddweud."

Ceisiwch wneud **agoriad dramatig** sy'n hoelio'r sylw gyda'r geiriau cyntaf.

**Dylech sicrhau bod gennych strwythur clir iawn.** Un dull da yw dweud wrth eich cynulleidfa beth y byddwch yn ei ddweud, dweud wrthynt, ac yna dweud beth y gwnaethoch ei ddweud. Un strwythur da yw cysylltu'r brif neges â thri phwynt cysylltiol, y gellir eu rhannu ymhellach os bydd angen.

**Dylech orffen gyda datganiad cryf, cadarnhaol,** o bosibl gan gyfeirio'n ôl at y frawddeg neu'r cwestiwn agoriadol (nodwch faint o sgriptiau ffilm sy'n gorffen gydag amrywiad o linell o ddechrau'r ffilm).

["Speeches That Changed the World" gyda chyflwyniad gan Simon Sebag Montefiore (Quercus, 2005)]

### Gweithgaredd Unigol 1

Cynlluniwch a rhowch gyflwyniad i gynulleidfa gan ddefnyddio'r cyngor uchod. Eich pwnc yw pa un eitem yr hoffech ei roi yn Room 101 a pham.

## Gwiriad Cynnydd 6

**Termau allweddol:**

| Tymor | Diffiniad | Pa mor hyderus ydw i fy mod i'n deall ac yn defnyddio'r term hwn? | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Hyderus iawn | Rhywfaint yn hyderus | Ddim yn hyderus iawn |
| Cyfathrebu | | | | |
| Sianel gyfathrebu | | | | |
| Rhwystrau i gyfathrebu | | | | |

| Rwyf wedi dysgu sut i: | Pa mor hyderus ydw i wrth wneud hyn? | | |
|---|---|---|---|
| | Hyderus iawn | Rhywfaint yn hyderus | Ddim yn hyderus iawn |
| Cyfleu gwybodaeth yn effeithiol mewn fformat ysgrifenedig | | | |
| Deall beth sy'n gwneud PowerPoint yn effeithiol | | | |
| Gallu gwerthuso effeithiolrwydd dogfennau ysgrifenedig | | | |
| Rhoi cyflwyniad effeithiol ar  lafar | | | |

**Cymhwyso Sgiliau a Gwybodaeth:**

**Rwyf wedi mwynhau:**

**Gallaf gymhwyso'r dysgu hyn at:**

## Therapi amgen 1: Therapi wrin

Ar gyfer y rhan fwyaf o'r 20fed ganrif, heb yn wybod i'r cyhoedd, mae meddygon ac ymchwilwyr meddygol wedi bod yn cynnal profion labordy a chlinigol i ddangos bod ein hwrin yn ffynhonnell enfawr o faethynnau, fitaminau, hormonau, ensymau a gwrthgyrff hollbwysig na ellir eu dyblygu na'u cael o unrhyw ffynhonnell arall. Maent yn defnyddio wrin i wella canser, clefyd y galon, alergeddau, clefydau awto-imiwn, diabetes, asthma, anffrwythlondeb, heintiau, clwyfau ac ati - ac eto cawn ein haddysgu bod wrin yn gynnyrch gwastraff gwenwynig. Mae'r anghysondeb hwn rhwng y gwirionedd meddygol a'r wybodaeth gyhoeddus ynghylch wrin yn wirion ac, fel y mae'r datganiadau i'r wasg rydych newydd eu darllen yn dangos, gall olygu'r gwahaniaeth rhwng byw a marw i chi a'ch anwyliaid.

Pan gefais glefyd andwyol, anwelladwy yn gynnar yn fy mywyd, defnyddiais bob dull meddygol confensiynol a dull gwella amgen oedd ar gael dros lawer o flynyddoedd heb unrhyw lwyddiant. Pan awgrymodd cydnabod i mi y dylwn roi cynnig ar "therapi wrin" roeddwn i'n credu ei bod hi wedi colli ei phwyll, ond gan nad oedd unrhyw ddewisiadau eraill, penderfynais beidio â bod yn rhagfarnllyd a rhoi cynnig arni. Er syndod i mi (ac i bawb arall), bu'r gwellhad mor sydyn ac mor gadarnhaol gyda therapi wrin fel nad oedd unrhyw amheuaeth gennyf bellach nad oedd rhywun yn y gymuned feddygol yn gwybod mwy nag yr oeddent yn ei ddweud am y sylwedd corff anhygoel hwn. Ac a dweud y gwir, roeddent yn gwybod mwy - llawer mwy.

Er enghraifft, y meddyg a ddywedodd fod "urine acts as an excellent and safe natural vaccine and has been shown to cure a wide variety of disorders including hepatitis, whooping-cough, asthma, hay fever, hives, migraines, intestinal dysfunctions, etc. It is completely safe and causes no side effects." (J. Plesch, M.D., Y Wasg Feddygol, 1947); neu'r oncolegydd a ddywedodd fod "a patient with intractable ovarian cancer was treated with Human Urine Derivative and is now completely well and enjoying the rest of her life." (Dr. M. Soeda, Prifysgol Tokyo, 1968). Cyhoeddwyd y canfyddiadau rhyfeddol hyn mewn cyfnodolion meddygol - ond a glywsoch amdanynt erioed?

A beth am yr imiwnolegydd a ddywedodd, ar ôl ymchwil labordy a chlinigol helaeth: "It was rapidly appreciated that undiluted urine administered orally was therapeutically effective for Immune Therapy and was initiated when it became obvious that an allergic condition had become uncontrollable." (Dr. C.W. Wilson, 1983, Ysbyty'r Gyfraith, yr Alban. Neu'r ymchwilwyr meddygol o Harvard a wnaeth ganfod bod "antibodies to cholera, typhoid, diphtheria, pneumonia, polio, leptospira and salmonella have been found in the unconcentrated urine of infected individuals." (Lerner, Remington & Finland, Ysgol Feddygol Harvard, 1962). Beth am yr ymchwilydd Sgandinafaidd a brofodd yn derfynol yn 1951, y gall wrin dynol ddinistrio twbercwlosis yn llwyr? Er gwaethaf yr hyn y mae'r cyhoedd wedi cael ei arwain i gredu am wrin, mae cwmnïau fferyllol wedi ennill biliynau o ddoleri drwy werthu cyffuriau wedi'u gwneud o ansoddion wrin. Enillodd Pergonal, cyffur ffrwythlondeb wedi ei wneud o wrin dynol $855 miliwn mewn gwerthiannau yn ôl y sôn, ac mae'r gwerthiannau ($1400 y mis fesul claf) wedi

cynyddu bob blwyddyn. Defnyddir Urokinase, cynhwysyn wrin, ar ffurf cyffur ac fe'i gwerthir fel "toddydd clotiau gwaed gwyrthiol" i ddadflocio rhydwelïau coronaidd.

Pan edrychwch ar y ffeithiau go iawn, yr unig beth sy'n waeth na'r ymgyrch i beidio â hysbysu'r cyhoedd am wrin yw eironi'r ffaith ein bod, yn ddiarwybod i ni, yn talu arian mawr i brynu rhywbeth sydd yn ei barn ni yn gynnyrch gwastraff o'n cyrff sy'n dda i ddim ac yn ffiaidd.

**Ffynhonnell: http://all-natural.com/urine.html May 12, 2015**

## Therapi amgen 2: Therapi grisial

Mae therapi grisial yn seiliedig ar y cynsail y gall grisialau, mewn un ystyr, gyfathrebu â'r egni sy'n llifo o amgylch y corff dynol. Ar lefel microsgopig mae



grisial yn rhwydwaith o batrymau geometrig ailadroddus sy'n cynnwys ïonau, atomau a moleciwlau. Yn ôl therapi grisial, mae gan bob grisial ei lwyth electromagnetig unigryw ei hun. Tybir bod y llwythi hyn neu 'ddirgryniadau iachaol' yn rhyngweithio â chanolfannau egni'r corff i ddileu 'rhwystrau' ac adfer llif iach drwy'r corff a'r meddwl. Mae therapyddion grisial yn dewis grisialau yn ofalus ar gyfer pob claf unigol gan y credir bod gan bob un bŵer iachau unigryw. Yna mae therapyddion grisial yn rhoi'r grisial a ddewiswyd ar rannau gwahanol o'r corff ar ffurf patrwm tebyg i grid sydd â'r nod o ysgogi egni.

Mae'r defnydd o grisialau yn dyddio'n ôl i oes hynafol yr Eifftiaid. Er eu bod yn aml yn defnyddio cerrig gwerthfawr ar gyfer gemwaith a chosmetigion, maent hefyd yn eu defnyddio at ddibenion diogelu ac iechyd, fel defnyddio topas i gael gwared ag ysbrydion aflan.

Daw'r gair 'grisial' o'r gair Groegaidd am iâ, oherwydd y gred bod cwarts clir yn ddŵr a oedd wedi ei rewi mor ddwfn fel y byddai'n aros yn solet am byth. Mae gan lawer o grisialau poblogaidd eraill enwau o darddiad Groegaidd, er enghraifft roedd 'Amethyst' sy'n golygu 'heb feddwi' yn cael ei gario neu ei wisgo i atal meddwdod. Roedd yn hysbys hefyd fod milwyr Groegaidd yn cysylltu Haearn â Mawrth, y duw rhyfel a byddent yn rhwbio hematid dros eu cyrff cyn mynd i ymladd am eu bod yn credu y byddai hynny yn eu gwneud yn rhyfelwyr gwell.

Yn ogystal â chwarae rôl ganolog yn y diwylliannau uchod, mae grisialau hefyd wedi chwarae rhan mewn sawl crefydd a ffydd ac mae sôn amdanynt yn y Beibl a'r Corân. Yn y Corân, disgrifir y bedwaredd nefoedd fel un sydd wedi ei gwneud yn gyfan gwbl o arned. Dywedir bod y Goeden Kalpa sy'n cynrychioli offrwm i'r duwiau mewn Hindŵaeth wedi'i gwneud yn gyfan gwbl o emau gwerthfawr a disgrifiodd testun Bwdaidd orsedd ddiemwnt ger y Goeden Wybodaeth.

Yn lle ceisio diagnosio unrhyw broblemau corfforol a allai fod gennych, bydd therapydd grisial yn ceisio asesu cyflwr eich awra yn gyntaf cyn dewis nifer o risialau wedi'u cynllunio i adfer ei gydbwysedd. Mae awra yn ddeilliad anweladwy y credir ei fod yn amgylchynu corff pob unigolyn. Mae ein hawrâu yn ôl pob tebyg yn ymwneud â'n cyfansoddiad emosiynol, meddyliol ac ysbrydol, sy'n golygu, pan fyddwn yn iach, y bydd yr egni sy'n llifo drwy ein cyrff yn glir a chytbwys. Os bydd rhywbeth yn digwydd yn ein bywydau i anghydbwyso hyn - fel anhwylder corfforol neu broblem feddyliol - yna bydd hyn yn arwain at rwystr a allai amlygu ei hun yn y pen draw fel salwch corfforol.

Ffynhonnell: http://www.therapy-directory.org.uk/articles/crystal-therapy.html

## Therapi amgen 3:  Astroleg

Astroleg yw ymgais ddyneiddiol i geisio deall y cylchoedd a rannwn â'r grymoedd yn y Bydysawd. Mae gan y planedau reolaeth gyfatebol dros rai fitaminau, mwynau, halwynau celloedd, perlysiau, metalau, lliwiau a rhannau o'r corff. Drwy'r siart, gallwch weld pa gyflyrau iechyd genedigol sy'n bodoli. Drwy'r gwirebau hyn, gallwn wedyn edrych ar y presennol ac i'r dyfodol i weld pa feysydd o'n bywydau yr effeithir arnynt a sut y gallwn o bosibl atal salwch a hybu iechyd gwell.
Ffynhonnell: http://www.allabouthealth.co.za/fulllistings?catid=6

Datgelodd pôl piniwn Gallup yn 2005 a gynhaliwyd yn UDA fod 28% o ferched yn credu mewn astroleg, o gymharu â 23% o ddynion. Yng Nghanada, roedd 33% o ferched yn credu ynddi. At hynny, mae astudiaeth newydd gan y Sefydliad Gwyddoniaeth Cenedlaethol yn dangos bod mwy na 40% o Americaniaid yn credu bod astroleg yn wyddoniaeth, y lefelau uchaf ers 1983.

Ffynhonnell: http://www.astrology.co.uk/news/astrostats.htm

## Ymateb 4: Therapi Ymprydio

Yn ôl Chris Woollams o CANCERactive, gall ymprydio a chyfyngu ar galorïau arafu a hyd yn oed atal twf canser a thiwmorau, gall ladd celloedd canser a gwella effeithiolrwydd cemotherapi a radiotherapi yn sylweddol. Dangoswyd hefyd fod ymprydio yn gwella'r system imiwnedd ac yn lleihau sgîl-effeithiau cemotherapi. Mae ymprydio am dri i bum diwrnod yn rhywbeth i'w ystyried o ddifrif pan fydd rhywun yn cael cemotherapi.
Mae canolfannau canser arweiniol ac arbenigwyr fel Dr Valter Longo o Brifysgol De Califfornia, yr Athro Thomas Seyfried o Boston, Dr Dominic D´Agostino, Athro Cynorthwyol ym maes Ffarmacoleg Folecwlaidd, Prifysgol De Fflorida, a Sefydliad Max-Plank hefyd yn dangos y gall ymprydio chwarae rhan therapiwtig bwysig wrth drin canser.
Ffynhonnell: http://www.canceractive.com/cancer-active-page-link.aspx?n=3408

## Therapi amgen 5: Reiki

Reiki (ray-key) yw'r gair Japaneeg am egni bywyd cyffredinol ac mae hefyd yn air a ddefnyddir i ddisgrifio system o wella'n naturiol. Sefydlwyd y traddodiad hwn gan Mikao Usui ar ddechrau'r 20fed ganrif a datblygodd o ganlyniad i'w ymchwil, ei brofiad a'i ymroddiad.  Rydym yn byw mewn byd o egni sy'n maethu ac yn cynnal pob peth byw. Pan fydd yr egni hwn yn llifo'n ddi-dor mae cydbwysedd a harmoni oddi mewn i ni ac o'n hamgylch ac rydym yn profi ymdeimlad o les. Mae sawl math o Reiki, ond yn y bôn gall triniaethau Reiki helpu'r corff yn emosiynol neu'n ysbrydol. Mae'n draddodiad sy'n agored i unrhyw system o gredu. Mae triniaeth Reiki yn broses y gall pawb ei mwynhau yn ystod eu bywyd. Gellir defnyddio Reiki ochr yn ochr â thriniaethau confensiynol neu ategol eraill ac yn aml mae'n helpu i ddarparu cymorth emosiynol wrth wella. Caiff yr arfer ei addysgu gan feistri/athrawon Reiki sydd wedi cael eu hyfforddi yn y traddodiad a drosglwyddwyd iddynt neu a ddysgwyd i'r myfyriwr gan y meistr.

Mae'r dull o dderbyn Reiki yn syml. Mae'r derbynnydd yn gorwedd ar soffa yn ei ddillad neu'n eistedd ar gadair ac yn ymlacio. Mae'r ymarferydd yn rhoi ei ddwylo'n dyner ar y corff neu'n agos ato mewn cyfres o safleoedd anymwthiol. Nid yw'n tylino nac yn trafod y corff. Caiff yr unigolyn cyfan ei drin yn lle rhannau penodol. Gall y sesiynau gymryd 45 munud i awr a hanner, yn dibynnu ar anghenion y cleient.

Mae pob un yn profi Reiki mewn ffordd wahanol yn dibynnu ar ei anghenion unigol ar y pryd. Gall cleientiaid deimlo rhywbeth neu beidio yn ystod triniaeth Reiki. Mae'r buddiannau a gofnodwyd gan dderbynwyr yn cynnwys ymlacio'n ddwfn gan greu ymdeimlad tawel, heddychlon o les ar bob lefel. Bydd rhai pobl yn teimlo gwres, yn teimlo fel petai ganddynt binnau bach, neu'n gweld lliwiau, a bydd eraill yn cael ymateb emosiynol, sy'n awgrymu bod rhywbeth yn newid, a fydd yn arwain at adfer cydbwysedd.

Cynhaliodd Gulak (1985), a oedd yn iachawr, astudiaeth ar ei gleifion gan fesur lefelau pryder cyn ac ar ôl triniaeth Reiki. Cafodd 76 o gleifion driniaethau 15 munud, ac aseswyd eu lefelau pryder 14 diwrnod cyn y driniaeth a 21 diwrnod yn dilyn y driniaeth gan ddefnyddio holiadur arbenigol. Dangosodd y dadansoddiadau ystadegol gwahanol fod y lleihad mewn pryder yn sylweddol.

Ffynhonnell: [http://www.reikiassociation.net/what-is-reiki.php](http://www.reikiassociation.net/what-is-reiki.php)

# Therapi amgen - Manteision ac Anfanteision

## MANTEISION

**Dull holistaidd:** Seilir therapïau amgen ar drin yr unigolyn cyfan. Maent yn canolbwyntio ar wella achos y clefyd gan fynd i'r afael ag iechyd ysbrydol ac emosiynol y claf yn ogystal â'r corff ei hun. Mae llawer o therapïau yn annog unigolion i fyw bywyd iach a chael triniaethau i atal clefydau cyn iddynt ddigwydd, yn ogystal â bod yn ddefnyddiol pan fydd rhywun yn sâl.

**Sylw personol:** Caiff meddyginiaethau confensiynol eu cynhyrchu fel y gall pawb yn y byd eu defnyddio ond mae meddyginiaethau amgen yn cael eu personoli i ddiwallu anghenion y claf unigol. Mae meddyginiaethau amgen o natur unigryw ac felly fe'u cynllunnir yn ôl anghenion y claf unigol.

**Yn lleihau straen:** Mae straen yn ffactor pwysig sy'n lleihau imiwnedd y corff ac yn gwneud rhywun yn wan. Mae meddyginiaethau modern yn credu bod straen yn rhan o fywyd ac felly nid ydynt yn ystyried straen wrth geisio gwella unrhyw anhwylder.

**Rhad:** Mae therapïau amgen yn defnyddio perlysiau amrywiol i drin yr anhwylderau. Mae'r perlysiau ar gael yn naturiol ac nid oes angen gwneud unrhyw ymchwil i'w datblygu ac felly maent gryn dipyn yn rhatach na'r meddyginiaethau modern.

**Llai niweidiol:** Ni all meddyginiaethau confensiynol na gwrthfiotigau wahaniaethu rhwng y bacteria buddiol a'r feirws a'r bacteria a all achosi niwed ac o ganlyniad maent yn cael gwared ar y bacteria buddiol sydd yn y corff. Caiff therapïau amgen eu strwythuro i ddinistrio'r bacteria a'r feirysau sy'n achosi niwed.

## ANFANTEISION

**Ddim yn hollol ddibynadwy:** Gellir defnyddio therapïau amgen i ategu eich triniaeth gonfensiynol ar gyfer afiechydon difrifol. Fodd bynnag, gall ymdrechion i drin afiechydon difrifol â therapïau amgen eu gwaethygu. Mae'n bwysig addysgu eich hun gyda'r holl opsiynau sydd ar gael a gwneud penderfyniadau wedyn sy'n iawn i chi.

**Proses hirfaith:** Gellir gweld canlyniadau ar unwaith fel arfer os defnyddir meddyginiaethau confensiynol. Mae'r rhan fwyaf o'r therapïau amgen yn seiliedig ar yr egwyddor o ddileu'r broblem o'i gwraidd, ac felly mae'n cymryd mwy o amser i wella'r broblem.

**Angen ymroddiad:** Mae therapïau amgen yn cymryd mwy o amser i wella ond hefyd mae angen bod yn ymroddedig a disgybledig iawn i newid arferion bwyta neu ffordd o fyw i ddangos canlyniadau cadarnhaol.

**Ymchwil gyfyngedig:** Nid yw'r rhan fwyaf o'r therapïau amgen wedi cael eu profi'n wyddonol na'u cymeradwyo gan unrhyw gorff llywodraethol.

**Ffynhonnell:**
http://www.medimanage.com/my-worries/more-articles/alternative-medicines-pros-and-cons.aspx

## Gweithgaredd

1. Ar gyfer pob therapi amgen a gyflwynir, trafodwch hygrededd yr honiadau, gan gynnwys y dystiolaeth a gyflwynwyd i ategu'r honiadau.
2. Pa therapi amgen yw'r un mwyaf darbwyllol o ran cryfder y ddadl a gyflwynwyd?
3. Ar ffurf ysgrifenedig, amddiffynnwch neu gwrthodwch y syniad o therapïau amgen. Dylech lunio dadl gyda chasgliad clir, rhesymau lluosog a thystiolaeth gredadwy.
4. Ar gyfer pob therapi amgen a gyflwynir, ystyriwch ffynonellau posibl buddiant personol.

# Ymateb 1: Dan Goldstein - Monosanto



Noda Dan Goldstein, Rheolwr Gyfarwyddwr ac uwch gymrawd gwyddoniaeth yn Monsanto, cwmni amaethyddiaeth sy'n gyfrifol am gyfran fawr o gnydau a addaswyd yn enetig ledled y byd: **"Dyma'r bwydydd a brofir fwyaf trylwyr ar y farchnad**." Mae llawer o fuddiannau eraill hefyd:

1. **Mwy o fwyd:** Gall y planhigion hyn helpu ffermwyr i roi hwb i'w cynnyrch drwy wneud cnydau a all oroesi sychder neu oerni a chlefydau. Mae cefnogwyr yn dweud y byddai cynhyrchion a addaswyd yn enetig yn eich helpu i fwydo'r 2 biliwn ychwanegol o bobl a fydd ar y blaned hon erbyn 2050. "Byddai peidio â defnyddio'r rhain yn ein gwthio yn ôl 40 i 50 o flynyddoedd o ran y diwydiant cynhyrchu bwyd," meddai Kent Bradford, PhD, athro gwyddorau planhigion uchel ei barch a chyfarwyddwr y Ganolfan Biotechnoleg Hadau ym Mhrifysgol Califfornia.

2. **Llai o straen ar yr amgylchedd:** Mae cefnogwyr yn dweud ei bod defnyddio gwyddoniaeth i wneud y newidiadau yn well i'r blaned na dulliau ffermio hŷn. Mae cnydau a adeiladwyd i wrthsefyll plâu yn lleihau angen ffermwyr am blaladdwyr cemegol gwenwynig, meddai Goldstein. Maent hefyd yn golygu bod angen trin llai o bridd, maent yn lleihau dŵr ffo ac yn cadw'r pridd yn ei le.

3. **Cynhyrchion gwell:** Gall gwyddonwyr greu cnydau sy'n cynnwys maethynnau hanfodol. Creodd ymchwilwyr o'r Swistir fath o reis "euraid" sy'n cynnwys lefelau uchel o beta-carotene. Cynhyrchodd Monsato ffa soia sy'n cynnwys lefelau uchel o asidau brasterog omega-3 sy'n dda i'r galon. Gellir gwneud i gnydau eraill, fel papaya a casssava, wrthsefyll clefydau. "Mae llwydni sy'n digwydd yn naturiol (os na fyddwn yn eu hatal drwy greu cnydau a addaswyd yn enetig) yn peri risg anferth i iechyd," meddai Bradford. "Pam gwrthod technoleg sydd â'r potensial i fod o fudd i gymaint o bobl ledled y byd?"

**"Os ydych wedi bwyta heddiw, mae'n debygol eich bod wedi cael bwyd y mae gwyddoniaeth yn ogystal â byd natur wedi ei gyffwrdd. Mae hyd at 80% o fwydydd wedi'u prosesu yn yr U.D. yn cynnwys rhywbeth sydd wedi'i newid gan ddyn o'r ffordd y byddai'n tyfu'n naturiol".**

Ffynhonnell: [http://www.webmd.com/food-recipes/truth-about-gmos](http://www.webmd.com/food-recipes/truth-about-gmos)

## Ymateb 2: Sefydliad Iechyd y Byd

Darn o Adroddiad:

Bwydydd sy'n deillio o organebau y mae eu gwneuthuriad genetig (DNA) wedi cael ei addasu mewn ffordd nad yw'n digwydd yn naturiol yw bwydydd a addaswyd yn enetig, e.e. drwy gyflwyno genyn o organeb wahanol. Mae bwydydd a addaswyd yn enetig sydd ar gael ar hyn o bryd yn deillio o blanhigion yn bennaf, ond yn y dyfodol mae'n debygol y caiff bwydydd sy'n deillio o ficro-organebau neu anifeiliaid a addaswyd yn enetig eu cyflwyno ar y farchnad.

### A yw bwydydd a addaswyd yn enetig yn ddiogel?

Mae organebau gwahanol a addaswyd yn enetig yn cynnwys genynnau gwahanol a gaiff eu cynnwys mewn ffyrdd gwahanol. Mae hyn yn golygu y dylid asesu bwydydd unigol a addaswyd yn enetig a'u diogelwch fesul achos ac nad yw'n bosibl gwneud datganiadau cyffredinol ar ddiogelwch pob bwyd a addaswyd yn enetig. Mae bwydydd a addaswyd yn enetig sydd ar gael ar y farchnad ryngwladol ar hyn o bryd wedi pasio asesiadau diogelwch ac nid yw'n debygol y byddant yn peri risg i iechyd pobl. Hefyd, ni welwyd unrhyw effeithiau ar iechyd pobl o ganlyniad i'r ffaith bod y boblogaeth gyffredinol yn y gwledydd lle cawsant eu cymeradwyo wedi bwyta bwydydd o'r fath. Dylai cymhwyso asesiadau diogelwch sy'n seiliedig ar egwyddorion y Codex Alimentarius yn barhaus, a, lle y bo'n briodol, monitro ôl-farchnad digonol, fod yn sail ar gyfer sicrhau diogelwch bwydydd a addaswyd yn enetig.

Mae hyder defnyddwyr yn niogelwch cyflenwadau bwyd yn Ewrop wedi gostwng yn sylweddol o ganlyniad i nifer o bryderon ynghylch bwydydd a gododd yn ystod ail hanner y 1990au ond nad ydynt yn gysylltiedig â bwydydd a addaswyd yn enetig. Cafodd hyn effaith hefyd ar drafodaethau ynghylch derbynioldeb bwydydd a addaswyd yn enetig. Mae defnyddwyr wedi cwestiynu dilysrwydd asesiadau risg, o ran risgiau i iechyd defnyddwyr ac i'r amgylchedd, gan ganolbwyntio'n benodol ar effeithiau hirdymor. Mae pynciau eraill a drafodwyd gan sefydliadau defnyddwyr wedi cynnwys alergenigrwydd ac ymwrthedd gwrthficrobial. Mae pryderon gan ddefnyddwyr wedi arwain at drafodaeth ar ddymunoldeb labelu bwydydd a addaswyd yn enetig, gan alluogi defnyddwyr i wneud dewis hyddysg.

Ffynhonnell: http://www.who.int/foodsafety/areas_work/food-technology/faq-genetically-modified-food/en/

## Ymateb 3: Erthygl mewn cylchgrawn gwyddonol



Yn ddiweddarach eleni, gall Adran Amaethyddiaeth yr U.D. gymeradwyo'r Arctic Granny a'r Arctic Golden, yr afalau cyntaf a addaswyd yn enetig i gael eu cyflwyno ar y farchnad. Ni fyddant yn brownio. Er mwyn gwneud afalau Arctic, cymerodd biolegwyr enynnau o'r amrywiadau Granny Smith a Golden Delicious, a'u haddasu er mwyn atal yr ensym sy'n achosi i afalau frownio, a'u hailosod ym meinwe'r afal. Mae'n llawer mwy cywir na dulliau traddodiadol, sy'n cynnwys bridwyr yn peillio blodau â llaw yn y gobaith o gynhyrchu ffrwythau â'r nodwedd ddymunol. Mae biolegwyr hefyd yn cyflwyno genynnau er mwyn galluogi planhigion i wrthsefyll plâu a chwynladdwyr; y nodweddion hynny yw'r rhai amlycaf yn y 430 miliwn a mwy o aceri o gnydau GMO sydd eisoes wedi cael eu plannu ledled y byd. Mae gwyddonwyr yn gweithio ar amrywiadau sy'n goroesi clefydau, sychder a llifogydd.

Dros y degawd diwethaf, mae'r dadlau ynghylch GMOs wedi arwain at derfysg ledled y byd gyda chnydau yn cael eu fandaleiddio. Ym mis Mai, llofnododd llywodraethwr Vermont gyfraith a fydd, mae'n debyg, yn golygu mai Vermont yw'r dalaith gyntaf yn yr U.D. i'w gwneud yn ofynnol i gynnwys labeli ar gyfer cynhwysion a addaswyd yn enetig a nododd: "Fel defnyddwyr, rydym yn destun arbrawf, am nad ydym wir yn deall y canlyniadau."
Mae llawer o bobl yn poeni bod peirianneg enetig yn cyflwyno proteinau peryglus, yn enwedig alergenau a gwenwyn, i'r gadwyn fwyd. Mae'n bryder rhesymol: Yn ddamcaniaethol, mae'n bosibl i enyn newydd gynhyrchu protein sy'n annog adwaith imiwnedd. Dyna pam mae cwmnïau biodechnoleg yn ymgynghori â'r Weinyddiaeth Bwyd a Chyffuriau ynghylch bwydydd GMO posibl ac yn cynnal profion alergedd a gwenwyndra trylwyr. Profion gwirfoddol yw'r rheini ond maent yn gyffredin; os na chânt eu cynnal, gall y Weinyddiaeth Bwyd a Chyffuriau rwystro'r cynhyrchion.
Honnodd un astudiaeth a ddyfynnir yn aml, a gyhoeddwyd yn 2012 gan ymchwilwyr o Brifysgol Caen yn Ffrainc, fod un o GMOs corn Monsato wedi achosi i lygod mawr labordai gael tiwmorau. Ond diystyriwyd yr astudiaeth yn eang oherwydd y dulliau profi diffygiol, a chafodd ei thynnu'n ôl gan y cyfnodolyn yn 2013. Yn fwy diweddar, cyhoeddodd ymchwilwyr o Brifysgol Perugia yn yr Eidal adolygiad o 1,783 o brofion diogelwch GMO; roedd 770 yn archwilio'r effaith ar iechyd pobl neu anifeiliaid. Ni wnaethant ganfod unrhyw dystiolaeth bod y bwydydd yn beryglus.

Ffynhonnell: [https://richarddawkins.net/2014/07/core-truths-10-common-gmo-claims-debunked/](https://richarddawkins.net/2014/07/core-truths-10-common-gmo-claims-debunked/)

## Ymateb 4: Cyfeillion y Ddaear

Mae bywyd gwyllt ar dir amaeth yn y DU eisoes wedi dirywio'n sylweddol oherwydd dulliau ffermio dwys sy'n defnyddio cemegau. Er enghraifft, caiff planhigion yr ystyriwyd eu bod yn chwyn âr 40 o flynyddoedd yn ôl bellach wedi'u rhestru yn brin a rhai yn rhywogaethau mewn perygl. Yn yr un modd, gwelwyd gostyngiad anferth yn niferoedd mwy nag 20 o rywogaethau adar yn cynnwys golfan y coed a'r fronfraith ers y 1970au. Mae pryder cyffredin y gallai'r defnydd o gnydau a addaswyd yn enetig sy'n oddefgar i chwynladdwyr waethygu'r sefyllfa.
Mae cnydau a addaswyd yn enetig sy'n oddefgar i chwynladdwyr yn galluogi ffermwyr i roi chwynladdwyr 'sbectrwm eang' ar eu caeau, sy'n lladd yr holl blanhigion eraill. Ceir pryder y bydd hyn golygu y bydd y gostyngiad mewn bywyd gwyllt ar dir amaeth yn parhau oherwydd dy gallai'r defnydd o'r cnydau hyn a addaswyd yn enetig arwain at ddileu chwyn o bob cnwd yn y cylchdro âr arferol. Bydd hyn yn golygu llai o gyflenwad bwyd i bryfetach ac adar. Yn sgil y pryderon hyn am gnydau a bwydydd a addaswyd yn enetig, nododd English Nature yn 1998 bod *"[the] untested introduction of GM crops could be the final blow for such species as the skylark, corn bunting and the linnet, as the seeds and insects on which they feed disappear."*

Ffynhonnell: http://www.foe.co.uk/sites/default/files/downloads/gm_crops_food.pdf

## Ymateb 5: Canlyniadau o bôl piniwn o'r cyhoedd yng Nghymru yn 2014

- Mae traean o'r cyhoedd o'r farn bod bwydydd wedi'u haddasu'n enetig yn ddiogel i'w bwyta
- Mae 52 y cant o'r farn bod bwydydd o'r fath yn anniogel, ac mae 13 y cant arall yn ansicr mewn perthynas â hwy
- Nododd 93 y cant y dylai'r llywodraeth gyflwyno labeli ar fwyd yn nodi p'un a yw wedi'i addasu'n enetig, neu ei "bio-beiriannu"
- Nododd 57 y cant hefyd y byddent yn llai tebygol o brynu bwydydd y labelwyd eu bod wedi'u haddasu'n enetig
- Nododd 5 y cant o'r cyhoedd y byddent yn fwy tebygol o brynu bwyd y labelwyd ei fod wedi'i addasu'n enetig, a nododd 52 y cant y byddent yn fwy tebygol o brynu bwyd y labelwyd ei fod wedi'i gynhyrchu'n organig
- Mae bwydydd a addaswyd yn enetig yn arbennig o amhoblogaidd ymysg menywod, sy'n cyflwyno problem arall i gynhyrchwyr bwyd gan fod cymaint o fenywod yn gwneud y siopa ar ran y teulu

- Mae 62 y cant o fenywod o'r farn bod bwydydd wedi'u haddasu'n enetig yn anniogel i'w bwyta, sy'n farn a rennir gan ganran llawer llai o ddynion (40 y cant)

**Wedi'i addasu o:** http://www.geneticliteracyproject.org/2015/01/29/pewaaas-study-scientific-consensus-on-gmo-safety-stronger-than-for-global-wa

## Ymateb 6: The Telegraph (dydd Iau 23 Ebrill 2015)

Mae ffermwyr o blaid tyfu cnydau a addaswyd yn enetig

Mae ffermwyr o blaid tyfu cnydau addaswyd yn enetig ym Mhrydain er gwaethaf pryderon y cyhoedd am eu diogelwch, yn ôl ymchwil newydd. Mae astudiaeth gan y Brifysgol Agored wedi canfod bod ffermwyr ac arweinwyr y diwydiant ffermio o'r farn mai technoleg addasu yn enetig yw'r unig ffordd i gynhyrchu digon o fwyd o ansawdd uchel wrth i hinsawdd y wlad newydd ac wrth i'r boblogaeth gynyddu.

Mae ffermwyr yn honni y bydd defnyddio cnydau a addaswyd yn enetig yn eu helpu i ddefnyddio llai o chwynladdwyr a phlaladdwyr tra'n cynyddu faint o fwyd y gellir ei gynaeafu. Ond mae eu safbwyntiau'n gwrthgyferbynnu â'r amheuaeth gref ymysg y cyhoedd ynghylch bwydydd a addaswyd yn enetig a'r ofnau y gallai'r genynnau a gaiff eu cyflwyno'n artiffisial mewn planhigion ddianc i'r gwyllt, gan newid planhigion naturiol.

Dywedodd yr Athro Andy Lane, a arweiniodd y gyfres o gyfweliadau a gweithdai â 50 o ffermwyr ac aelodau o sefydliadau ffermio: "Mae technoleg newydd fel addasu yn enetig yn ddeniadol i ffermwyr. Maent am gynhyrchu bwyd o ansawdd uchel gan wneud elw ac maent am ffermio mewn modd ecogyfeillgar. Gall dulliau addasu yn enetig eu galluogi i ddatrys y broblem hon." Daw'r canfyddiadau cyn lleied ag wythnos ar ôl i swyddogion y llywodraeth gadarnhau eu bod yn ystyried tyfu cnydau a addaswyd yn enetig mewn lleoliadau cyfrinachol er mwyn brwydro yn erbyn fandaliaeth a achoswyd gan ymgyrchwyr yn erbyn addasu yn enetig.

Mae cwmnïau biotechnoleg wedi rhybuddio Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig bod treialon dulliau addasu yn enetig wedi mynd yn rhy ddrud i'w cynnal ym Mhrydain. Mae arweinwyr ffermwyr hefyd yn cytuno eu bod yn dioddef wrth i wledydd eraill groesawu biotechnoleg.

Ffynhonnell: http://www.telegraph.co.uk/news/earth/earthnews/3326601/UK-farmers-want-to-grow-GM-crops.html

## Ymateb 7: Ffrwd fyw 24/7 Sianel Newyddion Rhyngwladol Ffrainc - 20/9/12

### Bwyd a addaswyd yn enetig: yr ofn diweddaraf

Mae diogelwch bwyd a addaswyd yn enetig yn cael ei gwestiynu unwaith eto, ar ôl i astudiaeth gael ei chyhoeddi yn Ffrainc yn ei gysylltu â chanser. Treuliodd yr Athro Gilles-Eric Séralini a'i dîm ddwy flynedd yn monitro llygod mawr a gafodd gorn a addaswyd yn enetig i'w fwyta drwy gydol eu bywydau. Nodwyd fod 70% o'r llygod mawr benywaidd a 50% o'r llygod mawr gwrywaidd wedi marw'n gynamserol, a datblygodd rhai ohonynt diwmorau anferth a chawsant niwed difrifol i'w hiau/afu a'u harenau.

Ffynhonnell: [http://www.france24.com/en/20120919-2012-09-19-cancer-gm-food-seralini-rats-genetically-modified](http://www.france24.com/en/20120919-2012-09-19-cancer-gm-food-seralini-rats-genetically-modified)

## Gweithgaredd

1. Eglurwch sut y defnyddiwyd arbenigedd i ddylanwadu ar ddadleuon yn o leiaf 3 o'r Ymatebion.
2. A oes unrhyw rai o'r Ymatebion yn niwtral? Dylech gyfiawnhau eich ateb.
3. Pwy sy'n fwy credadwy? Dan Goldstein neu Gyfeillion y Ddaear? Dylech gyfiawnhau eich ateb.
4. Lluniwch gyflwyniad gweledol gyda nodweddion gweledol mewn ymateb i'r cwestiwn 'A dylem hyrwyddo
5. bwydydd a addaswyd yn enetig?'

## Ymateb 1: Mam - pam mae gen i deulu mawr

Ar ôl cael ei magu mewn teulu o bedwar o blant, roedd Rhian Hunter bob amser yn gwybod ei bod am gael mwy nag un plentyn.

Roeddwn yn un o bedwar a gwyddwn fy mod am gael mwy na dau blentyn fy hun. Nid oedd dau yn teimlo’n ddigon - am fy mod wedi dod o deulu cymharol fawr fy hun mae'n siŵr. Cefais dri o blant ac yna, roedd Emily, ein pedwerydd plentyn, yn annisgwyl, ac yna cefais ddau arall ar ôl hynny. Mae chwech yn rhif hyfryd yn fy marn i. Mae gan y plant gwmni bob amser. Maent yn meithrin cyfeillgarwch ar unwaith. Yn fy marn i, mae'n eu galluogi i gael sgiliau cymdeithasol nad oes gan unig blant am fod yn rhaid iddynt rannu a pharchu oedrannau ei gilydd, er enghraifft, bydd Emily, yr ieuengaf, yn mynd i'r gwely yn gyntaf. Maent yn dysgu gan ei gilydd sut i ddelio â sefyllfaoedd drwy'r amser. Wrth gwrs, maent yn ymladd - ond maent hefyd yn cymodi ac yn dysgu sut i oddef ei gilydd. Mae plant o deuluoedd mawr yn goddef pobl yn haws yn fy marn i am eu bod wedi gorfod dysgu hynny pan oeddent yn tyfu i fyny. Un anfantais fyddai nad yw plant mewn teuluoedd mwy yn cael cymaint o sylw unigol. Ond yna ceir anfanteision yn gysylltiedig â bod yn unig blant oherwydd gall rhai ohonynt gael eu sbwylio a bydd rhai yn teimlo'n unig hefyd.

Roedd fy mam yn unig blentyn ac roedd hi'n arfer teimlo'n unig. Roedd yn ysu am gael brawd neu chwaer a ffrind. Pan fydd gennych fwy nag un plentyn byddwch yn rhoi rhwydwaith cymorth i'ch plentyn a fydd ganddo am oes. Rydyn ni'n dal i fynd ar wyliau. Rwy'n cynilo er mwyn sicrhau ein bod dal yn gallu gwneud pethau. Gall fod yn anoddach yn ariannol ond mae ffordd o gydbwyso popeth yn fy marn i. Mae'n rhaid i chi aberthu rhai pethau oherwydd allwch chi ddim cael popeth. Ond er nad ydynt yn manteisio ar sefyllfa fwy cefnog, mae eu bywyd yn fwy cyfoethog am eu bod gyda'i gilydd.

Addaswyd o: http://www.dailyrecord.co.uk/lifestyle/family-relationships/big-family-question-two-mums-4937051

## Ymateb 2: Deddfwriaeth y Llywodraeth yng Nghymru - Budd-dal plant

Taliad nawdd cymdeithasol yw **budd-dal plant** (lwfans plant) a gaiff ei ddosbarthu i rieni neu warcheidwaid plant, pobl ifanc yn eu harddegau ac mewn rhai achosion, oedolion ifanc. Yn y DU, caiff budd-dal plant ei weinyddu gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM). O fis Ebrill 2015, telir £20.70 yr wythnos ar gyfer y plentyn cyntaf (yn cynnwys y plentyn hynaf o enedigaeth luosog) a thelir £13.70 yr wythnos ar gyfer pob plentyn ychwanegol.

Ym mis Hydref 2010, cyhoeddodd y llywodraeth glymblaid rhwng y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol y byddai Budd-dal Plant yn cael ei dynnu oddi wrth aelwydydd sy'n cynnwys trethdalwr cyfradd uwch o fis Ionawr 2013. Ar ôl cryn ddadlau, diwygiwyd hyn fel y byddai unrhyw ddeiliad tŷ lle mae gan o leiaf un unigolyn incwm rhagnodedig o fwy na £50,000 yn colli Budd-dal Plant yn raddol hyd nes y byddai wedi'i golli'n llwyr erbyn i'r incwm gyrraedd £60,000. Daeth hyn i rym ar 7 Ionawr 2013.

**Ffynhonnell:** http://en.wikipedia.org/wiki/Child_benefit

## Ymateb 3: Erthygl newyddion tabloid: Rhieni'n cael eu beirniadu am gael teulu mawr



Dywedodd rhieni 11 o blant ar fudd-daliadau sy'n cyfateb i swydd gwerth £60,000 fod pobl wedi bod yn negyddol iawn tuag atynt. Mae'r rhieni 37 oed sy'n ddi-waith ac nad ydynt erioed wedi cael swyddi llawn amser yn eu bywydau, yn cael budd-daliadau gwerth £900 yr wythnos ar gyfer wyth o'r plant.
Maent hefyd yn aros i gael tŷ newydd â chwe ystafell wely gwerth hanner miliwn o bunnoedd wedi'i adeiladu ar eu cyfer. Mae'r rhieni i ddau fachgen a naw merch yn aros i symud o'u tŷ cyngor tair ystafell wely i blasty bach â chwe ystafell wely a hynny am ddim. Mae gan yr eiddo chwe ystafell wely, tair ystafell ymolchi a gardd fawr gyda sied ynddi.

**Wedi'i addasu o:** http://www.express.co.uk/news/uk/436086/Mum-of-11-on-60-000-benefits-People-talk-more-s-about-me-than-Fred-West'

## Ymateb 4: Erthygl newyddion o bapur newydd tudalennau llydan am Bolisi Un Plentyn Tsieina

**Pwy gyflwynodd y polisi un plentyn a pham?** O dan reolaeth y Cadeirydd Mao, roedd cyfradd plant Tsieina cynifer â phedwar plentyn fesul teulu ac roedd bwyd yn brin a arweiniodd at newyn. Ar ddechrau'r 1980au, penderfynodd y blaid Gomiwnyddol gyfyngu ar dwf poblogaeth Tsieina er mwyn sefydlogi cyflenwadau bwyd a dŵr a gwella ffyniant unigol. Ym mis Medi 1980, cyhoeddwyd llythyr agored gan y blaid Gomiwnyddol yn galw am reolau un plentyn fesul cwpwl er mwyn cadw'r boblogaeth o dan 1.2 biliwn ar ddiwedd yr 20fed ganrif.

**Faint o effaith gafodd hyn?** Yn ôl Gweinyddiaeth Iechyd Tsieina, mae meddygon wedi cyflawni 336 miliwn o erthyliadau a 196 miliwn o driniaethau anffrwythloni ers 1971 ac wedi gosod 403 miliwn o ddyfeisiau yn y groth. I'r gwrthwyneb, yn yr Unol Daleithiau, sydd â phoblogaeth chwarter maint poblogaeth Tsieina, cafwyd 50 miliwn o erthyliadau ers 1973. Cred swyddogion Tsieina bod y polisi un plentyn wedi gostwng y boblogaeth 400 miliwn ond cred demograffwyr sy'n nodi bod cyfraddau genedigaethau wedi gostwng ledled Asia, bod y nifer yn agosach at 100 miliwn.

**A oes unrhyw eithriadau?** Mae'r polisi wedi cynnwys clytwaith o fesurau. Mae lleiafrifoedd ethnig Tsieina, fel Uighuriaid a Thibetiaid, wedi'u heithrio. Caniateir i deuluoedd yng nghefn gwlad gael ail blentyn os mai merch oedd eu plentyn cyntaf ac yn ddiweddar mae cyplau oedd yn unig blant eu hunain wedi cael caniatâd i wneud cais i gael mwy o blant.

**Beth oedd y gosb am dorri'r polisi?** Caiff menywod eu harchwilio'n rheolaidd i weld p'un a ydynt yn feichiog, hyd yn oed ymhell i mewn i'r 40au a'u 50au. Gellir gorfodi'r rhai y canfyddir eu bod yn feichiog i gael erthyliadau a thriniaethau anffrwythloni. Mewn miliynau o achosion, mae teuluoedd wedi llwyddo i guddio plant newydd. Cofnododd cyfrifiad 1990 23 miliwn o enedigaethau ond cofnododd cyfrifiad bod 2000 nifer y plant deg oed yn 26 miliwn, sy'n awgrymu bod o leiaf dair miliwn o fabanod wedi osgoi sylw swyddogion cynllunio teuluoedd. Gall y sawl a gaiff eu dal hefyd ddewis talu "ffi fagu gymdeithasol", sydd fel arfer yn lluosrif i'r incwm cyfartalog yn y ddinas lle caiff y plentyn ei eni, wedi'i gynllunio i gwmpasu cost addysg a gofal iechyd.

**Pryd y bydd Tsieina yn stopio'r polisi un plentyn?** Mae demograffwyr wedi rhybuddio'r blaid Gomiwnyddol bod yn rhaid iddi gymryd camau cryfion i annog mwy o fabanod neu i wynebu cymdeithas sy'n heneiddio'n gyflym. Erbyn 2030, bydd chwarter poblogaeth Tsieina dros 60. Fodd bynnag, ym mis Mawrth 2008, rhagwelodd swyddogion y byddai'r polisi yn ei le am ddegawd o leiaf.
**Ffynhonnell:**
[http://www.telegraph.co.uk/news/worldnews/asia/china/11197594/What-is-Chinas-one-child-policy.html](http://www.telegraph.co.uk/news/worldnews/asia/china/11197594/What-is-Chinas-one-child-policy.html)

## Ymateb 5: Ystadegau'r Llywodraeth

- Mae'r wladwriaeth les yn rhan fawr o fywyd teuluol ym Mhrydain, gyda 20.3 miliwn o deuluoedd yn cael rhyw fath o fudd-dal (64% o'r holl deuluoedd), a thua 8.7 miliwn o'r rhain yn bensiynwyr. Ar gyfer 9.6 miliwn o deuluoedd, mae budd-dal yn fwy na hanner eu hincwm (30% o'r holl deuluoedd).
- Yn 2011, dim ond 130 o deuluoedd yn y DU oedd â 10 o blant a honnodd fod o leiaf un ohonynt yn cael budd-dal diweithdra. Dim ond 8% o hawlwyr budd-daliadau sydd â thri neu fwy o blant. Mae'r dystiolaeth a geir yn awgrymu, ar gyfartaledd, bod pobl ddi-waith yn cael niferoedd tebyg o blant o gymharu â phobl gyflogedig ... nid yw'n amlwg bod budd-daliadau yn gymhelliant sylweddol i gael plant.
- Mae ffigurau gan Eurostat yn awgrymu bod y DU yn gwario tua'r un faint â chyfartaledd yr UE ar fudd-daliadau. Mae'r DU yn gwario 12% yn llai y pen na Ffrainc a 19% yn llai na'r Almaen, ond bron ddwywaith cymaint â'r Weriniaeth Tsiec.

Wedi'i addasu o:
http://www.economist.com/blogs/blighty/2013/04/benefit-cuts

## Ymateb 6: Polisi un plentyn damweiniol Prydain

Wythnos diwethaf, cadarnhaodd yswirydd, Liverpool Victoria, yr hyn yr oedd pob rhiant (a neiniau a theidiau) ym Mhrydain wedi'i amau: mae cost magu plentyn ym Mhrydain yn cynyddu. Mae wedi cynyddu 62 y cant dros y 11 mlynedd diwethaf ac ar hyn o bryd mae'n £227,000 sy'n swm aruthrol. Ac nid yw'r swm arswydus hwn yn cynnwys unrhyw ffioedd ysgol. Ychwanegwch yr ystafelloedd gwely ychwanegol ac, yn fy achos i, byddai'n rhaid i mi ennill £50,000 dim ond i gwmpasu costau un plentyn am flwyddyn - ac mae hynny heb unrhyw foethusrwydd. Felly dau o blant? Ar hyn o bryd, mae y tu hwnt i ddychymyg.

Rai blynyddoedd yn ôl byddem yn chwerthin ar gomedi ar BBC1 o'r enw *2point4 Children* - a enwyd ar ôl maint cyfartalog teulu. Nawr mae'r fenyw gyfartalog ym Mhrydain yn cael 1.9 o blant. Yn fwyaf amlwg, dros y deng mlynedd diwethaf, mae nifer y teuluoedd un plentyn wedi cynyddu o 42 y cant i 47 y cant - sy'n awgrymu mai dyma fydd y norm cyn hir. Yn y cyfamser, mae cyfran y teuluoedd â dau neu dri phlentyn yn gostwng. Mae'r ONS yn crynhoi bod teuluoedd yn lleihau, ar gyfartaledd.
Felly a ydym yn gweld Prydain lle mae chwyddiant sylweddol ym mhrisiau tai a chostau gofal plant esgynnol yn atal atgenhedlu? A yw epilio yn foethusrwydd na allwn ei fforddio bellach? A ydym ar fin gweld teulu niwclear dau a dau yr 20fed ganrif yn dod i ben?

Yn bendant, cred Justine Roberts, sylfaenydd Mumsnet, mai rhywbeth i bobl gyfoethog yw cael teulu mawr. Gall costau gofal plant fynd â thraean o'r incwm misol, meddai, a gall gostio cymaint â'r morgais. Gall y rhan fwyaf o Lundeinwyr

anghofio am y syniad o gael tŷ mawr a theulu mawr - ond mae'r un peth yn digwydd yn ardaloedd poblogaidd Manceinion, Caeredin a Glasgow. Does dim rhyfedd bod John Lewis wedi gweld chwe gwaith yn fwy o welyau bync yn cael eu gwerthu dros y tair blynedd diwethaf.

Sut beth fydd bywyd yn y Brydain hon sy'n heneiddio ac sy'n cynnwys llai o blant? Dengys cipolwg ar arbrawf a wnaed 35 mlynedd yn ôl yn Tsieina ar reoli'r boblogaeth nad yw o reidrwydd yn newyddion da. Nododd astudiaeth a gyhoeddwyd y llynedd mewn Gwyddoniaeth straeon yn y cyfryngau Tsieineaidd bod 'Syndrom yr Ymerawdwr  Bach' i'w weld ymysg y genhedlaeth o blant a aned ers cyflwyno'r polisi un plentyn yn 1979, sydd wedi cael llawer o sylw gan bobl hŷn. Daeth yr awduron i'r casgliad bod plant y polisi hwn wedi tyfu i fod yn llai parod i ymddiried, yn llai dibynadwy, yn llai parod i gymryd risgiau, yn llai cystadleuol, yn fwy pesimistaidd ac yn llai cydwybodol'. Yn hanfodol, dywedodd y gwyddonwyr hyn nad oedd bodolaeth cefndryd a chyfnitherod a sosialeiddio yn gwneud iawn am absenoldeb brodyr a chwiorydd. Felly efallai nad dyma'r glasbrint ar gyfer cynhyrchu pobl gytbwys. Ac mae effeithiau demograffig llawer ehangach yn deillio o ddatblygiad cyflym cenhedlaeth o unig blant. Er enghraifft, mae ffenomenon 'pedwar, dau, un' Tsieina yn golygu y gall un plentyn fod yn darparu cymorth economaidd i ddau riant a phedwar nain a thaid. Mae'n eironig iawn bod cost byw yma yn gwthio Prydeinwyr dosbarth canol i'r cyfeiriad hwnnw wrth i Tsieina lacio ei rheolau. Y wers ddychrynllyd a ddysgwyd gan Tsieina yw, pan fydd pobl yn gwybod mai dim ond un plentyn y gallant ei gael, eu bod yn dewis beth maent am ei gael. Os ffafrir bechgyn, yna caiff llawer mwy o fechgyn eu geni na merched. Mae rhai astudiaethau'n nodi bod 30 miliwn o enethod 'coll', sy'n golygu dim priodferched prydferth i filiynau o ddynion sengl Tsieina. Ar gyfer y dynion hyn, y canlyniad yw stigma cymdeithasol, cyfraddau iselder uwch, alcoholiaeth ac ymddygiad mwy ymosodol. Awgrymodd rhai adroddiadau bod Cyfrifiad Cenedlaethol 2011 yn y DU wedi dangos bod y broblem o erthylu babanod o ryw benodol yn dechrau codi yma hefyd.

Ffynhonnell: http://www.spectator.co.uk/features/9127482/britains-one-child-policy/

Gweithgaredd

1. A oes unrhyw dystiolaeth o bropaganda yn yr Ymatebion uchod?
2. Ar lafar, dylech naill ai amddiffyn neu wrthod y syniad bod gan Brydain bolisi un plentyn damweiniol.
   Dylech lunio dadl gyda chasgliad clir, sawl rheswm a thystiolaeth gredadwy.
3. Pa Ymateb(ion) yw'r mwyaf niwtral?
4. Gan ddefnyddio tystiolaeth o bedair ffynhonnell o leiaf, nodwch eiriau ac ymadroddion rhagfarnllyd.
5. Pa dystiolaeth wrthgyferbyniol a gyflwynwyd? Ar ba ochr y mae'r dystiolaeth yn pwyso?
6. Ar ffurf ysgrifenedig, dylech amddiffyn neu wrthod y syniad bod y llywodraeth yn cynnig budd-dal plant.
   Dylech lunio dadl gyda chasgliad clir, sawl rheswm a thystiolaeth gredadwy.

## Ymateb 1: Coed Cadw

Mae'r Llywodraeth yn bwriadu adeiladu llinell reilffordd gyflym iawn a elwir yn High Speed 2 (HS2), gan gysylltu nifer o ddinasoedd mawr y DU.

**Cam 1**

Mae Cam un HS2 yn bwriadu cysylltu Llundain a Birmingham. Effeithir ar 27 o goetiroedd hynafol ac mae 21 o rai eraill mewn perygl o ddioddef effeithiau eilaidd fel tarfu, sŵn a llygredd.

Rydym yn deisebu'r Llywodraeth o ran effeithiau'r cam hwn. Mae ein deiseb wedi cael ei chyflwyno gyda'r nod o osgoi yn gyntaf, ac os nad yw hynny'n bosibl, leihau'r difrod i goedwigoedd a choed hynafol, a'r rhywogaethau sy'n ddibynnol arnynt.

**Cam 2**

Bydd cam dau yn ffurfio 'Y', yn rhedeg o Birmingham i Leeds a Manceinion. Mae 14 o goedwigoedd hynafol yn wynebu bygythiad o ddinistr gyda 21 o rai eraill yn cael eu hamlygu i effeithiau eilaidd.

Rydym ar hyn o bryd yn lobïo ASau sydd â choedwigoedd o fewn 200m i'r llinell arfaethedig, ac yn eu hannog i siarad o blaid eu coedwigoedd a'u coed hynafol lleol. Er mwyn helpu i osgoi colli cynefin, e-bostiwch eich AS nawr i fynegi eich pryderon.

**Effaith datblygu** Er ein bod yn gefnogol i fesurau trafnidiaeth werdd yn gyffredinol nid ydym wedi ein hargyhoeddi eto bod y llwybr rheilffordd arfaethedig hwn gan y Llywodraeth mor wyrdd ag y mae'n honni ei fod. Rydym yn ategu pryderon llawer o bobl ynghylch effaith amgylcheddol bosibl HS2. Ein prif bryder yw lefel uchel y difrod a wneir i goetir hynafol ar hyd y llwybr.

**Ffynhonnell:** https://www.woodlandtrust.org.uk/get-involved/campaign-with-us/our-campaigns/hs2-rail-link/

## Ymateb 2: Cyhoeddiad y Llywodraeth

Mae ein rheilffyrdd yn brysur iawn. Mae'r galw am deithio pellteroedd hir ar drên wedi dyblu dros y 15 mlynedd diwethaf, a rhagwelir y bydd poblogaeth Prydain yn cynyddu 10 miliwn dros y 25 mlynedd nesaf. Mae cysylltiadau trafnidiaeth da yn gwneud ein heconomi yn gryfach a'n bywydau yn haws. Mae rhwydweithiau trafnidiaeth sy'n llawn tagfeydd, yn annibynadwy ac yn cyfyngu ar gyfleoedd i deithio, ac yn cyfyngu ar dwf.

Ein nod yw buddsoddi mwy na £70 biliwn mewn pob math o drafnidiaeth erbyn 2021. Mae High Speed 2 (HS2) yn rhan o hyn, ac yn cyfrif am £16 biliwn o'r buddsoddiad hwn.

Rydym yn datblygu HS2 i roi capasiti gwell i reilffyrdd Prydain, gwella cysylltedd a sicrhau teithiau cyflymach.

Bydd HS2 yn cysylltu 8 o ddinasoedd mwyaf Prydain, gan wasanaethu 1 o bob 5 o boblogaeth y DU. Bydd yn caniatáu i fwy o deithwyr ddefnyddio trenau a mwy o weithredwyr cludo nwyddau i ddefnyddio rheilffyrdd yn lle ffyrdd.

Bydd y rheilffordd newydd yn cynyddu'r capasiti sydd ar gael yn fawr. Bydd yn treblu nifer y seddau ar drenau i mewn i Euston a bron yn dyblu nifer y trenau yr awr ar Brif Linell Reilffordd Arfordir Gorllewinol Lloegr. Bydd yn rhyddhau'r capasiti ar linellau rheilffyrdd sydd eisoes yn bodoli er mwyn creu mwy o wasanaethau i gymudwyr, mwy o wasanaethau gwledig a threnau cludo nwyddau, a bydd yn golygu llai o geir a lorïau ar ein ffyrdd, gan wella tagfeydd a lleihau carbon. Bydd y rheilffordd newydd yn gyfrwng ar gyfer twc economaidd. Bydd HS2 yn creu swyddi ac yn helpu i ailgydbwyso'r economi rhwng y gogledd a'r de. Byddwn yn adeiladu HS2 mewn dau gam. Mae disgwyl i'r gwaith adeiladu ar hyd y llinell ddechrau yn 2017 a chaiff ei gwblhau erbyn 2025. Bydd y gwasanaethau trên cyntaf yn rhedeg rhwng Llundain a Birmingham o 2026.

Rydym yn cydnabod y bydd cynllun ar raddfa HS2 yn cael effaith ar yr amgylchedd lleol ac ar gymunedau ac rydym yn ymrwymedig i leihau'r effeithiau hyn a thrin y rhai yr effeithir arnynt yn deg.

**Ffynhonnell:** https://www.gov.uk/government/policies/hs2-high-speed-rail

## Ymateb 3: Adroddiad Newyddion y BBC



Nid oes gan y llywodraeth unrhyw achos cymhellol dros wario £50bn ar adeiladu'r cyswllt rheilffordd HS2 rhwng Llundain a Gogledd Lloegr, yn ôl adroddiad gan Bwyllgor Materion Economaidd Tŷ'r Arglwyddi.

Roedd prif ddadleuon y llywodraeth o blaid HS2 - cynyddu capasiti'r rheilffyrdd ac ailgydbwyso'r economi - eto i'w profi,

meddai'r arglwyddi.

Mae opsiynau rhatach na HS2 ar gael.

Dywedodd yr Arglwydd Hollick, cadeirydd pwyllgor yr Arglwyddi, mai problem ar drenau cymudo yn bennaf ac ar wasanaethau pellteroedd hir ar nos Wener a rhai penwythnosau oedd trenau gorlawn ar Linell Reilffordd Arfordir Gorllewinol Lloegr.

"Nid yw'r Llywodraeth wedi cynnal asesiad priodol eto o b'un a yw ffyrdd amgen o gynyddu capasiti yn fwy cost-effeithiol na HS2," meddai. "O ran ail-gydbwyso, mae'n debygol mai Llundain fydd yn elwa fwyaf ar HS2. Gallai buddsoddi mewn gwella cysylltiadau rheilffyrdd yng Ngogledd Lloegr sicrhau budd economaidd mwy o lawer am gyfran is o'r gost."

Dywedodd yr Arglwydd McFall sef aelod o'r pwyllgor ac un o arglwyddi'r blaid Lafur wrth Wake Up to Money ar BBC Radio 5 Live nad oedd y pwyllgor yn erbyn HS2 mewn egwyddor, ond roedd angen i'r llywodraeth gael strategaeth drafnidiaeth gadarnhach os oedd am gyflawni ei nod o ailgydbwyso'r economi. "We're against the government initiating public projects at £50bn without adequate assessment against their objectives," meddai.

Ffynhonnell: http://www.bbc.co.uk/news/business-32041167

## Ymateb 4: Cyfeillion y Ddaear

Mae bywyd gwyllt ar dir amaeth yn y DU eisoes wedi dirywio'n sylweddol oherwydd dulliau ffermio dwys sy'n defnyddio cemegau. Er enghraifft, mae planhigion yr ystyriwyd eu bod yn chwyn âr 40 o flynyddoedd yn ôl bellach wedi'u rhestru yn rhai prin ac mae rhai yn rhywogaethau mewn perygl. Yn yr un modd, gwelwyd gostyngiad anferth yn niferoedd mwy nag 20 o rywogaethau adar yn cynnwys golfan y coed a'r fronfraith ers y 1970au. Mae pryder cyffredin y gallai'r defnydd o gnydau a addaswyd yn enetig sy'n oddefgar i chwynladdwyr waethygu'r sefyllfa.

Mae cnydau a addaswyd yn enetig sy'n oddefgar i chwynladdwyr yn galluogi ffermwyr i roi chwynladdwyr 'sbectrwm eang' ar eu caeau, sy'n lladd yr holl blanhigion eraill. Ceir pryder y bydd hyn yn golygu y bydd y gostyngiad mewn bywyd gwyllt ar dir amaeth yn parhau oherwydd y gallai'r defnydd o'r cnydau hyn a addaswyd yn enetig arwain at ddileu chwyn o bob cnwd yn y cylchdro âr arferol. Bydd hyn yn golygu llai o gyflenwad bwyd i bryfetach ac adar. Yn sgil y pryderon hyn am gnydau a bwydydd a addaswyd yn enetig, nododd English Nature yn 1998 bod *"[the] untested introduction of GM crops could be the final blow for such species as the skylark, corn bunting and the linnet, as the seeds and insects on which they feed disappear."*

Ffynhonnell:
http://www.foe.co.uk/sites/default/files/downloads/gm_crops_food.pdf

## Ymateb 5: Darn o ymgyrch cyhoeddusrwydd HS2

Disgwylir i'r Rheilffordd Cyflym Iawn arwain at fuddiannau lleol a chenedlaethol sylweddol, gan gynnwys:

- Hybu economi Gorllewin Canolbarth Lloegr £4 biliwn y flwyddyn.
- Creu 50,000 o swyddi i Orllewin Canolbarth Lloegr
- Hyd at 2,000 o swyddi gweithredol a chynnal a chadw.
- Amser teithio o 45 munud rhwng Birmingham a Llundain, o gymharu â'r amser y mae'n ei gymryd ar hyn o bryd sef 83 munud.
- Amser teithio o 38 munud rhwng Gorsaf Cyfnewidfa Birmingham a Llundain o gymharu â'r amser y mae'n ei gymryd ar hyn o bryd sef 70 munud.
- Amser teithio o 41 munud rhwng Birmingham a Manceinion (yn arfer bod yn 90 o funudau) a 57 munud rhwng Birmingham a Leeds (yn arfer bod yn ddwy awr).
- Hyd at filiwn o dunelli yn llai o garbon bob blwyddyn erbyn 2055.

Wedi ei addasu o: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/3648/hs2-decisions-and-next-steps.pdf

## Ymateb 6: Yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt

High Speed 2 (HS2) yw'r rhwydwaith rheilffordd Cyflym Iawn newydd arfaethedig ar gyfer y DU - yn cysylltu Llundain a Manceinion a Leeds drwy Birmingham. Mae'r Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt yn pryderu ynghylch yr effaith a gaiff HS2 ar y tirweddau a'r cynefinoedd a'r difrod y bydd yn ei achosi i fywyd gwyllt ac ecosystemau ar hyd y llwybr arfaethedig.

Er bod yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt yn gefnogol ar y cyfan i gynlluniau trafnidiaeth gynaliadwy - maent yn rhan bwysig o'n newid angenrheidiol i economi carbon isel - credwn na ddylid cyflawni hyn ar draul yr amgylchedd naturiol. Felly, ochr yn ochr ag eraill, rydym wedi bod yn ymgyrchu er mwyn sicrhau bod unrhyw gynllun sy'n mynd yn ei flaen yn osgoi erydu ymhellach lawer o fywyd gwyllt ac ecosystemau Lloegr sydd eisoes wedi prinhau.

Yng ngham 1 effeithir ar Saith Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (y gorau o'n llefydd gwyllt), tair gwarchodfa natur yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt, 66 o Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol a 25 o Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol arfaethedig a

bydd y llinell yng Ngham 1 yn eu difrodi neu'n eu difetha. Effeithir yn anuniongyrchol ar 92 o safleoedd bywyd gwyllt eraill.

Yng ngham 2, effeithir yn uniongyrchol ar dair gwarchodfa natur yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt, 87 o Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol a 17 o Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol arfaethedig a bydd y llinell yng Ngham 1 yn eu difrodi neu'n eu difetha.

Ffynhonnell: [http://www.wildlifetrusts.org/hs2](http://www.wildlifetrusts.org/hs2)

## Ymateb 7: Cylchgrawn My Money

**Iawndal, bond neu ddim byd o gwbl: Beth fyddech yn ei gael pe bai High Speed 2 yn mynd heibio eich tŷ?**




Gallai cannoedd o berchnogion tai sy'n byw ar hyd llwybr y rheilffordd gyflym iawn arfaethedig rhwng Llundain a Birmingham fod â hawl i gael rhyw fath o iawndal. Gallai perchnogion eiddo hawlio arian, cael bond - neu hyd yn oed gael y cyfle i werthu eu cartref a'i rentu wedyn - os caiff eu heiddo ei ddifrodi yn yr hirdymor o ganlyniad i High Speed 2.

Mae'r Adran Trafnidiaeth ar hyn o bryd yn amcangyfrif y bydd 509 o gartrefi yn gymwys i gael iawndal. Mae hyn yn cynnwys 327 y bwriedir eu dymchwel.

**Os ydych yn byw o fewn 60 metr i linell ganolog HS2...**

Gallai'r llywodraeth gytuno i brynu eich cartref os ydych am symud. Os felly, byddech yn cael gwerth amcangyfrifedig eich cartref pe na bai HS2 yn bodoli - ynghyd â deg y cant ychwanegol. Gallwch hefyd hawlio costau rhesymol symud tŷ. Gallai hyn gynnwys ffioedd symud, ailgyfeirio post ac arolygon o'r eiddo newydd. Mae terfyn ar y deg y cant ychwanegol y gellir ei dalu sef £47,000 - felly os ystyrir bod eich cartref yn werth mwy na £470,000 byddwch yn cael llai na deg y cant.

**Os bydd rhan o'ch eiddo o fewn 60 metr i'r llinell...** Gallech fod yn gymwys o hyd, ond ystyrir eiddo ar sail achosion unigol.

Ffynhonnell: [http://www.thisismoney.co.uk/money/mortgageshome/article-2418957/What-Government-HS2-runs-past-door.html](http://www.thisismoney.co.uk/money/mortgageshome/article-2418957/What-Government-HS2-runs-past-door.html)

## Gweithgaredd

1. Cynnal dadansoddiad PESTLE ar gyfer HS2.
2. Llunio dadl ar gyfer HS2. Dylai gynnwys casgliad clir, gydag o leiaf dri rheswm a thystiolaeth ategol.
3. Creu propaganda darbwyllol o blaid ac yn erbyn HS2. Dylai gael ei gyflwyno mewn ffordd effeithiol ar
ffurf ysgrifenedig gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion darbwyllol.
4. Nodi ffynonellau o fuddiant personol yn y ffynonellau o blaid ac yn erbyn HS2.

## Ymateb 1: Rhif 2  Antwerpsche Diamantkring – manwerthwr yn Antwerp

Ni fyddai rhywun sy'n crwydro'r siopau yn chwilio am fodrwy ddyweddïo ddiemwnt yn y ddinas yn rhoi llawer o sylw i Hoveniersstraat; mae'n debyg y byddent yn rhoi llai fyth o sylw i'm siop i. Fodd bynnag, nid yw'n ffaith hysbys bod 85 y cant o ddiemwntau'r byd yn newid dwylo yn y fan hon. Yn y stryd hon, ceir 1,500 o swyddfeydd diemwnt, wyth mil o bobl, yn cynrychioli 160 o wledydd, sy'n trin diemwntau gwerth £85 miliwn bob dydd. Yn ein sêffs, mae gemau wedi'u gloywi sydd wedi'u torri a heb eu torri, sy'n werth cannoedd o filiynau a mwy. Mewn modd llai uniongyrchol, mae 25,000 o yswirwyr, bancwyr, swyddogion diogelwch a gyrwyr yn rhan o fusnes sy'n werth pump y cant o allforion Gwlad Belg. Mae'n rhaid i'n holl ymwelwyr drosglwyddo eu pasbort a chael sganio olion bys cyntaf eu llaw dde cyn cael cerdyn llithro. Yna, caiff y manylion eu gwirio ar gronfeydd data o gofnodion troseddol. Bydd drwgweithredwyr yn seinio larwm diogelwch fud a bydd heddlu arfog yn aros amdanynt pan fyddant yn ceisio gadael yr adeilad.

Mae'n arswydus yn ogystal â chyffrous. Mae terfysgwyr hefyd wedi ymosod ar ein cymuned Iddewig. Ar 20 Hydref 1981, ffrwydrodd bom mewn car ger synagog yn Hoverniersstraat. Bu farw tri pherson a dinistriwyd y stryd. Mae ein hystafelloedd a'n desgiau yn llwm. Rydym yn eistedd o amgylch lampau desg gyda'n llygaid ar "ddolen" ein gemydd yn craffu ar ddiemwntau heb eu torri sydd wedi'u sgeinio, ac fel arfer yn eu gwrthod. Caiff y gemau eu lapio mewn "parseli", y diemwntau heb eu torri ym mhlygiadau'r math o bapur a welwch fel arfer mewn siop gaws, a'r diemwntau wedi'u torri a'u sgleinio wedi'u trefnu'n ofalus mewn blychau cwiltiog i'w hatal rhag cael eu crafu.

Rwy'n amcangyfrif, ar gyfer pob carat, un rhan o bump o gram, o garreg arw sydd wedi'u gwasgaru o'n blaenau, bod hyd at  1,750 o dunelli o bridd wedi'i gloddio er mwyn eu cyrraedd. Daw diemwntau o fwy na 16,000 o gategorïau gwahanol ac nid oes unrhyw dechnoleg lle gallwch ddadansoddi beth yw'r meini prawf. Gall technoleg ddweud wrthych beth yw'r maint a'r siâp, ond nid y lliw a'r eglurder. Nid yw'n wyddor fanwl gywir; mae'n debycach i gelf a fydd angen cyswllt dynol bob amser. Mae pob diemwnt yn wahanol. Hyd yn oed gyda'r 16,000 o gategorïau hynny, mae llawer o rai gwahanol. Prin iawn yw'r swyddi neu'r diwydiannau sy'n ysbrydoli'r brwdfrydedd hwn. Mae'r diwydiant hwn yn siŵr o'ch cyffroi. Mae'r diemwntau garw yn edrych ychydig fel gwydr wedi torri ond pan fyddant wedi'u sgeinio gallwch weld eu holl loywder, llewych a gwychder, y bywyd a'r lliw. I mi, hyd yn oed ar ôl 15 mlynedd yn y busnes, mae hyn yn gyffrous iawn. Er enghraifft, mae gan y garreg orffenedig werth amcangyfrifedig o £2 filiwn ac mae pris gemau yn saethu i fyny wrth i'r cyflenwad leihau, wrth i fonopolïau traddodiadol gael eu torri gan Asia ac wrth i ddosbarthiadau canol newydd cyfoethog yn Tsieina, India, America Ladin a Rwsia fachu'r cerrig fel buddsoddiad.

Addaswyd o: [http://www.telegraph.co.uk/news/worldnews/europe/belgium/10502563/Antwerps-secret-heart-of-the-31bn-global-diamond-trade.html?mobile=basic](http://www.telegraph.co.uk/news/worldnews/europe/belgium/10502563/Antwerps-secret-heart-of-the-31bn-global-diamond-trade.html?mobile=basic)

## Ymateb 2: Mudiad Ymgyrch Hawliau Dynol



Caiff llawer o ddiemwntau'r byd eu cloddio gan ddefnyddio arferion sy'n ecsbloetio gweithwyr, plant a chymunedau. Mae miliwn o gloddwyr diemwntau yn Affrica yn ennill llai na doler y dydd. Mae cloddwyr yn marw mewn damweiniau, mae'r arfer o wneud i blant weithio yn un cyffredin, ac mae arweinwyr llwgr yn amddifadu cymunedau cloddio diemwntau o arian y mae dirfawr angen amdano ar gyfer datblygu economaidd. Mae cloddwyr diemwntau yn cynhyrchu tua 15% o ddiemwntau'r byd. Ond nid yw eu cyflogau yn adlewyrchu gwerth eu gwaith. O ganlyniad, nid oes gan gannoedd o filoedd o gloddwyr yr hanfodion sylfaenol fel dŵr glân a glanweithdra.

Mae newyn, anllythrennedd a marwolaethau babanod yn gyffredin. Hyd yn oed mewn gwledydd datblygol, cymunedau cloddio diemwntau yw'r tlotaf yn aml. Heblaw'r ffaith nad ydynt yn cael digon o gyflog, mae llawer o gloddwyr diemwntau yn gweithio mewn amodau hynod o beryglus. Yn aml, caiff gwaith cloddio diemwntau ar raddfa fach ei wneud heb unrhyw hyfforddiant nafg arbenigedd. Efallai na fydd gan gloddwyr gyfarpar diogelwch na'r offer priodol. Gallant farw'n ddigon hawdd neu gael eu hanafu mewn tirlithriad, pan fydd cloddfa yn cwympo ac mewn damweiniau eraill.

Mae gwaith cloddio diemwntau hefyd yn cyfrannu at broblemau iechyd cyhoeddus. Mae'r fasnach mewn rhyw yn ffynnu mewn sawl tref cloddio diemwntau, gan arwain at ledaenu HIV a chlefydau eraill a drosglwyddir yn rhywiol. Mae difrod amgylcheddol sy'n deillio o gloddio diemwntau yn achos arall o glefydau. Yn Sierra Leone, mae'r dirwedd yn frith o filoedd o byllau cloddio segur. Mae'r pyllau hyn yn llenwi â merddwr, maent yn llawn mosgitos ac yn gwasanaethu fel safleoedd bridio i falaria. Oherwydd yr ystyrir bod plant yn ffynhonnell dda o lafur rhad, cânt eu cyflogi'n rheolaidd yn y diwydiant cloddio diemwntau. Mewn rhai rhannau o Affrica, mae plant yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r gweithlu. Canfu un arolwg o gloddwyr diemwntau yn nhalaith Lunda Norte yn Angola fod 46% o gloddwyr rhwng 5 a 16 oed.

Ar gyfer plant sy'n gaeth i'r mwyngloddiau diemwntau, mae bywyd yn galed. Mae'r plant yn gweithio oriau hir, yn aml chwech neu saith diwrnod yr wythnos. O gymharu ag oedolion, maent hyd yn oed yn fwy agored i anafiadau a damweiniau. Gall tasgau sy'n heriol yn gorfforol fel cloddio gyda rhawiau trwm neu gario bagiau o raean olygu eu bod yn cael eu hanafu neu mewn poen. Oherwydd eu bod yn fach, gellir gofyn i blant gyflawni'r gweithgareddau mwyaf peryglus fel

dringo i mewn i siafftiau cloddio cul neu i byllau lle gall tirlithriadau fod yn beryg bywyd.

Ffynhonnell: http://www.brilliantearth.com/conflict-diamond-child-labor/

## Ymateb 3: Adroddiad Papur Newydd - International Business Times. 9 Ebrill 2014

Ai'r Brenin Diemwntau fel y'i gelwir oedd yn gyfrifol am ddwyn gemwaith Hatton Garden? Gallai athrylith mewn troseddau a elwir yn "Frenin Diemwntau" fod yn gyfrifol am yr achos mwyaf o ddwyn diemwntau yn hanes Prydain, honnodd cyn dditectif uwcharolygydd. Ni ellir peidio ag amau fod y dyn a welwyd ar deledu cylch cyfyng yn gwisgo het Panama ar ôl i werth £13m ($19m) o ddiemwntau gael eu dwyn o siop Graff Knightsbrige yn Llundain yn 2007, yn rhan o'r lladrad o gwmni Sâff Ddiogelwch Hatton Garden dros y Pasg, dywedodd Barry Phillips wrth The Times.

"Roedd hwn yn weithrediad slic iawn ac roedd rôl y cynllunydd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod yr holl fanylion yn gywir," meddai Phillips. "Nid oes llawer o bobl a allai fod wedi gwneud hyn."

Ni chafodd y ffigur dirgel a'i gynorthwywr eu dal erioed. Dywedwyd iddynt gyrraedd y siop mewn Bentley gyda chauffer yn ei yrru. Mae lladrad 2007 heb ei ddatrys o hyd. Fodd bynnag, cafodd diemwnt melyn 16 carat a gafodd ei ddwyn yn y lladrad ei weld mewn siop wystlo yn Hong Kong a rhoddwyd gwerth o £1m iddo, yn ôl y Daily Mail. Yn ddiweddarach, cafodd y troseddwr dirgel ei gysylltu â lladrad arall mewn siop ddiemwntau Graff yn New Bond Street yn 2009 pan gafodd gemau gwerth £40m eu dwyn.

Ffynhonnell: http://www.ibtimes.co.uk/hatton-garden-robbery-mysterious-king-diamonds-behind-uks-biggest-jewellery-heist-1495570

## Ymateb 4:  Dyweddi

Mae modrwy ddiemwnt wedi bod yn symbol o ddyweddïad rhwng dau gariad ers tua'r 15fed ganrif - gan ragflaenu priodas. Ond mae hyn yn peri problem foesol i'r etheg sy'n gysylltiedig ag o ble y dônt mewn gwirionedd (na, nid Tiffany's). Daw'r rhan fwyaf o'n diemwntau o rai o wledydd lleiaf datblygedig y byd lle mae gweithwyr yn llawer mwy agored i gael eu hecsbloetio. Mae ein dyhead 'Gorllewinol' am y cerrig gwerthfawr hyn wedi arwain at ryfeloedd cartref mewn

gwledydd fel Sierra Leone - lle mae cloddwyr diemwntau ond yn gweithio i gael bwyd. Fodd bynnag, a yw hyn yn gwneud i mi feddwl efallai y dylwn brynu modrwy heb ddiemwnt i'm dyweddi - nac ydy! Ni fyddwn byth yn cael maddeuant.

Addaswyd o: [http://hubpages.com/forum/topic/43900](http://hubpages.com/forum/topic/43900)

## Ymateb 5: Chwythu'r Chwiban

Pam mae diemwntau yn wastraff arian

Rwyf wedi bod yn y busnes diemwntau ers dros 10 mlynedd. Rwyf wedi teithio ledled y byd yn prynu ac yn gwerthu diemwntau. Rwyf wedi pasio drwy'r rhan fwyaf o'r prif feysydd awyr yn yr Unol Daleithiau â diemwntau gwerth tua miliwn o bunnoedd mewn waled ledr wedi'i stwffio i lawr fy nhrowsus. Rwyf wedi prynu a gwerthu diemwntau yn Dubai, Mumbai, Moscow, Hong Kong, Paris, Stockholm, Tel Aviv, Madrid a Barcelona. Hyd yn oed heddiw, rwy'n gweithredu ar ymylon y busnes diemwntau, gan redeg safle addysg diemwntau yn helpu darpar brynwyr.

O ystyried fy nghysylltiad personol dwfn yn y busnes diemwntau, efallai y bydd fy marn yn eich synnu - ***mae diemwntau yn wastraff arian ofnadwy.***

Dyma'r rheswm pam: Y camargraff mwyaf cyfffredin ynghylch modrwyau dyweddïo yw eu bod yn deillio o ryw draddodiad hynafol sy'n rhan annatod o hanes dynoliaeth mewn cymdeithasau ledled y byd. Mae hyn yn hollol anghywir. Tua chanrif oed yw'r syniad o gael modrwy ddyweddïo ddiemwnt. Allwch chi ddyfalu pwy gafodd y syniad? Nid yw'n syndod mai yr un bobl oedd yn cloddio'r diemwntau - cynghrair ddiemwntau De Beers. Pa mor bell aeth De Beers yn eu hymgais i greu galw am ddiemwntau? Nododd Edward Jay Epstein yn ei erthygl ymchwiliol enwog:

"Yn ei gynllun strategol yn 1947, pwysleisiodd yr asiantaeth hysbysebu ddull gweithredu seicolegol. "Rydym yn delio â phroblem o ran seicoleg dorfol. Rydym yn ceisio atgyfnerthu traddodiad y fodrwy ddyweddïo ddiemwnt er mwyn ei gwneud yn anghenraid seicolegol sy'n gallu cystadlu'n llwyddiannus ar lefel fanwerthu gyda nwyddau defnyddiol a gwasanaethau." Diffiniodd fel ei gynulleidfa darged "tua 70 miliwn o bobl 15 oed a throsodd yr ydym yn gobeithio dylanwadu ar eu barn o blaid ein hamcanion." Amlinellodd N. W. Ayer raglen gynnil a oedd yn cynnwys trefnu i ddarlithwyr ymweld ag ysgolion uwchradd ledled y wlad. "Mae'r holl ddarlithoedd hyn yn ymwneud â'r fodrwy ddyweddïo ddiemwnt ac rydym yn cyrraedd miloedd o enethod yn eu gwasanaethau,

dosbarthiadau a chyfarfodydd anffurfiol yn ein prif sefydliadau addysgol," esboniodd yr asiantaeth mewn memorandwm at De Beers.

Nid wyf yn erbyn ymgyrchoedd marchnata clyfar, ond mae hyn yn wahanol. Yn yr achos hwn, gwariodd De beers filiynau ar filiynau yn argyhoeddi'r cyhoedd bod angen iddynt brynu cynnyrch yr oeddent wedi'i greu o ddim byd (dim byd a reolwyd ganddynt hwy yn unig). Fodd bynnag, nid wyf yn credu bod y busnes diemwntau yn fwy euog nag unrhyw ddiwydiant arall sy'n gwneud y rhan fwyaf o'i waith mewn gwledydd tlotach ar ochr arall y byd. Peidiwch â phoeni os byddwch yn methu â gwrthsefyll y pwysau cymdeithasol i gael modrwy ddiemwnt. Mae llawer o bobl fel chi. Nid yw'n hawdd ymwrthod. Gwnewch ffafr i'ch hun a siaradwch ag arbenigwr a all eich helpu i sicrhau eich bod o leiaf yn gwario cyn lleied â phosibl ar y ddelwedd ac yn cael rhywbeth sy'n ateb ei ddiben.

Wedi'i addasu o: http://www.huffingtonpost.com/ira-weissman/7-reasons-why-you-shouldn_b_1720870.htm

## Ymateb 6: Cloddio am Aur Teranga mewn modd cynaliadwy

Er nad cloddio diemwntau yw'r math gwaethaf o gloddio mewn perthynas â'i effaith amgylcheddol, mae'r effeithiau eisoes yn cael eu teimlo o'r ddwy gloddfa diemwntau sy'n gweithredu yn ein portffolio o gloddfeydd ar hyn o bryd. Ymysg yr effeithiau ffisegol hyn mae:

- colli cynefinoedd pysgod drwy ddraenio llynnoedd, dinistrio nentydd, newidiadau yn ansawdd y dŵr.
- colli cynefinoedd ar y tir ar gyfer bywyd gwyllt fel ceirw Canada, eirth brithion a bolgwn. Er enghraifft, mae gwartheg gyda chysylltiad radio ar eu coler o yr o geirw Canada Bathurst yn treulio 7-8% yn llai o amser yn bwydo ger cloddfa.
- cynhyrchu mwy o nwyon tŷ gwydr. Mae angen miliynau o litrau o ddisel i redeg y ddwy gloddfa diemwntau. Mae pob cloddfa yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir yn yr ardal.

Mae effeithiau cymdeithasol a diwylliannol y ddwy gloddfa diemwntau sy'n bodoli ar hyn o bryd hefyd yn cael eu teimlo.

Mae buddsoddiad cyflym o arian i mewn i gymunedau yn arwain at densiynau cymdeithasol, a gellir gweld hyn mewn cynnydd yn y cyfraddau o gamddefnyddio sylweddau a thrais yn y teulu. Mae'r patrymau gwaith sifft a orfodir ar weithwyr yn

y cloddfeydd yn tarfu ar rythmau cymdeithasol arferol, gan olygu bod rhieni yn gweithio i ffwrdd o'u plant ac aelodau hynaf eu teuluoedd am wythnosau ar y tro.

Fodd bynnag, ni ellir dadlau'r effaith gadarnhaol y mae Aur Teranga yn ei chael ar y swyddi a'r arian yn yr ardal, ond rhaid cydnabod bod rhai effeithiau negyddol yn ogystal â buddiannau. Caiff yr effeithiau negyddol hyn eu hystyried bob amser wrth gynllunio cloddfeydd diemwntau er mwyn sicrhau bod cyn lleied â phosibl o ymyrraeth yn cyd-fynd â buddiannau datblygiadau. Ac fel y cyfryw, byddwn yn mynd i'r afael â'r materion a amlinellir uchod.

Wedi'i addasu o: http://www.carc.org/index.php?option=com_content&view=article&id=92:diamonds-and-sustainable-development&catid=41:mining-and-sustainability&Itemid=153

## Gweithgareddau

1. I ba raddau y ceir tystiolaeth o bropaganda yn Ymateb 5?
2. Pa Ymateb sy'n cynnwys y dystiolaeth fwyaf credadwy? Eglurwch eich ateb.
3. Cynhaliwch ddadansoddiad PESTLE. At ba gasgliadau y mae'r dystiolaeth yn gwyro?
4. Mewn fformat ysgrifenedig, cyflwynwch achos o blaid neu yn erbyn y fasnach mewn diemwntau. Dylech gynnwys casgliad clir, rhesymau lluosog a thystiolaeth gredadwy.
5. Beth yw'r neges a fwriadwyd y tu ôl i bob ffotograff?

# Ymateb 1: Y Grŵp Protestio yn erbyn Hela Morfilod




Mae niferoedd morfilod wedi gostwng tua 90% mewn rhai rhywogaethau, ond mae wedi cael effaith ar bob rhywogaeth a gaiff ei hela. Cafodd rhai rhywogaethau, e.e. Morfilod Llwyd yr Iwerydd eu hela nes eu bod wedi darfod amdani. Mae poblogaethau morfilod yn cymryd llawer o amser i adfer i'w niferoedd gwreiddiol. Dim ond un epil bob dwy neu dair blynedd a gânt, ac mae'n rhy gynnar o lawer i ddweud bod y poblogaethau wedi adfer oherwydd y cwotâu a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hela Morfilod Rhyngwladol.

Mae'r tryferi ffrwydrol sy'n ffrwydro y tu mewn iddynt, yn greulon a phoenus. Gan eu bod yn anifeiliaid mor fawr, nid yw un tryfer bob amser yn ddigon i'w lladd. Gall gymryd sawl munud neu hyd yn oed oriau cyn iddynt farw a dylai wneud i unrhyw un sydd â chalon feddwl ddwywaith cyn hela morfilod.

Mae rhai gwledydd yn dadlau bod angen hela morfilod er mwyn cynnal diwylliant pysgota masnachol llwyddiannus. Maent yn dweud bod morfilod yn bwyta llawer o bysgod, a phe baem yn lladd morfilod, gallem arbed llawer o bysgod yn y moroedd hyn. Fodd bynnag, pe bai morfilod yn bwyta digon o bysgod i effeithio ar stociau pysgod byd-eang, byddai nifer y pysgod wedi cynyddu'n sylweddol pan syrthiodd y boblogaeth morfilod - ond ni ddigwyddodd hynny. Mae gwledydd eraill yn honni bod angen hela morfilod er mwyn gwneud ymchwil sydd o fudd i'r morfilod eu hunain. Ond mae'n amlwg mai'r gwledydd sydd â'r diddordeb pennaf mewn ymchwil i forfilod yw'r gwledydd lle mae cig morfil yn rhan o'u deiet traddodiadol. Mae Japan yn gwneud defnydd llawn o ofyniad y Comisiwn nad oes dim byd yn cael ei wastraffu ar ôl i'r ymchwil gael ei gwneud ac mae'n anfon yr holl gig morfil i siopau a marchnadoedd. Ai diben go iawn hela morfilod yn Japan yw er mwyn gwneud ymchwil neu er mwyn cael cig? Pam y defnyddir llongau hela morfilod a all brosesu cig sawl morfil ar eu byrddau? A wneir gormod o ymchwil? A fyddai'n bosibl casglu rhywfaint o'r data drwy gyfrwng nad yw'n farwol? Ac a yw'r holl ddata a gesglir ganddynt mor angenrheidiol fel eu bod yn werth cymaint o fywydau? Beth yw diben yr holl ymchwil os yw'n lladd cyfran fawr o'r holl forfilod sydd yn y byd?

Ffynhonnell: [http://www.whale-and-dolphin-facts.com/arguments-against-whaling.html](http://www.whale-and-dolphin-facts.com/arguments-against-whaling.html)

## Ymateb 2: Adroddiad Ysgol Economeg a Gwyddorau Gwleidyddol Llundain - Graddfa hela am forfilod

Mae pedwar endid gwleidyddol yn Ewrop yn hela am forfilod ar hyn o bryd: Gwlad yr Iâ, Norwy, yr Ynys Las ac Ynysoedd Ffaröe. Maent i gyd yn aelodau o'r Comisiwn Hela Morfilod Rhyngwladol ac nid oes yr un ohonynt yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd.

Yn ôl adroddiad Norwy cymerwyd 533 o forfilod gan ei physgotwyr morfilod yn 2011, er i'r llywodraeth roi caniatâd i gymryd tua 1,200 o forfilod. Morfilod pigfain yw'r rhain, a gaiff eu hela yn ystod misoedd yr haf oddi ar arfordir gogleddol Norwy. Cânt eu hela o gychod bach gan ddefnyddio grenadau sy'n sownd wrth dryferi, a gaiff eu saethu o ganonau i mewn i thoracs y morfil. Mae'r cig i gyd bron yn cael ei werthu a'i fwyta'n lleol, ond caiff ychydig ohono ei allforio i Ynysoedd Ffaröe ac (yn y blynyddoedd diwethaf) i Japan.

Mae Gwlad yr Iâ yn hela morfilod pigfain (tua 215 yn 2012) yng Ngogledd Môr yr Iwerydd, yn ogystal â morfilod asgellog. Caiff y morfilod pigfain eu bwyta'n lleol yng Ngwlad yr Iâ, ond caiff y morfilod asgellog eu hallforio i Japan. Dosberthir morfilod asgellog fel rhywogaethau mewn perygl gan gytuniad CITES. Maent yn 'rhywogaeth Atodiad I' yn CITES, sy'n golygu eu bod mewn perygl o ddiflannu ac mae masnachu eu cynhyrchion yn rhyngwladol yn anghyfreithlon. Cynyddodd nifer y morfilod asgellog a gafodd eu lladd yn helfa Gwlad yr Iâ i 148 yn 2010, ond mae'n debyg y dychwelir i sefyllfa lle na chaiff un ei ladd ar ôl i farchnad Japan fethu yn 2011.

Mae'r Ynys Las ac Ynysoedd Ffaröe yn rhan o Deyrnas Denmarc, ond o ran materion hela morfilod (a llawer mwy) maent yn annibynnol ar lywodraeth Danaidd. Maent yn caniatáu hela morfilod er nad yw Denmarc ei hun yn caniatáu hynny. (Mae hyn yn creu sefyllfa anodd i'r cynrychiolydd Danaidd yng nghyfarfodydd y Comisiwn Hela Morfilod Rhyngwladol, sy'n gorfod siarad ar ran y tri endid). Yn yr Ynys Las mae grwpiau brodorol yn helfa morfilod am dymor penodol, gan gymryd tua 100 o forfilod pigfain a 10 o forfilod asgellog bob blwyddyn, ynghyd â nifer fach o forfilod pen bwa a chefngrwm.

Mae helfa Ynysoedd Ffaröe yn wahanol am ei bod yn digwydd ar y traeth ar ôl i'r morfilod gael eu herlid gan gychod bach a'u gorfodi i ddod i'r lan. Caiff tua 1,000 o forfilod duon eu lladd fel hyn bob haf, ac mae'r arfer wedi arwain at ŵyl gymunedol. Yna bydd y cyfranogwyr yn mynd â chig y morfilod adre gyda nhw. Felly caiff ei fwyta'n bennaf gan y rhai sy'n cymryd rhan yn y gweithgaredd ac nid yw'n mynd i'r farchnad. Gyda'i gilydd, mae'r pedair tiriogaeth hyn yn lladd tua 2,000 o forfilod bob blwyddyn. Mae'r gwledydd eraill sy'n hela morfilod ledled y byd yn lladd tua 1,500 o rai eraill. Gwneir hyn yn bennaf gan Japan (tua 1,200, yn bennaf ym môr y de), ond hefyd mewn niferoedd llai gan grwpiau brodorol yn

Rwsia (tua 150 y flwyddyn) a'r UD (tua 100 y flwyddyn), a chan lond llaw o wledydd eraill.

Ffynhonnell: [http://blogs.lse.ac.uk/europpblog/2013/02/18/whaling-europe-eu-norway-iceland-greenland-faroe-islands-cites-international-whaling-commission/](http://blogs.lse.ac.uk/europpblog/2013/02/18/whaling-europe-eu-norway-iceland-greenland-faroe-islands-cites-international-whaling-commission/)

## Ymateb 3 – Rakuten, y manwerthwr cig morfil yn Japan

Rakuten, y cwmni e-fasnach o Japan sy'n berchen ar Play.com a Kobo, yw manwerthwr cig morfilod ar-lein mwyaf y byd. Dyma'r hyn y mae ein cwsmeriaid yn gofyn amdano, felly pam na ddylem ei werthu? Mae gennym rai cwsmeriaid detholgar iawn. Ein marchnad darged yw dynion rhwng 40 a 49 oed sef y rhai sy'n fwyaf tebygol o fwynhau platiaid poeth o gig morfil, wedyn dynion rhwng 50 a 59 oed. Nid yw'r niferoedd yn syndod mawr o gofio bod cig morfil wedi cael ei weini'n aml mewn ciniawau ysgol yn y blynyddoedd yn dilyn yr Ail Ryfel Byd, gan wneud i blant y genhedlaeth honno gofio amdano fel un o'u ffefrynnau.

Rakuten, y cwmni e-fasnach o Japan sy'n berchen ar Play.com a Kobo, yw manwerthwr cig morfilod ar-lein mwyaf y byd. Dyma'r hyn y mae ein cwsmeriaid yn gofyn amdano, felly pam na ddylem ei werthu? Mae gennym rai cwsmeriaid detholgar iawn. Ein marchnad darged yw dynion rhwng 40 a 49 oed sef y rhai sy'n fwyaf tebygol o fwynhau platiaid poeth o gig morfil, wedyn dynion rhwng 50 a 59 oed. Nid yw'r niferoedd yn syndod mawr o gofio bod cig morfil wedi cael ei weini'n aml mewn ciniawau ysgol yn y blynyddoedd yn dilyn yr Ail Ryfel Byd, gan wneud i blant y genhedlaeth honno gofio amdano fel un o'u ffefrynnau.

## Ymateb 4: Anthropolegwr yn adrodd ar ei hymweliad ag Ynysoedd Ffaröe

Yn Tórshavn, prifddinas Ynysoedd Ffaröe, cwrddais â dyn a laddodd morfil am y tro cyntaf pan oedd yn fachgen wyth oed a helpodd ei dad i'w ladd gyda chyllell finiog. Gwnaeth y gwaed a oedd yn tasgu i bobman wlychu ei wallt a lliwio ei wyneb fel petai ganddo baent rhyfel arno. Roedd yn cofio pa mor gynnes oedd ar ei groen, o'i gymharu â dŵr oer Gogledd yr Iwerydd yr oeddent yn sefyll ynddo. Y dyddiau hyn rydym yn cymryd yn ganiataol mai pobl ddrwg sy'n lladd morfilod a dolffiniaid. Yn wir, mae lluniau'n dangos y môr wedi ei staenio'n goch, y morfilod duon yn ysgwyd wrth gael eu llusgo i'r lan gyda rhaffau a bachau, ac yn cael eu

lladd gydag arf miniog sy'n hollti'r asgwrn cefn yn agos at y pen, gan eu lladd bron ar unwaith.

Yn hanesyddol, mae'r ynyswyr wedi dibynnu ar gig morfil fel rhan hanfodol o'u goroesiad. Maent yn bobl annibynnol iawn, gyda chysylltiad agos â'u hamgylchedd naturiol er gwaethaf systemau gwres modern, cysylltiadau hedfan (pan fydd y cymylau'n glir am ddigon o amser) a'r rhyngrwyd. Nid ydynt erioed wedi mynd i chwilio am forfilod duon: dim ond pan ddaw haig yn agos i'r lan y byddant yn eu lladd, a dim ond os yw un o nifer fach o draethau penodedig yn ddigon agos i'w ddefnyddio fel glanfa. Yn ôl Sefydliad Cadwraeth Mamaliaid Morol Gogledd yr Iwerydd, mae mwy na 750,000 o forfilod duon, a bob blwyddyn amcangyfrifir y lleddir llai na 0.1 y cant o'r boblogaeth. Mae cofnodion wedi cael eu cadw ers 1584 - sy'n golygu mai hwn yw'r traddodiad hiraf a gofnodwyd o unrhyw ryngweithio rhwng pobl ac anifeiliaid. Cred arbenigwyr fod hyn wedi digwydd ers mwy na 1,200 o flynyddoedd.  Byddwn yn amddiffyn hawl y tad hwnnw a'i fab ifanc i hela a lladd morfilod. Mae eu gwlad yn dir dramatig, casgliad gwyrdd heb goed o 18 o ynysoedd ym Môr y Gogledd lle mae 50,000 o bobl yn dal i fyw bywyd sydd â chysylltiad agos â'r tywydd. Nid yw'r grindadráp (hela morfilod) yn rhywbeth o'r gorffennol Ffaroaidd yn unig. Mae'n atgoffa pobl o'u perthynas â'r môr, ac mae'r cig yn dal i fod yn ddanteithfwyd poblogaidd.

Ffynhonnell: http://staging.spectator.co.uk/features/9126932/why-we-should-let-faroe-islanders-hunt-whales/

## Ymateb 5: Arbenigwr ym maes Bioleg y Môr

Gwnaeth llawer o wledydd, gan gynnwys y DU, hela morfilod yn fasnachol drwy gydol y 19eg ganrif a'r 20fed ganrif. Fodd bynnag, erbyn y 1960au roedd y rhan fwayf o boblogaethau morfilod y byd wedi darfod amdanynt ac mewn sawl lle nid oedd yn economaidd hyfyw bellach i hela morfilod. Ers 1986 mae'r Comisiwn Hela Morfilod Rhyngwladol wedi llunio system cwotâu sefydlog ar gyfer hela morfilod mewn ymdrech i adfer poblogaethau morfilod. Er mwyn gwella'r ymdrech hon, sefydlodd y Comisiwn Warchodfa Morfilod Môr y De yn 1994. Diben hyn oedd rhoi hafan ddiogel i forfilod rhag pysgotwyr oedd yn eu hela'n fasnachol o fewn eu hardal fwydo ym Môr yr Iwerydd. Mae Japan yn parhau i hela morfilod gan honni y gwneir hynny er ymchwil wyddonol, a ganiateir o dan ddarpariaeth yn siarter y Comisiwn. Fel ecolegydd morol mae hyn yn peri pryder i mi. Mae technegau ymchwil cyfoes yn golygu nad oes angen lladd morfilod o gwbl er mwyn dysgu am eu bywyd a'u hecoleg. Hefyd, caiff yr holl gig morfil a gesglir gan Japan ei becynnu i'w fwyta gan bobl ar y llong ffatri y Nisshin Maru pan fydd yn y warchodfa morfilod o hyd, sy'n awgrymu nad "Ymchwil" yw'r flaenoriaeth fwyaf ar gyfer yr helfa flynyddol hon. At hynny, mae awgrym Japan ei fod yn iawn lladd

morfilod ar gyfer Ymchwil Wyddonol yn cael effaith andwyol o bosibl ar enw da gwyddoniaeth yn fy marn i.

Wedi'i addasu o: http://www.talkingnature.com/2010/01/conservation/whaling-sustainable/

## Ymateb 6: Un o drigolion Lamalera

Mae Lamalera ar arfordir deheuol ynys Lembata, a dyma ble mae ein cymunedau hela morfilod Indonesaidd. Fel helwyr, rydym yn ufuddhau i'r tabŵau crefyddol sy'n sicrhau ein bod yn defnyddio pob rhan o'r anifail. Cedwir tua hanner y ddalfa yn y pentref; caiff y gweddill ei werthu mewn marchnadoedd lleol. Yn 1973, anfonodd Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig long hela morfilod a llong o Norwy i foderneiddio ein helfa. Parhaodd yr ymdrech hon am dair blynedd ac ni fu'n llwyddiannus. Yn ôl adroddiad yr FAO, mae'r Lamalerans "have evolved a method of whaling which suits their natural resources, cultural tenets and style."



Fel cymuned sy'n byw ar Ynys Lembata rydym yn llwyr ddibynnol ar y môr ar gyfer ein bwyd. Yn ein pentref rydym yn defnyddio dulliau syml a thraddodiadol i bysgota, nad ydynt wedi newid ers blynyddoedd. Bydd y tymor hela morfilod yn dechrau cyn bo hir ac mae'r pentrefwyr yn benderfynol o ddal morfilod sberm sy'n ymfudo. Mae ymdrech enfawr gan y pentrefwyr fel arfer yn arwain at daith bysgota lwyddiannus. Dim ond tua chwe morfil y flwyddyn y mae pentrefwyr Lamalera yn eu dal. Gelwir hyn yn hela morfilod er cynhaliaeth. Mae dal morfil yn trawsnewid ffyniant y pentrefwyr gan fod cig; asgwrn, croen a braster morfil i gyd yn golygu arian ar yr ynys anghysbell hon.

Wedi'i addasu o: http://en.wikipedia.org/wiki/Whaling

## Ymateb 7: Llygad-dyst i ddal a lladd morfil

Roeddwn yn teithio ar long hela morfilod o Awstralia yn 1977 pan welais farwolaeth hir morfil mawr:

*"The harpoon seemed to pass right through it, which can happen and the second explosion took longer. The whole event this time seemed in slow motion. The whale dived, and a great green cloud burst up to the surface. Blood turns green underwater at 50 feet…or was this some of its intestines? It came up on the starboard side, its huge head, a third of its total body size, shaking itself, and then it gave out a most terrible cry, half in protest, half in pain, and then it dived again. They loaded the next harpoon, the killer, but could not get a shot at it as it twisted and turned, hurting itself all the more. Finally, the lookout in the crow's nest shouted down that it was coming up dying. Its mouth was opening."*

Ffynhonnell: http://www.endangeredspecieshandbook.org/pdfslive/esh_chapter10.pdf

## Ymateb 8: Erthygl newyddion o bapur safonol

Cyflwynodd Japan heddiw ei rhaglen ymchwil newydd i hela morfilod y bu mawr ei disgwyl ar gyfer Môr yr Iwerydd. Mae'r cynllun yn pennu targed o ddal 333 o forfilod pigfain bob blwyddyn fel rhan o ymdrech ymchwil 12 mlynedd o hyd "to achieve conservation of Antarctic marine ecosystem resources while pursuing their sustainable utilization and to understand and predict the effects of factors such as climate change."

Gellir diwygio'r drafft, a gaiff ei gyflwyno yn awr i Bwyllgor Gwyddonol y Comisiwn Hela Morfilod Rhyngwladol. "Rydym yn fodlon gwella'r cynllun ymchwil mewn ymateb i sylwadau ac awgrymiadau," dywed Joji Morishita, comisiynydd Japan i'r Comisiwn Mae Japan yn bwriadu ailddechrau gwneud ymchwil i hela morfilod yn ystod 2015 i 2016. Nid oes gan y Comisiwn awdurdod cyfreithiol i'w rhwystro rhag ailddechrau hela morfilod, ac nid yw'n glir a fydd unrhyw wlad yn mynd â'r mater yn ôl i'r ICJ. Dywedwyd mai beirniadaeth ryngwladol fyddai'r unig opsiwn efallai i atal ymchwil i hela morfilod.

Mae beirniaid wedi honni ers amser maith fod rhaglen ymchwil Japan yn ddeilen ffigys i osgoi moratorium 1982 y Comisiwn ar hela morfilod yn fasnachol. Mae Confensiwn Rhyngwladol 1946 ar gyfer Rheoleiddio Hela Morfilod yn caniatáu cymryd morfilod at ddibenion ymchwil ac yn caniatáu i'r cig gael ei werthu ar y farchnad; mae Japan yn defnyddio'r enillion i dalu am dreuliau ymchwil. Mae

prydau cig morfil ar gael yn helaeth mewn bwytai arbenigol, mewn archfarchnadoedd ac ar-lein, ac mae rhai Japaneaid yn ei ystyried yn ddanteithfwyd. Ond dros y blynyddoedd diwethaf mae llai o bobl wedi bod yn ei fwyta ac mae llawer o'r ddalfa flynyddol yn cael ei storio.

Cyflwynodd Awstralia y mater i'r ICJ yn 2010. Yn ei benderfyniad ar 31 Mawrth, canfu'r llys, ymhlith diffygion eraill, nad oedd digon o gyfiawnhad gwyddonol dros faint sampl targed y rhaglen Japaneaidd, nad oedd ffyrdd nad oeddent yn farwol o wneud yr ymchwil yn cael eu hystyried ddigon ac nad oedd fawr ddim gwyddoniaeth wedi'i hadolygu gan gymheiriaid ar gael. "The evidence does not establish that the program's design and implementation are reasonable in relation to achieving its stated objectives," dywedodd y llys, a orchmynnodd Japan i atal hela morfilod ar unwaith o dan raglen ymchwil yr Antarctig.

Ffynhonnell: http://www.internationalwhaleprotection.org/forum/index.php?/topic/8806-details-out-for-japans-new-whaling-plan/

## Gweithgaredd

1. Lluniwch ddadl sydd naill ai'n amddiffyn neu'n beirniadu hela morfilod. Rhaid cael casgliad clir,
   rhesymau lluosog â thystiolaeth gredadwy.
2. A oes unrhyw dystiolaeth yn yr Ymatebion uchod ar gyfer buddiant personol?
3. A oes unrhyw dystiolaeth yn yr Ymatebion uchod o ethnosentrigrwydd?
4. Pwy sydd â'r enw da mwyaf credadwy? Eglurwch eich ateb.
5. I ba raddau y gellir ymddiried yn adroddiad y llygad-dyst?

   Pa Ymateb sy'n cynnwys y dadleuon mwyaf credadwy? Sut rydych wedi dod i'r farn hon?

## UNED 33: Sut i wneud gwerthusiad effeithiol.

### 33.1 Beth yw hunanwerthuso?

Mae hunanwerthuso yn bwysig ar unrhyw adeg o'ch bywyd. Mae hunanwerthuso yn rhan bwysig o fod yn ymrwymedig i ddysgu gydol oes - y ddealltwriaeth na fydd eich taith ddysgu byth yn dod i ben ac y dylid manteisio ar bob cyfle i ddysgu sgiliau newydd.

Gall unrhyw beth a wnewch, boed yn yr ysgol, y coleg, y gwaith neu yn eich bywyd personol, fynd drwy broses gylchol. Bydd y broses yn dechrau pan fyddwch yn datblygu syniad o'r hyn rydych am ei gyflawni. Yn dilyn hyn, dylech ymgynghori â'r sawl a gaiff eu dylanwadu gan eich syniad neu'r hyn rydych am ei gyflawni er mwyn ystyried y ffordd orau o wneud hyn. Yna byddwch yn rhoi eich syniad ar waith. Wedyn, byddwch yn treulio rhywfaint o amser yn monitro pa mor dda y mae'n mynd ac yn ymgynghori eto. Ar ôl yr ymgynghoriad hwn, bydd eich syniadau a ddatblygwyd yn newid a bydd y broses yn dechrau eto pan fyddwch yn ymgynghori ynghylch newidiadau arfaethedig, rhoi'r newidiadau ar waith, monitro'r newidiadau, ymgynghori eto, ac ati.

### 33.2 Cwestiynau i'w hystyried:

**Pwynt Myfyrio 1**

- Faint o ymdrech wnaethoch chi ei roi i mewn i ddysgu am Ddinasyddiaeth Fyd-eang?
- Ble wnaethoch chi'n arbennig o dda a ble y gallech chi fod wedi gwneud yn well yn eich barn chi?
- Beth y gallech ei wneud i wella?
- Beth yw'r pethau pwysicaf rydych wedi'u dysgu drwy ystyried Dinasyddiaeth Fyd-eang?




### 33.3 Pam mae hunan werthuso yn bwysig?

Y syniad y tu ôl i hunanwerthuso yw'r ffaith nad yw'r hyn rydym yn meddwl ein bod yn ei wneud a'r hyn rydym yn ei wneud mewn gwirionedd yr un fath bob amser.

Dyna pam mae mor bwysig cynnal hunanwerthusiad rheolaidd.

Er enghraifft, wyddech chi fod peilotiaid awyrennau ymladd, gwleidyddion ac athletwyr llwyddiannus yn cynnal hunanwerthusiadau? Maent yn gwneud hyn drwy edrych ar fideos o'u perfformiad a nodi ble y gallent fod wedi gwella.

## 33.4: Camau gwerthuso perfformiad




## 33.5: Cam 5 a 5 yn fanylach

Wrth ddod i gasgliadau ynghylch pa mor llwyddiannus y buoch, dylech hefyd ystyried y cwestiynau canlynol:


- Beth fyddai wedi gwella'r profiad hwn?
- Beth oedd eich barn am y sefyllfa?
- Beth o'r profiad hwn rydych chi'n ei werthfawrogi fwyaf amdanoch chi eich hun?
- Beth y gallech ei wneud yn wahanol y tro nesaf?
- Beth ydych chi'n cofio ei feddwl ond nid ei ddweud?
- Beth wnaethoch chi ei deimlo ond nid ei ddatgelu?
- Beth yw'r peth mwyaf radical y gallech fod wedi'i wneud?
- Beth yw'r peth hawsaf y gallech fod wedi'i wneud?
- Beth nad ydych yn ei wybod am y sefyllfa?
- Beth na fyddech wedi gallu ei wneud yn bendant?
- Beth allech chi fod wedi'i ddyfeisio neu ei ddychmygu am y sefyllfa?
- Beth wnaeth eich synnu am y sefyllfa?
- Beth sy'n eich synnu am y sefyllfa nawr?

### Pwynt Myfyrio 2

Myfyriwch ar yr hyn rydych wedi'i gyflawni wrth ddysgu am

Ddinasyddiaeth Fyd-eang drwy ymateb i'r pwyntiau uchod.

## 33.6: Y cylch hunanwerthuso




Enw ar fframwaith yw GROWTH i'ch helpu i archwilio mater a llunio cynllun gweithredu.

Nod (Goal): Beth rydych am ei gyflawni nesaf?

Realiti (Reality): Beth yw'r sefyllfa bresennol? Sut rydych wedi cyflawni nod debyg o'r blaen? A oeddech yn llwyddiannus?

Opsiynau (Options): Beth allech chi ei wneud? Beth wnaethoch chi o'r blaen ac a oedd y dull hwn yn llwyddiannus?

Dymuniad (Wish): Beth y byddwch yn ei wneud nawr yn seiliedig ar brofiad blaenorol?

Amserlen (Timetable): Pa mor hir y bydd hyn yn ei gymryd?

Sut (How): Sut y byddwch yn mesur effaith?

### Crynodeb

Mae datblygiad personol gan ddefnyddio hunanwerthusiad, er enghraifft, yn broses gydol oes. Mae'n ffordd i bobl asesu eu sgiliau a'u rhinweddau, ystyried eu nodau mewn bywyd a phennu nodau er mwyn cyflawni eu potensial a gwneud y gorau ohono ym mha bynnag nod y byddant yn ei osod i'w hunain.

**<u>Uned 5</u>**

**5.2 Enw da pobl**

Delwedd 1 – Y Fam Teresa o Calcutta

Delwedd 2 – Robert Maxwell

Delwedd 3 – Vladimir Putin

Delwedd 4 – Nelson Mandela

**<u>Uned 7</u>**

**7.3 Beth yw dadl nad yw'n ddadl?**

**Gweithgaredd Unigol 1**

Dim ond casgliad a geir yn y ddadl, ni cheir rheswm. Y casgliad yw:

Dylai pawb ddefnyddio ceir trydan yn lle eu ceir petrol

**Profi eich hun 1**

1. Mae adroddiadau newyddion y BBC ynghylch lefel y diweithdra yng Nghymru yn ddibynadwy fel arfer.
   **Dadl nad yw'n ddadl**
2. Mae adroddiadau newyddion Americanaidd am lefel y diweithdra yn America yn annibynadwy fel arfer.
   **Dadl nad yw'n ddadl**
3. Mae adroddiadau newyddion y BBC am lefel y diweithdra yng Nghymru yn ddibynadwy fel arfer gan fod y BBC yn cael ei wybodaeth o ffynonellau dibynadwy.
   **Dadl**
4. Mae adroddiadau newyddion Americanaidd yn annibynadwy am nad ydynt yn defnyddio ffynonellau dibynadwy.
   **Dadl**
5. Mae lefelau diweithdra yng Nghymru yn gostwng am fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno polisïau effeithiol.
   **Dadl**
6. Dywedodd rhywun nad yw am gael ei enwi nad yw polisïau diweithdra yn effeithiol
   **Dadl nad yw'n ddadl**
7. Nid yw polisïau diweithdra yn gweithio p'un a ydynt yn newydd ai peidio, yn fy marn i.
   **Dadl nad yw'n ddadl**
8. Mae polisi cyflogaeth Cymru yn debyg i bolisi cyflogaeth y DU.
   **Dadl nad yw'n ddadl**

**7.4 Sut i gyflwyno dadleuon yn symbolaidd**

**Rh1 Rh2**

↓

**C**

**Uned 8**

**Gweithgaredd 2**

1. Gan fod ceir yn rhyddhau llygredd, dylai fod opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus da ar gael.

2. Fel y nodir gan adroddiadau ar gynhesu byd-eang, dylai pobl fod yn fwy ecogyfeillgar.

3. Mae mwy o bobl yn rhoi'r gorau i smygu ers i e-sigaréts gael eu cyflwyno.

4. Mae pobl yn bwyta bwyd iachach mewn ffreuturau ysgolion diolch i ymgyrch Jamie Oliver i wella cinio ysgol.

5. O ystyried bod lefelau'r boblogaeth yn cael effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd, dylid cyflwyno polisi un plentyn mewn rhai gwledydd.

**Uned 9**

**Profi eich Hun 1**

**Dadl 1:** Mae cyfraddau glawiad cymharol uchel yng Nghymru. Mae cyfraddau glawiad cymharol isel yn Poole yn Dorset. Wrth benderfynu ble i fynd ar wyliau glan môr, yna Poole fydd y dewis gorau fwy na thebyg.

**Ffurflen safonol:**

**Rh1** Mae cyfraddau glawiad cymharol uchel yng Nghymru.

**Rh2** Mae cyfraddau glawiad cymharol isel yn Poole yn Dorset.

---

**C** Wrth benderfynu ble i fynd ar wyliau glan môr, yna Poole fydd y dewis gorau fwy na thebyg.

**Yn symbolaidd:**

**Rh1 Rh2**

↓

**C**

**Dadl 2:** Mae ymarfer corff yn dda iawn i chi. Mae'n eich cadw chi'n ffit, mae'n gwneud i chi deimlo'n dda, mae'n gwella dwyster eich esgyrn sy'n cyfyngu ar osteoporosis ac yn eich cadw'n hyblyg.

**Ffurflen safonol:**

**Rh1** Mae'n eich cadw chi'n ffit.

**Rh2** Mae'n gwneud i chi deimlo'n dda.

**Rh3** Mae'n gwella dwyster eich esgyrn sy'n cyfyngu ar osteoporosis.

**Rh4** Mae'n eich cadw chi'n hyblyg.

---

**C** Mae ymarfer corff yn dda iawn i chi.

**Yn symbolaidd:**

**Rh1 Rh2 Rh3 Rh4**

↓

**C**

**Dadl 3:** Mae bwydo ar y fron yn rhoi deiet maethlon i fabanod. O ganlyniad, dylai mamau allu bwydo eu babanod mewn unrhyw leoliad. Felly, dylid annog bwydo ar y fron mewn mannau cyhoeddus.

**Ffurflen safonol:**

**Rh1** Mae bwydo ar y fron yn rhoi deiet maethlon i fabannod.

**CD** Dylai mamau allu bwydo eu babannod mewn unrhyw leeoliad.

---

**C** Felly, dylid annog bwydo ar y fron mewn mannau cyhoeddus.

**Yn symbolaidd:**

**Rh1**

↓

**CD**

↓

**C**

**Dadl 4: a** Mae'r boblogaeth yn heneiddio. Mae angen codi mwy o dreth ar bobl er mwyn cefnogi poblogaeth sy'n heneiddio.

**Ffurflen safonol:**

**Rh1** Mae'r boblogaeth yn heneiddio.

---

**C** Mae angen codi mwy o dreth ar bobl er mwyn cefnogi poblogaeth sy'n heneiddio.

**Yn symbolaidd:**

**Rh1**

↓

**C**

**Uned 10**

**10.1: Beth yw tybiaethau mewn dadleuon?**

1. Lle y bo'n bosibl dylem deithio ar drên yn hytrach na mewn car. Bydd hyn yn lleihau nwyon tŷ gwydr a chynhesu byd-eang.
   **Tybiaeth: Mae angen mynd i'r afael â chynhesu byd-eang (neu debyg)**
2. Dylid ailgylchu pob math o sbwriel. Mae ei anfon i safleoedd tirlenwi yn niweidio'r amgylchedd.
   **Tybiaeth: Mae'n werth gwarchod yr amgylchedd (neu debyg)**
3. Dylid cefnogi Greenpeace. Mae potswyr yn hela ac yn lladd dolffiniaid a morfilod.
   **Tybiaeth: Dylid gwarchod dolffiniaid a morfilod (neu debyg)**

**Uned 19**

**Gweithgaredd unigol 2**

1. Beth yw'r nifer leiaf o sanau y bydd angen i chi eu tynnu allan i sicrhau bod gennych bâr sy'n cydweddu?
   **3 - os bydd y 2 gyntaf y byddwch yn eu tynnu allan o liwiau gwahanol, mae'n rhaid i'r drydedd gydweddu ag un ohonynt**
2. Beth yw'r nifer fwyaf y gallwch eu tynnu allan heb gael pâr sy'n cydweddu?
   **2 - fel uchod. Os bydd y 2 gyntaf yn wahanol, mae'n rhaid i'r drydedd gydweddu ag un ohonynt**
3. Beth yw'r nifer leiaf y gallwch eu tynnu allan er mwyn sicrhau bod gennych un o bob lliw?
   **9 - gallai'r 8 gyntaf y byddwch yn eu tynnu allan fod yn frown - mae'n rhaid i'r nawfed fod yn llwyd tywyll ac felly bydd gennych un o bob un**
4. Beth yw'r nifer fwyaf y gallwch eu tynnu allan a'u bod i gyd yr un lliw?
   **8 - gallai'r 8 gyntaf y byddwch yn eu tynnu allan fod yr un lliw**
5. Beth yw'r nifer lleiaf y gallwch eu tynnu allan er mwyn sicrhau bod gennych bâr llwyd?

**10 - gallai'r 8 gyntaf fod yn frown felly byddai angen 2 arall arnoch i gael pâr llwyd.**




**5 yw'r rhif sydd ar goll.**

**Gweithgaredd unigol 5**

| Enw | Cyfenw | Rhif Tŷ | Cath |
|---|---|---|---|
| Rhys | Morgan | 21 | Dave |
| Mohamed | Jones | 23 | Tippytoes |
| Stewart | Smith | 22 | Smudge |

**Uned 21**

**21.1: Beth yw fformatau posibl gwybodaeth?**

**Gweithgaredd unigol 1**

I. At ba arhosfan y byddwch chi'n cerdded?
**Gwesty Yorkshire Bridge**

II. Faint o'r gloch mae eich bws?
**08:30**

III. Am faint o amser y byddwch ar y bws?
**22 munud**

IV. Faint o'r gloch mae eich bws yn ôl i orsaf Sheffield?
**15:52**

**Gweithgaredd unigol 2**

| | Math | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Oedran** | Sky | Freeview | NetFlix | Cyfanswm |
| **18-25** | 45 | 57 | 21 | 123 |
| **26-40** | 119 | 83 | 34 | 245 |
| **41-60** | 54 | 50 | 28 | 132 |
| **Cyfanswm** | 218 | 190 | 92 | 500 |

Dylai fod yn 43

**Gweithgaredd unigol 3**

**Mehefin**

**Gweithgaredd unigol 4**

Chwaraeodd Team Football Fanatics 4 gêm. Gellir dod i'r casgliad hwn gan fod 32 o dimau yn y rownd gyntaf felly roedd 16, 8 a 4 o dimau yn y rowndiau dilynol ar ôl iddynt gael eu curo. Roedd pob gêm yn para 2 x 20 munud = 40 munud. Fodd bynnag, chwaraeodd Team Football Fanatics y ddau gyfnod ychwanegol mewn un gêm - cyfanswm o 20 munud. Felly cyfanswm eu hamser chwarae oedd 4 x 40 munud + 20 munud = 180 munud neu gyfanswm o 3 awr.

**Gweithgaredd unigol 5**

**Un**

**Gweithgaredd unigol 6**

**Newid bwlb**

**21.2: Sut rydym yn cael gafael ar wybodaeth ddibynadwy a chredadwy gan ddefnyddio'r rhyngrwyd?**

1. Toddwch y menyn, siwgr, triog a surop mewn sosban fach, a'i chwisgio nes bydd yn llyfn. Rhowch i'r naill ochr i oeri am 10 munud.
2. Cynheswch y popty i 160C/140C gwyntyll/nwy 3. Irwch dun torth 2lb a'i leinio â phapur pobi (roedd ein tun ni yn 22 x 7 x 7cm).
3. Mewn powlen, cymysgwch y blawd, soda pobi, sinsir mâl, sinamon a 1/2 llwy de o halen.
4. Arllwyswch y cymysgedd surop cynnes a'r llaeth i mewn ac yna'r melynwy. Chwisgiwch hyd nes i chi gael cytew llyfn.
5. Arllwyswch ef i mewn i'r tun a'i bobi am awr neu hyd nes y bydd sgiwer yn dod allan yn lân. Gadewch iddo oeri yn y tun am 30 munud, yna sleisiwch y top i gael arwyneb llyfn.
6. Trowch y gacen allan ar resel wifrau a thynnwch y papur pobi.
7. Er mwyn gwneud yr hufen menyn, rhowch y cynhwysion mewn powlen fawr a'u stwnsio gyda'i gilydd gan ddefnyddio fforc neu sbatwla (bydd hyn yn atal y siwgr eisin rhag mynd i bobman).
8. Ar ôl eu cyfuno'n fras, cymysgwch gyda chwisg llaw trydanol hyd nes y bydd yn llyfn.
9. Nawr gwnewch yr eisin malws melys. Rhowch y gwynwy, siwgr, 1 llwy fwrdd o ddŵr a phinsiad da o halen mewn powlen sy'n gwrthsefyll gwres. Rhowch y bowlen dros sosban o ddŵr sy'n mudferwi, gan sicrhau nad yw'n cyffwrdd â'r dŵr poeth, a'i chwisgio.

10. Ar stand cacennau neu blât, rhowch y gacen yn ôl at ei gilydd, gyda'r sleisen fwyaf ar y gwaelod, gan roi haen o hufen menyn arni.
11. Rhowch hanner y cymysgedd mewn bag peipio gyda phig mawr crwn a'i roi i'r naill ochr.
12. Pan fyddwch yn barod i roi popeth at ei gilydd, sleisiwch y gacen ar ei hyd yn 3 haen gyfartal.
13. Gan ddefnyddio cyllell balet onglog fach neu gyllell fenyn fach, gorchuddiwch y gacen â'r eisin malws melys sy'n weddill yn y bowlen.
14. Defnyddiwch y gyllell balet i greu llinellau fertigol ar hyd yr ochrau.
15. Nawr defnyddiwch y bag peipio i beipio pigau meringue dros dop y gacen.
16. Defnyddiwch chwythlamp cogydd i dostio'r meringue hyd nes y bydd yn frown euraid - bydd rhai rhannau wedi llosgi yn ychwanegu at yr effaith.
17. Gweinwch y gacen ar unwaith neu oerwch am hyd at 2 ddiwrnod, gan ei thynnu o'r oergell 30 munud cyn ei gweini.